**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

6 Gorffennaf 2023

Annwyl Llŷr,

**Adolygiad Annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi - Adroddiad**

Ysgrifennais atoch ym mis Gorffennaf 2021 i'ch hysbysu am y trefniadau ar gyfer adolygiad annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT). Mae hyn yn mynd i'r afael ag ymrwymiad a wnaed yn ystod hynt Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd, i gynnal adolygiad annibynnol. Yn dilyn proses dendro agored, penodwyd Eunomia Research and Consulting ym mis Mehefin 2022 i gynnal yr adolygiad annibynnol, gyda'r adolygiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2023.

Bydd y Pwyllgor am fod yn ymwybodol bod Eunomia wedi cwblhau'r adolygiad a bod ei adroddiad wedi'i gyhoeddi heddiw ar wefan llyw.cymru. Roedd cwmpas yr adolygiad yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd LDT a'i rhoi ar waith. Yn benodol, nod yr adolygiad oedd ystyried effaith cyfraddau LDT ar ymddygiad yn y sector gwastraff ac i ba raddau y mae deddfwriaeth LDT wedi dylanwadu ar ymddygiadau.

Amgaeaf gopi o'r adroddiad llawn a'r crynodeb gweithredol. Bydd y casgliadau a'r argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad yn llywio datblygiad LDT yn y dyfodol.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 69/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 06/07/2023

# Adolygiad Annibynnol o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

## Crynodeb

### 1. Nodau a methodoleg yr ymchwil

1.1 Cafodd Rheoliadau Trethi Tirlenwi 1996 eu cyflwyno yn y Deyrnas Unedig gyda'r prif nod o leihau gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi ac o annog canlyniadau mwy cynaliadwy wrth reoli gwastraff. Cafodd y dreth ei datganoli i Gymru trwy Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

1.2 Comisiynwyd adolygiad annibynnol o Dreth Gwarediadau Tirlenwi Cymru i asesu ei heffeithiolrwydd trwy ysyried unrhyw wersi a ddysgwyd ers iddi ddod i rym. Mae'r ymchwil yn ymdrin â'r cyfnod o fis Medi 2017 hyd fis Mawrth 2023.

1.3 Nod yr adolygiad hwn oedd ateb dau gwestiwn ymchwil cyffredinol:

- Pa effaith mae cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi wedi ei gael ar ymddygiadau yn y sector gwastraff (gan gynnwys gwarediadau anawdurdodedig)? (Effaith)
- I ba raddau mae deddfwriaeth y dreth gwarediadau tirlenwi (sef heblaw cyfraddau treth) wedi dylanwadu ar ymddygiadau? (Ymddygiadau)

1.4 Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys adolygiad desg a dadansoddiad ac ymchwil uniongyrchol gyda rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys arolygon a chyfweliadau.

1.5 Cynhaliwyd cyfweliadau gyda chwe grŵp o randdeiliaid. Y rhain oedd: cymdeithasau masnach; sefydliadau amgylcheddol; rheoleiddwyr, llywodraeth a llunwyr polisi; casglwyr masnachol / gweithredwyr seilwaith arall; gweithredwyr safleoedd tirlenwi; a chynhyrchwyr gwastraff. Fodd bynnag, effeithiwyd ar yr ymchwil uniongyrchol gan gyfraddau cyfranogi isel gan randdeiliaid. Trwy ymestyn ffrâm amser y cyfweliadau a symleiddio'r arolwg, roedd yr astudiaeth yn gallu cynnwys 29 o randdeiliaid mewn cyfweliadau a 44 o ymatebwyr i'r arolwg. Nid oedd y data a gasglwyd yn gwbl gynrychioliadol.

1.6 Cylchredwyd yr arolygon i bedwar o grwpiau targed rhanddeiliaid gan gynnwys darparwyr triniaethau amgen gwastraff, casglwyr masnachol, gweithredwyr safleoedd tirlenwi, a darparwyr gwasanaethau llogi sgipiau.

## 2. Canfyddiadau allweddol

### Effaith cyfraddau Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru

2.1 **Effaith ar ailgylchu ac ailddefnyddio:** Rhwng 2018-2022, cynyddodd cyfraddau ailgylchu 2 y cant, er na chynyddodd cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi mewn termau real. Er y gallai'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi fod wedi cynyddu ailgylchu, credai rhanddeiliaid fod ffactorau eraill yn dylanwadu (yn benodol arwyddion gwleidyddol fod tirlenwi yn ddewis anghynaliadwy a thargedau ailgylchu statudol awdurdodau lleol) wedi cael mwy o effaith.

2.2 **Defnyddio technolegau amgen:** Mae'r symiau o wastraff trefol a masnachol a diwydiannol a anfonir i safleoedd tirlenwi wedi lleihau dros amser. Ar yr un pryd, mae'r cyfraddau ailgylchu, ailddefnyddio, a chompostio ar gyfer y ffrydiau gwastraff hyn wedi cynyddu, fel mae llosgi. Mae'r cynnydd yn y defnydd o dechnolegau triniaeth amgen ar gyfer y ffrydiau gwastraff hyn i'w briodoli i ffactorau y tu hwnt i Dreth Gwarediadau Tirlenwi Cymru. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys cost is ynni o wastraff (o gymharu â thirlenwi) a'r cyd-destun polisi ehangach megis targedau ailgylchu statudol awdurdodau lleol, y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, a gofynion dim gwastraff i dirlenwi. Hefyd, mae gwastraff adeiladu a dymchwel a anfonir i safleoedd tirlenwi wedi lleihau, sy'n dangos y cynnydd mewn defnyddio dewisiadau triniaethau amgen yn y Deyrnas Unedig.

2.3 **Cyfatebiaeth ag effaith amgylcheddol ffrydiau gwastraff:** Roedd y data yn amwys ynghylch a oedd cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gymesur ag effaith amgylcheddol gwahanol ffrydiau gwastraff. Bydd hyn yn gofyn am astudiaeth fwy cynhwysfawr. Roedd rhanddeiliaid yn awgrymu'r angen am gyflwyno gwahanol gyfraddau treth i gynrychioli baich amgylcheddol gwahanol ddeunyddiau, ond mae'n bwysig ystyried effaith posibl hyn ar reoliadau presennol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

2.4 **Effeithiau ar ffrydiau gwastraff penodol:** Nodwyd sawl ffrwd gwastraff fel rhai nad oedd cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gweithredu fel atalydd rhag triniaeth tirlenwi: gypsum; asbestos; lludw gwaelod llosgydd; priddoedd halogedig; cyfansoddion anorganaidd actifedd isel; plastigau, tecstilau, pren; a gwastraff cymysg wedi ei drin. Y prif reswm dros barhau i ddefnyddio tirlenwi ar gyfer y ffrydiau gwastraff hyn yw naill ai ddiffyg mynediad at gyfleusterau triniaeth amgen a chost ratach gwaredu o gymharu â triniaeth amgen. Awgrymai rhanddeiliaid addasu cyfradd treth y ffrydiau gwastraff neu cyflwyno cyfradd dreth ganolig i ymateb i hyn.

2.5 **Twristiaeth gwastraff:** Nid yw'r dystiolaeth yn dangos bod Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru yn ffactor pwysig mewn dylanwadu ar lif trawsffiniol gwastraff rhwng Cymru a chenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig. Mae'r ffin yn agored, gyda gwastraff yn teithio ar draws y ffin i'w drin yn y ddau gyfeiriad oherwydd agosrwydd, hwylustod a chost (ffioedd clwyd a thrafnidiaeth).

2.6 **Ffioedd clwyd:** Dengys data fod ffioedd clwyd tirlenwi yn lleihau mewn termau real. Y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ffioedd clwyd yw amodau'r farchnad a chostau

sylfaenol safleoedd tirlenwi (gweithrediadau, peirianneg a seilwaith). Ni chanfuwyd gwahaniaeth mewn ffioedd clwyd rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig.

2.7 **Camddisgrifio gwastraff:** Mae'r bwlch rhwng cyfraddau is a chyfraddau safonol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cyfrannu at gamddosbarthu bwriadol gwastraff. Fodd bynnag, mae angen tystiolaeth bellach i ddeall graddau'r camddosbarthu a sut y gorfodir ar hyn. Er mwyn gwrthsefyll camddosbarthu, roedd rhanddeiliaid yn awgrymu lleihau'r bwlch mewn cyfraddau, cyflwyno cyfradd dreth ganolig, neu neilltuo'r cyfrifoldeb dros ddosbarthu gwastraff i gynhyrchwr y gwastraff. Mae'r gyfradd is hefyd wedi anghymell y drefnydd o ddewisiadau drutach (o gymharu â thirlenwi) amgen a chynaliadwy o drin gwastraff.

2.8 **Gwarediadau anawdurdodedig:** Er bod rhanddeiliaid o'r farn fod y gyfradd gwarediadau anawdurdodedig (150% o'r gyfradd safonol) yn synhwyrol, codwyd cwestiynau ynghylch ei effeithiolrwydd posibl wrth atal troseddau gwastraff oherwydd diffyg gwelededd a gorfodi. Roedd rhanddeiliaid yn mynegi'r farn hefyd nad oedd, hyd yma, unrhyw effaith weladwy o'r gyfradd o 150% o gymharu â chyfradd Lloegr a'r Alban.

### Effaith rheoleiddio

2.9 **Gwahaniaethau yn neddfwriaeth y Deyrnas Unedig:** Er gwaethaf rhai gwahaniaethau deddfwriaethol rhwng y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'r Dreth Tirlenwi a Threth Tirlenwi'r Alban (sef disgowntiau, esemptiadau a rhyddhadau dŵr, ffrydiau gwastaff cyfraddau is, gwarediadau anawdurdodedig a threthadwy), mae'r ddeddfwriaethau'n debyg yn fras. Roedd gan randdeiliaid a gyfwelwyd ddiffyg ymwybyddiaeth yn gyffredinol o'r gwahaniaethau mewn deddfwriaeth ac felly'n ei chael yn anodd cynnig sylwadau manylach ar hyn.

2.10 **Rhyddhadau, disgowntiau ac esemptiadau:** Nid oedd y data yn ddiamheuol ynghylch yr effeithiau mae rhyddhadau, disgownt ac esemptiadau yn eu cael ar ymddygiad trethdalwyr, nac ynghylch y graddau maent yn briodol ac angenrheidiol.

2.11 **Amwyseddau a bylchau mewn deddfwriaeth:** Ni nodwyd unrhyw amwyseddau o fewn y ddeddfwriaeth fel rhan o'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, gallai hyn adlewyrchu diffyg ymwybyddiaeth o'r gwahaniaethau mewn deddfwriaeth ac nid yw'n golygu nad oes amwyseddau.

2.12 **Graddau risg y dreth:** I rai rhanddeiliaid, mae gwahaniaethau deddfwriaethol yng Nghymru ynghylch disgownt dŵr wedi cael effaith negyddol ar risg treth oherwydd costau cynyddol gweithredu a chau rhan o'r farchnad. Ar y llaw arall, roedd rhanddeiliad arall yn nodi bod disgownt dŵr yn agored i'w camddefnyddio lle'r oedd rhai gweithredwyr wedi bod yn hawlio rhyddhad am ddŵr heb gyflawni unrhyw weithgareddau cymhwyso i brofi hyn.

2.13 **Hyfywedd tirlenwi:** Mae'r data yn amwys ynghylch effaith deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar hyfywedd tirlenwi. Er bod rhanddeiliaid yn nodi'r baich ariannol a gweinyddol sy'n codi o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, nid oes dim tystiolaeth i awgrymu bod hyn wedi effeithio'n uniongyrchol ar hyfywedd safleoedd tirlenwi. Mae'r nifer o safleoedd tirlenwi wedi aros yn rhesymol sefydlog tra bod cyfanswm tunelli a aeth i safleoedd tirlenwi wedi gostwng rhwng 2018-2022.

2.14 **Ymddygiad y diwydiant ac arloesi o'i fewn:** Yn bennaf trwy weithredu fel ysgogydd ariannol, mae deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi dylwanadu ar ymddygiad y diwydiant yn ehangach ac ar arloesi o'i fewn, gan hyrwyddo arferion amgen a chynaliadwy o reoli gwastraff. Fodd bynnag, mae trosolion polisi amgylcheddol eraill wedi dylanwadu ar ymddygiad ac arloesi (i raddau mwy, gellir dadlau), sef targedau datgarboneiddio, targedau ailgylchu statudol llywodraeth leol a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

### Canfyddiadau ehangach

2.15 **Gwersi a ddysgwyd o wledydd eraill y Deyrnas Unedig:** Ni chanfuwyd unrhyw wersi penodol o wledydd eraill y Deyrnas Unedig a allai ddangos ffyrdd o newid ymddygiad ymhellach o safbwynt trethi tirlenwi fel rhan o'r adolygu. Canfuwyd dulliau presennol o gydweitho a rhannu gwybodaeth, gan cynnwys trafodaethau tair-gwlad.

2.16 **Cydnawsedd â pholisi amgylcheddol ehangach:** Mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gydnaws iawn â pholisïau a blaenoriaethau amgylcheddol eraill Llywodraeth Cymru. Mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn bod fel rhan o dirwedd polisi ehangach sy'n cynnwys targedau ailgylchu statudol awdurdodau lleol ac uchelgeisiau datgarboneiddio a sero net, gyda'r cyfan â'r nod o ddargyfeirio gwastraff o dirlenwi. Wrth edrych ymlaen, bydd cyflwyno cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr a chynllun dychwelyd ernes yn ategu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ymhellach.

2.17 **Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi:** Mae cefnogi cymunedau trwy Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn un o fuddion cadarnhaol Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru). Er nad yw Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn anelu'n benodol ar ddylanwadau ar y sector rheoli gwastraff, canfuwyd ei fod yn hyrwyddo camau gweithredu o'r gwaelod i fyny trwy brosiectau a gefnogwyd gan gylllid y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae prosiectau o'r fath yn cefnogi'r economi gylchol a chanlyniadau amgylcheddol ehangach.

## 3. Casgliadau/Argymhellion

3.1 Roedd yn anodd her barnu effeithiolrwydd penodol y dreth gwarediadau tirlenwi ynddi ei hun oherwydd ei bod yn rhan o dirwedd polisi ehangach, ac mae'n anodd gwahanu ei heffeithiau uniongyrchol oddi wrth ymyraethau eraill. Roedd anawsterau wrth ennyn ymateb rhanddeiliaid addas a hefyd diffyg data ar gael ar gyfer yr astudiaeth hon.

3.2 Dengys y canfyddiadau fod y dreth gwarediadau tirlenwi yn gydnaws iawn â pholisïau a blaenoriaethau amgylcheddol eraill Llywodraeth Cymru a'i bod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at flaenoriaethau rheoli gwastraff, ond mae ymyraethau polisi eraill a ffactorau allanol wedi chwarae rhan fwy mewn annog effaith cadarnhaol i ailddefnyddio, ailgylchu, a defnyddio technolegau amgen.

3.3 Roedd y gwelliannau i'r dreth a awgrymwyd gan randdeiliaid yn cynnwys cyflwyno gwahanol gyfraddau o'r dreth, gan newid y cyfraddau ar sail y driniaeth o ddeunyddiau, lleihau beichiau gweinyddol ar weithredwyr tirlenwi a neilltuo mwy o adnoddau fel refeniw treth i wella rheoleiddio'r dreth gwarediadau tirlenwi.

Teitl: Adolygiad Annibynnol o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017
Is-deitl: Crynodeb

Awdur(on): Joe Hudson, Alexa Cancio, Sam Taylor, Paula Orr, Leyla Lugal, Petra Bistričić, Rhiannon Lee

Adroddiad Ymchwil Llawn: Joe Hudson, Alexa Cancio, Sam Taylor, Paula Orr, Leyla Lugal, Petra Bistričić, Rhiannon Lee; (2023). Adolygiad Annibynnol o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 69/2023.
Ar gael ar: [https://www.llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-deddf-treth-gwarediadau-tirlenwi-cymru-2017](https://www.llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-deddf-treth-gwarediadau-tirlenwi-cymru-2017)

Barn yr ymchwilydd yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwil.gwasanaethauchoeddus@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-294-6

Rhif ymchwil cymdeithasol:
69/2023
Dyddiad cyhoeddi:
06/07/2023

# Adolygiad Annibynnol o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-291-5

Teitl: Adolygiad Annibynnol o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017
Is-deitl: Adroddiad Terfynol

Awdur(on): Joe Hudson, Alexa Cancio, Sam Taylor, Paula Orr, Leyla Lugal, Petra Bistričić, Rhiannon Lee

Adroddiad Ymchwil Llawn: Joe Hudson, Alexa Cancio, Sam Taylor, Paula Orr, Leyla Lugal, Petra Bistričić, Rhiannon Lee; (2023). Adolygiad Annibynnol o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 69/2023.
Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-deddf-treth-gwarediadau-tirlenwi-cymru-2017

Barn yr ymchwilydd yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

**E-bost: ymchwil.gwasanaethauchoeddus@llyw.cymru**

## Tabl cynnwys

Rhestr tablau........................................................................................................2
Rhestr ffigurau ......................................................................................................3
Geirfa ..................................................................................................................4
1. Cyflwyniad..........................................................................................................8
2. Methodoleg .......................................................................................................14
3. Canfyddiadau allweddol – effaith cyfraddau treth........................................22
4. Canfyddiadau allweddol – effaith rheoleiddio...............................................46
5. Canfyddiadau allweddol – cwestiynau ehangach.........................................68
6. Casgliadau .......................................................................................................79
Atodiad A: Rhestr o grwpiau rhanddeiliaid ......................................................81
Atodiad B: Canllawiau Pwnc ............................................................................83
Atodiad C: Strategaeth samplu .........................................................................97
Atodiad D: Cwestiynau ymchwil a chwestiynau atodol..................................103

**Rhestr tablau**

Tabl 1: Geirfa ........ 4
Tabl 2: Cwestiynau ymchwil ........ 11
Tabl 3: Niferoedd targed a’r niferoedd a gyflawnwyd o gyfweliadau yn ôl grwpiau rhanddeiliaid ........ 17
Tabl 4: Maint samplau a gafwyd o grwpiau rhanddeiliaid a gwblhaodd yr arolygon ........ 18
Tabl 5: Cyfraddau ailgylchu Adeiladu a Dymchwel, a Masnachol a Diwydiannol Cymru ........ 25
Tabl 6: Cyfanswm o geisiadau disgownt dŵr yng Nghymru a dderbyniwyd gan Awdurdod Cyllid Cymru ........ 51
Tabl 7: Nifer o safleoedd tirlenwi yn y Deyrnas Unedig yn ôl cenedl, 2017 i 2022 ........ 55
Tabl 8: Nifer o weithredwyr safleoedd tirlenwi yn y Deyrnas Unedig ........ 56

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 1: Cyfraddau trethi gwarediadau tirlenwi enwol a gwirioneddol o gymharu â chyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio trefol (2009 – 2023) ........................23
Ffigur 2: Cyfraddau ailgylchu gwastraff blynyddol o gartrefi gwledydd y Deyrnas Unedig ...24
Ffigur 3: Yn gyffredinol, pa mor effeithiol neu aneffeithiol mae cyfraddau Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru wedi bod wrth gynyddu cyfraddau ailgylchu yng Nghymru? ...........27
Ffigur 4: Llwybrau trin gwastraff trefol awdurdodau lleol (kt), 2012/13 – 2020/21 ................30
Ffigur 5: Cost Ynni o Wastraff o gymharu â chost trin trwy dirlenwi ....................................31
Ffigur 6: Llifau o wastraff i safleoedd tirlenwi rhwng Lloegr a Chymru ................................38
Ffigur 7: Newid yn ffioedd clwyd safleoedd tirlenwi'r Deyrnas Unedig o gymharu â chyfraddau safonol trethi tirlenwi'r Deyrnas Unedig, 2014 i 2022............................40
Ffigur 8: Tunelli a gafodd eu tirlenwi (kt) yn ôl cyfradd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru, 2018/19 – 2021/22.........................................................................................57
Ffigur 9: Canran o wastraff tirlenwi a ffurfir o 191212 a 200301 yng Nghymru, 2015-2021 .57
Ffigur 10: I ba raddau mae'r dreth wedi bod yn ysgogydd / ystyriaeth ariannol i'ch sefydliad? ..........................................................................................................................60
Ffigur 11: Yn eich barn chi, beth oedd effeithiau cadarnhaol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar sector gwastraff Cymru yn ehangach?..............................................................62
Ffigur 12: Yn eich barn chi, beth oedd effeithiau negyddol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar sector gwastraff ehangach Cymru?.........................................................................65
Ffigur 13: Faint mae ymddygiad ac arloesi wrth reoli gwastraff wedi newid ers i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ddisodli'r dreth dirlenwi yn 2017?........................................68
Ffigur 14: Cyfanswm gwastraff a dderbyniwyd (kt) gan safleoedd tirlenwi, ar sail ffurflenni trwyddedu, wedi eu categoreiddio yn ôl Rhanbarthau Cymru, 2018-2021 .............71
Ffigur 15: Cyfanswm gwastraff a dderbyniwyd (kt) gan safleoedd tirlenwi wedi ei gategoreiddio yn ôl math o wastraff yng Nghymru, 2013 – 2021 ............................72

**Geirfa**

Caiff y talfyriadau allweddol a'r geiriau allweddol a ddefnyddir drwy gydol yr adroddiad eu hamlinellu a'u nodi yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Geirfa**

| Talfyriad/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| **Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA)** | DAERA sydd â'r cyfrifoldeb dros bolisi bwyd, ffermio, amgylcheddol, pysgodfeydd, coedwigaeth a chynaliadwyedd, a datblygu'r sector gwledig yng Ngogledd Iwerddon. |
| **Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)** | Adran sy'n gyfrifol am warchod yr amgylchedd, cynhyrchu a safonau bwyd, amaethyddiaeth, pysgodfeydd a chymunedau gwledig yn Lloegr. |
| **Asiantaeth Gwarchod Amgylchedd yr Alban (SEPA)** | Prif reoleiddiwr amgylcheddol yr Alban, sy'n diogelu a gwella amgylchedd yr Alban. |
| **Asiantaeth yr Amgylchedd (Lloegr) (EA)** | Corff cyhoeddus anadrannol yw Asiantaeth yr Amgylchedd, sydd â chyfrifoldebau'n ymwneud â gwarchod a gwella'r amgylchedd yn Lloegr. |
| **Awdurdod Cyllid Cymru** | Mae'n casglu ac yn rheoli'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru. |
| **Awdurdod lleol** | Sefydliad sy'n swyddogol gyfrifol am lawer o gwasanaethau a chyfleusterau cyhoeddus mewn ardal benodol. |
| **Chartered Institute of Wastes Management (CIWM)** | Sefydliad aelodaeth proffesiynol i unigolion yn y sector cynaliadwyedd, adnoddau a rheoli gwastraff. |
| **Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau (MRF)** | Cyfarpar prosesu deunydd y gellir ei ailgylchu. |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru** | Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy. |
| **Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR)** | Dull polisi amgylcheddol lle mae cyfrifoldeb ariannol cynhyrchwr am gynnyrch yn cael ei ymestyn i gyfnod ôl-ddefnyddiwr cylchred oes cynnyrch. |
| **Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC)** | Adran sy'n gyfrifol am gasglu'r rhan fwyaf o drethi, talu cymhorthdal y wladwriaeth, a gweinyddu cyfundrefnau |

| Talfyriad/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| | rheoleiddio yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yr isafswm cyflog cenedlaethol a phennu rhifau yswiriant gwladol. |
| **Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (WESA)** | Corff masnachol sy'n cynrychioli diwydiant rheoli adnoddau a gwastraff Cymru. |
| **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** | Sefydliad sy'n cynrychioli buddiannau llywodraeth leol a hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru. |
| **Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDTCS)** | Mae hyn yn cyfeirio at y Cynllun a gyhoeddwyd ar 28 Mawrth 2018 sy'n sail i'r rhaglen grantiau fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwarediadau (Cymru) 2017. Dyma destun yr adolygiad hwn (fel y pennir yn Adran 92 o'r Ddeddf). |
| **Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS)** | Cynllun ailgylchu lle mae defnyddwyr yn dalu blaendal ar gynhwysydd untro, y gellir ei ailhawlio wrth ddychwelyd y cynhwysydd gwag. |
| **Cynllun Lwfansau Tirlenwi** | Cynllun a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2004 i alluogi Cymru i gyrraedd ei chyfran o dargedau'r Gyfarwyddeb Tirlenwi o leihau'r swm o Wastraff Trefol Bioddiraddadwy a anfonir i safleoedd tirlenwi. https://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/1490/regulation/1/made |
| **Cynllun Masnachu Allyriadau y Deyrnas Unedig** | Mecanwaith marchnad i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n seiliedig ar egwyddor 'capio a masnachu'. Gosodir uchafswm ar y cyfanswm o nwyon tŷ gwydr y gellir eu hallyrru gan sectorau sy'n rhan o'r cynllun. O fewn yr uchafswm (y 'cap'), gall cyfranogwyr fasnachu lwfansau allyriadau fel bo'r angen. |
| **Deddfwriaeth** | Cyfraith neu set o gyfreithiau sydd wedi cael eu pasio gan Senedd. |
| **Gwastraff Adeiladu a Dymchwel** | Gwastraff a gynhyrchir wrth adeiladu a dymchwel adeiladau a seilwaith. |
| **Gwastraff Masnachol a Diwydiannol** | Gwastraff a gynhyrchir gan fusnesau, unedau cynhyrchu a swyddfeydd. |
| **Gweithredwyr safleoedd tirlenwi** | Gweithredwyr cofrestredig safleoedd tirlenwi sydd â chaniatâd o redeg safleoedd tirlenwi yng Nghymru. |

| Talfyriad/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| **Lludw Gwaelod Llosgydd** | Ffurf o ludw a gynhyrchir yn dilyn llosgi gwastraff mewn llosgydd. Mae cyfansoddiad lludw gwaelod llosgydd yn amrywio gan ddibynnu ar gyfansoddiad y gwastraff, ond gall gynnwys deunyddiau sy’n cynnwys metalau a choncrit. |
| **Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI)** | Ffordd o fesur chwyddiant ar yr amrywiad mewn prisiau nwyddau ac eitemau manwerthu a gyhoeddir yn fisol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. |
| **Revenue Scotland** | Adran anweinidogol o Lywodraeth yr Alban sy’n gyfrifol am gasglu a rheoli trethi datganoledig yr Alban. |
| **Rhaglen Weithredu Adnoddau Gwastraff (WRAP)** | Elusen gofrestredig Brydeinig sy’n gweithio gyda busnesau, unigolion a chymunedau i greu economi gylchol. |
| **Safleoedd tirlenwi** | Darn o dir lle gwaredir gwastraff. Mae rhai safleoedd wedi eu lleoli mewn hen fwyngloddiau neu chwareli segur. |
| **Treth Gwarediadau Tirlenwi** | Dyma’r dreth sy’n cael ei thalu yng Nghymru pan waredir gwastraff mewn safleoedd tirlenwi. Mae’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi mewn grym ers mis Ebrill 2018, pan ddisodlodd Dreth Tirlenwi y Deyrnas Unedig yng Nghymru. Caiff y dreth ei chodi yn ôl pwysau. |
| **Treth Tirlenwi** | Cyflwynwyd Rheoliadau Trethi Tirlenwi 1996 yn y Deyrnas Unedig gyda’r prif ddiben o leihau gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi ac annog canlyniadau mwy cynhaliadwy wrth reoli gwastraff. Yn dilyn datganoli, mae’r Dreth Tirlenwi yn gweithredu bellach yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. |
| **Treth Tirlenwi’r Alban (SLfT)** | Treth ddatganoledig ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yw Treth Tirlenwi yr Alban. Fe wnaeth y dreth hon ddisodli Treth Tirlenwi y Deyrnas Unedig yn yr Alban o 1 Ebrill 2015, yn dilyn pasio Deddf yr Alban 2012 a’r ddeddf dilynol, Deddf Treth Tirlenwi (yr Alban) 2014. |
| **Triniaeth Fiolegol Fecanyddol (MBT)** | Cyfleuster prosesu gwastraff sy’n cyfuno cyfleuster didoli â ffurf o driniaeth fiolegol megis compostio neu dreulio anaerobig. |
| **United Resource Operators Consortium (UROC)** | Corff masnach sy’n hysbysu, cynrychioli a chefnogi gweithredwyr annibynnol o fewn y sector gwastraff ac ailgylchu. |

| Talfyriad/Gair allweddol | Diffiniad |
| --- | --- |
| **WasteDataFlow** | System ar y we ar gyfer adrodd data ar wastraff trefol gan awdurdodau lleol i'r llywodraeth. |
| **Y Catalog Gwastraff Ewropeaidd (EWC)** | Mae'r Catalog Gwastraff Ewropeaidd yn cynnwys rhestr o ddisgrifiadau o wastraff, sydd wedi eu trefnu yn ôl codau dosbarthu ar gyfer mathau cyffredin o wastraff |
| **Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR)** | Mae'n monitro cyllid sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig ac yn darparu rhagolygon economaidd annibynnol. |
| **Ynni o Wastraff** | Mae Ynni o Wastraff yn ymwneud â chymryd gwastraff a'i droi'n ffurf ddefnyddiadwy o ynni (megis trydan, gwres a thanwyddau trafnidiaeth). Cyflawnir hyn yn aml trwy losgi. |

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir y prosiect

1.1 Cafodd Eunomia Research and Consulting (‘Eunomia’) eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i wneud adolygiad annibynnol o Dreth Gwarediadau Tirlenwi Cymru er mwyn asesu ei heffeithiolrwydd trwy ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd ers iddi ddod i rym. Mae’r ymchwil yn ymwneud â’r cyfnod o fis Medi 2017 hyd at fis Mawrth 2023.

1.2 Hyd yma, nid oes adolygiad annibynnol wedi bod o’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru. Mae’r ymchwil hwn yn ceisio canfod pa effeithiau y gellir eu priodoli’n uniongyrchol i’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae’r adolygiad hwn yn rhoi cyfle hefyd i gymharu’r canlyniadau â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig a chymaryddion rhyngwladol perthnasol.

1.3 Cyhoeddodd Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC) adolygiad yn 2014 a oedd yn ceisio deall effaith y Dreth Tirlenwi yn y Deyrnas Unedig.[1] Roedd yr ymchwil yn seiliedig ar 65 cyfweliad ansoddol gyda rhanddeiliaid ar draws y sector rheoli gwastraff. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn dweud bod y Dreth Tirlenwi wedi ysgogi cwymp yn y galw am dirlenwi a chynnydd mewn galw am ddewisiadau amgen ar gyfer trin gwastraff. Canfu’r ymchwil hefyd fod y dreth yn ysgogi troseddau gwastraff. Ni chyflawnodd Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi waith pellach i asesu effaith y Dreth Tirlenwi. Yn 2021, cyhoeddodd Trysorlys Ei Mawrhydi Alwad am Dystiolaeth ar agweddau o’r Dreth Tirlenwi.[2] Cafodd y crynodeb o ymatebion ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2023 ac amlinellir y canfyddiadau o’r Alwad am Dystiolaeth o fewn adrannau 3, 4 a 5 o’r adroddiad hwn.[3]

## Cefndir trethi tirlenwi

1.4 Cafodd Rheoliadau Trethi Tirlenwi 1996 eu cyflwyno yn y Deyrnas Unedig gyda’r prif nod o leihau gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi ac annog canlyniadau

[1] Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (2014). Qualitative Research into Drivers of Diversion from Landfill and Innovation in the Waste Management Industry
[2] Trysorlys Ei Mawrhyd (2021). Landfill Tax Review: call for evidence
[3] Trysorlys Ei Fawrhydi (2023). Summary of Responses to the Call for Evidence on aspects of Landfill Tax

mwy cynhaliadwy wrth reoli gwastraff. Dyma'r dreth gyntaf yn y Deyrnas Unedig ac iddi ddiben amgylcheddol penodol.[4] Roedd cyfraddau'r dreth yn cael eu gosod yn flynyddol yn y Gyllideb. Yng Nghyllideb 2009, dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai'n parhau i gynyddu cyfradd safonol y dreth £8 y dunnell bob blwyddyn tan o leiaf 2013, er mwyn lleihau dibyniaeth ar dirlenwi fel dull o waredu gwastraff. Ers 2014, mae'r cyfraddau wedi cael eu gosod i godi ar esgynnydd sy'n gysylltiedig â'r Mynegi Prisiau Manwerthu (RPI) i'w cysoni â chwyddiant rhagamcanol.

1.5 Cafodd y dreth ei datganoli i Gymru trwy Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017. Rhoddwyd grymoedd codi refeniw i Gymru trwy Ddeddf Cymru 2014.

1.6 Mae tair cyfradd o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru:

- cyfradd is ar gyfer deunyddiau sy'n anadweithiol i raddau helaeth (£3.25/tunnell, blwyddyn ariannol 2023/24);
- cyfradd safonol ar gyfer pob deunydd arall (£102.10/tunnell, blwyddyn ariannol 2023/24);
- cyfradd gwarediadau anawdurdodedig ar gyfer gwarediadau trethadwy a wneir mewn lleoedd heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig (£153.15/tunnell, blwyddyn ariannol 2023/24).

1.7 I wastraff a waredir mewn safleoedd tirlenwi awdurdodedg, mae'r gyfradd safonol ar waith 'oni bai fod cynnwys y deunydd a waredir yn gyfangwbl o un neu fwy o'r deunyddiau cymwys, neu'n gymysgedd cymwys o ddeunyddiau, lle codir y gyfradd is yn yr achos hwnnw.'[5] Gall deunyddiau cyfradd is gynnwys creigiau a phriddoedd, deunydd ceramig neu goncrid, mwynau, slagiau ffwrnais, lludw, cyfansoddion anorganaidd actifedd isel, calsiwm sylffad, a chalsiwm hydrocsid a dŵr hallt.[6]

1.8 Ar gyfer gwastraff a osodir mewn safle tirlenwi anawdurdodedig, y gyfradd dreth gwarediadau anawdurdodedig sydd ar waith. Mae'r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig wedi ei gosod yn uwch na'r gyfradd safonol (150 y cant o'r gyfradd

[4] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2009). Landfill tax: introduction & early history
[5] Llywodraeth Cymru (2023). Penderfynu faint o Dreth Gwarediadau Tirlenwi sy'n daladwy
[6] Deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2017). Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

safonol) fel atalydd ariannol ychwanegol i unigolion neu sefydliadau sy'n ceisio gwaredu gwastraff mewn modd anghyfreithlon.

1.9 Mae'r dull o osod cyfraddau treth wedi cael ei arwain gan y pum egwyddor treth a'r amcanion yw lleihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru.[7,8] Mae rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr (gweithredwyr y safleoedd tirlenwi) a'r diwydiant gwastraff yn ehangach hefyd wedi bod yn ffactor allweddol wrth osod y cyfraddau hyd yma.

1.10 Caiff y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ei gweinyddu a'i chasglu gan Awdurdod Cyllid Cymru ac mae'n darparu ffrwd refeniw sylweddol i Lywodraeth Cymru.

1.11 Caiff rôl tirlenwi ei diffinio yn nogfen strategaeth wastraff ddiweddaraf Cymru, 'Mwy nag Ailgylchu'.[9] Mae'r ddogfen, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, yn cadarnhau'r ymrwymiad i economi fwy cylchol lle defnyddir adnoddau gyhyd â phosibl ac osgoi gwastraff. Un amcan strategol allweddol yw lleihau'r swm o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (yn enwedig dim gwastraff bioddiraddadwy i'w anfon i safleoedd tirlenwi fel y nodir yng Nghyllideb Carbon Cymru Sero Net)[10], er mwyn cyflawni ymrwymiadau sero net. Fodd bynnag, mae tirlenwi yn debygol o barhau yn angenrheidiol fel ffordd o waredu rhai ffrydiau 'anodd' o wastraff.

### Nodau'r prosiect a chwestiynau'r ymchwil

1.12 Nod y prosiect oedd adolygu effeithiolrwydd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd ers iddi ddod i rym.

1.13 Nod yr adolygiad hwn oedd ateb dau gwestiwn ymchwil cyffredinol:

- Pa effaith mae cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei gael ar ymddygiadau yn y sector gwastraff (gan gynnwys gwarediadau heb ganatiâd)?
- I ba raddau mae deddfwriaeth y dreth gwarediadau tirlenwi (sef heblaw cyfraddau treth) wedi dylanwadu ar ymddygiadau?

---

[7] Llywodraeth Cymru (2021). Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2021

[8] Y pum egwyddor treth yw: codi refeniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl; helpu cyflawni amcanion cyllidol a pholisi ehangach, gan gynnwys swyddi a thwf economaidd; bod yn syml, clir a sefydlog; cyfathrebu â threthdalwyr a rhanddeiliaid ehangach; cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

[9] Llywodraeth Cymru (2021). Mwy nag Ailgylchu

[10] Llywodraeth Cymru (2021). Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021-25)

1.14 Mae’r dreth yn mynd law yn llaw ag amrywiaeth helaeth o offerynnau polisi gyda phob un ohonynt â’r nod o symud Cymru tuag at economi fwy cylchol. Mae hyn yn arwain at gymhlethdod i’r ymchwil ac yn golygu bod priodoli’r effaith unigol i’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn her neilltuol.

1.15 Defnyddiwyd y cwestiynau ymchwil manwl (fel y nodir yn Nhabl 2) i arwain yr adolygiad. Caiff y canfyddiadau i’r cwestiynau ymchwil hyn a’u cwestiynau ymchwil atodol cyfatebol (Atodiad D) eu cyflwyno yn y Canfyddiadau Allweddol (adrannau 3, 4 a 5).

**Tabl 2: Cwestiynau ymchwil**

| **Math o gwestiwn** | **Cwestiwn ymchwil** |
|---|---|
| Effaith | A1 A yw’r dull a ddefnyddiwyd hyd yma i godi’r gyfradd safonol ac is yn unol â chwyddiant wedi bod yn effeithiol wrth annog cynnydd mewn ailgylchu ac ailddefnyddio? |
| | A2 Beth yw effaith y bwlch rhwng y gyfradd is a safonol mewn perthynas ag ymddygiad? |
| | A3 I ba raddau mae’r gwahanol gyfraddau a chategorïau gwastraff yn neddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gymesur ag effeithiau amgylcheddol cyffredinol ffrydiau gwastraff o’r fath? |
| | A4 A oes ffrydiau gwastraff penodol nad yw’n ymddangos bod y cyfraddau’n cael effaith ataliol ar eu cyfer? |
| | A5 A oes unrhyw gydberthynas wedi bod rhwng cynnydd yng nghyfraddau’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chynnydd yn y defnydd o dechnolegau amgen mwy cynaliadwy (ee treulio anaerobig a chompostio)? |
| | A6 Ystyriwch rôl Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru yn yr hyn sy’n ysgogi llif gwastraff rhwng Lloegr (a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig) a Chymru ac unrhyw faterion sy’n ymwneud â chymell ymddygiad a thwristiaeth gwastraff. |
| | A7 Archwiliwch y rhyngweithio rhwng ffioedd clwyd a chyfraddau’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. |
| | A8 A oes unrhyw dystiolaeth fod cael y gyfradd gwarediadau anawdurdod iechyd wedi cael effaith ataliol? |

| **Math o gwestiwn** | **Cwestiwn ymchwil** |
|---|---|
| Ymddygiad | B1 A oes unrhyw dystiolaeth fod y gwahaniaethau mewn deddfwriaeth Trethi Gwarediadau Tirlenwi o fewn y Deyrnas Unedig wedi cael effaith, ac os felly, a yw'r effaith hon wedi bod yn gadarnhaol neu negyddol ar: gyfraddau ailgylchu; lefelau o risg treth; hyfywedd busnesau tirlenwi/gwastraff? |
| | B2 Beth sydd wedi newid yng Nghymru o ganlyniad i'r Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi? |
| | B3 Sut mae'r ddeddfwriaeth wedi dylanwadu ar ymddygiad y diwydiant ac ar arloesi? |
| | B4 A yw cynllun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi newid ymddygiad o ran camddisgrifio gwastraff i ddibenion treth? |
| | B5 A oes unrhyw amwyseddau neu fylchau yn y ddeddfwriaeth bresennol sy'n golygu bod llai o dreth na'r disgwyl yn cael ei gasglu? |
| | B6 Pa effaith mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei gael ar gynnydd tuag at gyrraedd targedau amgylcheddol presennol ee 2025 a 2050 'Strategaeth Mwy nag Ailgylchu' gan gynnwys beth sydd wedi bod yn effeithiol a heb fod mor effeithiol? |
| Cwestiynau ehangach | C1 A oes gwersi i'w dysgu gan wledydd eraill y Deyrnas Unedig a allai ddangos ffyrdd at newid pellach mewn ymddygiad mewn perthynas â threthi tirlenwi? |
| | C2 Pa mor gyson yw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi â pholisi amgylcheddol ehangach? |
| | C3 Pa effaith mae cynllun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chyfraddau treth wedi ei gael ar benderfyniadau'r diwydiant ynghylch hyfywedd safleoedd tirlenwi yng Nghymru? |
| | C4 Pa effaith mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi eu gael ar ymddygiad y sector gwastraff ac ar ganlyniadau amgylcheddol ehangach ar sail yr adolygiad annibynnol o Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi? |

### Cwmpas y prosiect

1.16 Mae cwmpas yr adolygiad yn ymestyn dros y cyfnod o fis Medi 2017 hyd fis Mawrth 2023. Ym mis Medi 2017 y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru).

1.17 Nid yw'r ymchwil yn ystyried perfformiad Awdurdod Cyllid Cymru wrth gasglu a rheoli'r dreth. Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn cyhoeddi ei adroddiad a'i gyfrifon blynyddol ar ei wefan, ynghyd â bwletinau ystadegol rheolaidd. Creffir ar rôl Awdurdod Cyllid Cymru mewn gweinyddu a chasglu'r dreth gan bwyllgorau perthnasol Senedd Cymru hefyd.

### Strwythur yr adroddiad

1.18 Mae'r adroddiad hwn wedi ei strwythuro fel a ganlyn, gydag:

- Adran 2 yn cyflwyno trosolwg o'r fethodoleg.
- Adrannau 3, 4 a 5 yn amlinellu prif ganfyddiadau'r arolwg. Ar gychwyn pob is-adran, diffinir y cwestiynau ymchwil mae'n ymateb iddynt.
- Adran 6 yn rhoi casgliad yr astudiaeth.

# 2. Methodoleg

2.1 Cafodd y fethodoleg ar gyfer yr adolygiad hwn ei datblygu gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb â chwmpas, nodau a chwestiynau ymchwil y prosiect (a drafodir yn adran 1). Cafodd yr adolygiad ei hollti'n dri cham:

- Cam un: adolygiad a dadansoddiad desg.
- Cam dau: ymchwil uniongyrchol gyda rhanddeiliaid (arolwg a chyfweliadau).
- Cam tri: cyfuno data (cyfuno'r canfyddiadau o gam un a dau).

2.2 Datblygwyd fframwaith gwerthuso cyn cychwyn cam un. Roedd hwn yn mapio dangosyddion addas a ffynonellau data yn erbyn pob un o'r cwestiynau ymchwil. Caiff y dull ar gyfer datblygu'r fframwaith ei ddisgrifio isod, a ddilynir gan y dull ar gyfer camau un, dau a thri.

**Fframwaith gwerthuso**

2.3 Diben y fframwaith gwerthuso oedd galluogi dull systematig o ateb y cwestiynau ymchwil. Roedd y fframwaith yn nodi'r elfennau canlynol ar gyfer pob cwestiwn ymchwil a chwestiwn atodol (gweler Tabl 2):

- meini prawf barnu – a safonau neu dargedau y gellir eu defnyddio i ddeall llwyddiant (neu fel arall);
- dangosyddion – y math o ddata sy'n ofynnol ar gyfer asesu a fodlonwyd y meini brawf barnu;
- dull casglu data – y dull o gasglu data a ddewiswyd ar gyfer y dangosyddion (uniongyrchol neu eilaidd); a
- ffynhonnell y data hyn.

2.4 Defnyddiwyd yr wybodaeth o fewn y fframwaith gwerthuso i arwain yr ymchwil desg, a nodir yn yr adran olynol.

**Cam 1 – adolygiad a dadansoddiad desg**

2.5 Cyflawnwyd adolygiad desg i ganfod ffynonellau data a allai roi ymateb cychwynnol i gwestiynau'r ymchwil a gosod sail ar gyfer dull yr ymchwil uniongyrchol. Mae'r

ffynonellau'n disgyn i amrywio o gategorïau sydd wedi eu dosbarthu isod gydag enghreifftiau:

- **Deddfwriaeth** (ee deddfwriaeth a nodiadau esboniadol Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru 2017.
- **Polisi a strategaeth** (ee Cymru Sero Net, Strategaeth Mwy nag Ailgylchu).
- **Ystadegau a rhagolygon** (ee rhagolygon trethi Cymru y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), ystadegau refeniw y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, Awdurdod Cyllid Cymru).
- **Data gwastraff** (ee data ffurflenni data Cyfoeth Naturiol Cymru o safleoedd a ganiateir, setiau data cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwastraff a gaiff ei gasglu a'i drin, WasteDataFlow am wybodaeth ar safleoedd anghyfreithlon a thrin gwastraff awdurdodau lleol, ffurflenni chwarterol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gweithredwyr safleoedd tirlenwi ers 2015).
- **Arolygon** (ee arolygon gwastraff Masnachol a Diwydiant Cyfoeth Naturiol Cymru, Arolwg Adeiladu a Dymchwel Cyfoeth Naturiol Cymru).
- **Adroddiadau** (ee adroddiadau Ffioedd Clwyd Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP), Adroddiadau Cyflwr Adnoddau Naturiol, Cyfoeth Naturiol Cymru).

2.6 Lle bo'n bosibl, cafodd y data ei ddewis gyda'r sefydliadau canlynol a'i gaffael yn uniongyrchol ganddynt: Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd (Lloegr), Asiantaeth Gwarchod Amgylchedd yr Alban (SEPA), a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR). Roedd hyn yn galluogi mynediad at yr wybodaeth ddiweddaraf a mwyaf perthnasol.

2.7 Cofnodwyd yr wybodaeth mewn Excel a'i mapio gyferbyn â phob cwestiwn ymchwil. Rhoddwyd cyfeirnod llawn i bob cofnod, a gwnaed defnydd llawn o dagiau a hidlo yn y gronfa ddata er mwyn sicrhau bod modd echynnu'r data yn rhwydd.

**Cam 2 – ymchwil uniongyrchol gyda rhanddeiliaid**

2.8 Roedd yr ymchwil uniongyrchol yn cynnwys cyfuniad o gyfweliadau ac arolygon. Datblygu strategaeth samplu i bennu pa randdeiliaid ddylid rhoi blaenoriaeth i'w targedu a sut i samplu a chynnwys pob grŵp (gweler Atodiad C).

*Cyfweliadau*

2.9 Cynhaliwyd cyfweliadau gyda chwe grŵp o randdeiliaid. Y rhain oedd: cymdeithasau masnach; sefydliadau amgylcheddol; rheoleiddwyr / cyrff llywodraeth; casglwyr masnachol / gweithredwyr seilwaith eraill; gweithredwyr safleoedd tirlenwi; a chynhyrchwyr gwastraff.

2.10 Diben y cyfweliadau oedd ceisio dealltwriaeth drylwyr gan amrywiaeth helaeth o grwpiau rhanddeiliaid a oedd ag adnabyddiaeth o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, yn hytrch na chasglu adborth cynrychioliadol gan bob grŵp o randdeiliaid. Oherwydd hyn, aed ati i sicrhau bod y samplu'n gyson â'r nod hwn i'r cyfweliadau. Gwahoddwyd rhanddeiliaid i gael eu cyfweld trwy e-bost. Dilynwyd y gwahoddiadau cychwynnol gan negeseuon e-bost pellach lle na chafwyd atebion (gan gynnig y cyfle i eithrio allan o ohebiaeth bellach). Cynhaliwyd y cyfweliadau yn rhithiol.

2.11 Anfonwyd gwahoddiadau e-bost trwy Lywodraeth Cymru, Eunomia, a chymdeithasau masnach a chyrff cynrychioliadol lle bo'n addas. Roedd y partïon hyn a dargedwyd yn y broses recriwtio yn cynnwys y Chartered Institute of Wastes Management (CIWM), United Resource Operators Consortium (UROC), Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (WESA) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

2.12 Y nod gwreiddiol oedd cyfweld 40 o randdeiliaid ar draws y grwpiau a amlinellir ym mharagraff 2.9. Er bod heriau wrth recriwtio (a drafodir o dan yr is-bennaf heriau a chyfyngiadau'r ymchwil isod) cafodd 29 o randdeiliaid eu cyfweld trwy ymestyn graddfeydd amser. Dangosir hyn yn Nhabl 3. Wrth ddefnyddio data'r cyfweliadau, mae'n bwysig cadw mewn cof niferoedd y cyfweliadau a dosbarthiad yr ymatebion. Mae nifer isel yr ymatebion yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth lunio casgliadau o ddata'r cyfweliadau na ddylid eu hystyried fel rhai cwbl gynrychioliadol.

2.13 Mae canllawiau pwnc cwestiynau’r cyfweliadau ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid ar gael yn Atodiad B. Cafodd y canfyddiadau o’r cyfweliadau eu trefnu mewn matrics dadansoddi, eu anomyneiddio, eu dadansoddi’n thematig yn ôl cwestiynau ymchwil a chwestiynau atodol, a’u ymgorffori yn yr adolygiad hwn.

**Tabl 3: Niferoedd targed a’r niferoedd a gyflawnwyd o gyfweliadau yn ôl grwpiau rhanddeiliaid**

| Grŵp rhanddeiliaid | Nifer targed o gyfweliadau | Nifer o gyfweliadau |
|---|---:|---:|
| Cymdeithasau masnach | 2 | 4 |
| Sefydliadau amgylcheddol | 2 | 1 |
| Rheoleiddwyr / cyrff llywodraeth | 4 | 5 |
| Casglwyr masnachol / gweithredwyr seilwaith eraill | 14 | 7 |
| Gweithredwyr safleoedd tirlenwi | 8 | 8 |
| Cynhyrchwyr gwastraff | 10 | 4 |
| **Cyfanswm:** | **40** | **29** |

*Arolygon*

2.14 Datblygwyd arolwg meintiol i ategu’r data ansoddol a gasglwyd trwy’r cyfweliadau. Bwriadwyd yr arolwg yn wreiddiol i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid cynrychioliadol. Yn dilyn y niferoedd bach a gymerodd ran yn y cyfweliadau, rhagwelwyd anawsterau tebyg gyda chyfradd ymateb yr arolwg. Felly, cadwyd hyd yr arolwg cyn fyrred â phosibl (pum munud) a’i ganolbwyntio ar gwestiynau ymchwil â blaenoriaeth ymchwil uchel yn unig, er mwyn ceisio’r uchafswm o gyfraddau ymateb. Er mwyn annog ymhellach yr ymateb i’r arolwg, roedd y cwestiynau’n rhai caeedig yn bennaf, er y rhoddwyd rhai blychyau ateb testun agored i alluogi ymatebwyr i ychwanegu manylion pellach fel y dymunid.

2.15 Cylchredwyd arolygon i’r pedwar grŵp targed o randdeiliaid (darparwyr triniaeth gwastraff amgen; casglwyr masnachol; gweithredwyr safleoedd tirlenwi; a darparwyr gwasanaethau llogi sgipiau) gan ddefnyddio ‘Smart Survey’. Cyhoeddwyd dolen i’r arolwg ar LinkedIn ac yng nghylchlythyrau newyddion cymdeithasau masnach (Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru a

CIWM). Er mwyn cynyddu cyfranogiad rhanddeiliaid yn yr arolwg, sianelwyd recriwtio hefyd trwy negeseuon e-bost uniongyrchol at gysylliadau a oedd yn bod eisoes trwy Eunomia a Cyfoeth Naturiol Cymru, cymdeithasau masnach (CIWM a UROC), a Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaethau samplau i'w gweld yn Atodiad C. Roedd yr arolwg yn fyw am daith wythnos ym mis Mawrth 2023.

**Tabl 4: Maint samplau a gafwyd o grwpiau rhanddeiliaid a gwblhaodd yr arolygon**

| **Grŵp rhanddeiliaid a arolygwyd** | **Sampl y llwyddwyd i'w gael** |
|---|---|
| Gweithredwyr safleoedd tirlenwi | 5 |
| Darparwyr triniaeth gwastraff amgen | 5 |
| Darparwyr sgiliau | 10 |
| Trosglwyddo gwastraff | 22 |
| Casglwyr masnachol | 8 |
| **Cyfanswm:** | **50** |

*Roedd cyfanswm o 44 o ymatebwyr i'r arolwg. Oherwydd fod rhai ymatebwyr yn cynrychioli sawl grŵp o randdeiliaid, cyfanswm y sampl a gafwyd ar draws y grwpiau oedd 50.*

2.16 Cafodd data'r arolwg meintiol ei adolygu a'i ddadansoddi yn Microsoft Excel. Cafodd ymatebion i'r arolwg eu cyflwyno fel yr oeddent (oherwydd meintiau bach y samplau) yn ogystal â'u crynhoi gan ddefnyddio ystadegau disgrifiadol. Rhoddwyd y data arolygu meintiol at ei gilydd a'i ddadansoddi'n thematig yn ôl cwestiynau ymchwil a chwestiynau atodol. Cafodd canfyddiadau o'r arolygon eu anonymeiddio a'u ymgorffori yn yr adolygiad hwn.

2.17 Er bod ymdrechion wedi cael eu gwneud i geisio cael hynny ag oedd yn bosibl i gymryd rhan yn yr arolwg (er enghraifft, amryw o negeseuon atgoffa ar e-bost ac ar gyfryngau cymdeithasol, a graddfeydd amser yr arolwg yn cael eu ymestyn ddwy wythnos), cyfanswm yr ymatebion i'r arolwg a dderbyniwyd oedd 70, ac o'r rhain roedd 44 yn ymatebion a gwblhawyd (sef wedi ateb pob cwestiwn). Dylid bod yn ofalus felly wrth lunio casgliadau o ddata'r arolwg, gan nad ydynt yn gwbl gynrychioliadol o'r poblogaethau a arolygwyd. I gydnabod yr anhawster wrth lunio casgliadau o feintiau sampl bach, ni adroddwyd canfyddiadau o gwestiynau ac iddynt gyfradd ymateb isel (llai na 10 o ymatebwyr).

**Cam 3 – cyfuno data**

2.18 Fel rhan o'r adroddiad hwn, cafodd y data a gasglwyd trwy'r adolygiad desg ei driongli â data'r ymchwil uniongyrchol. Roedd y cyfuniad yn seiliedig ar y cwestiynau ymchwil a gyflwynwyd yn Nhabl 2.

**Heriau a chyfyngiadau'r ymchwil**

2.19 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r heriau a'r anawsterau a oedd yn gysylltiedig â'r ymchwil.

2.20 Roedd cam un yn ddibynnol iawn ar ddata o ffynonellau allanol. Oherwydd problemau gyda rhannu data (gan gynnwys bod rhai sefydliadau yn cael eu gwahardd yn gyfreithiol rhwng rhannu rhai mathau o ddata) a diffyg data, rhai mathau o ddata nad oedd ar gael o gwbl (ee achosion o gamddisgrifio, achosion o droseddau gwastraff, gwerth a swm gwarediadau anawdurdodedig). Mewn rhai achosion, roedd hyn yn cyfyngu ar y gallu i gyflawni dadansoddiad cymharol (ee rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig neu dros gyfres o amseray penodol). Mae'r cwestiynau ymchwil y mae'r cyfyngiad hwn yn berthnasol iddynt wedi eu nodi drwy gydol yr adroddiad.

2.21 Oherwydd y ffrâm amser roedd y data ar gael ar ei gyfer, nid yw'n bosibl llunio unrhyw gasgliadau ynghylch effaith y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar berfformiad ailgylchu gwastraff adeiladu a dymchwel a gwastraff masnachol a diwydiannol Cymru.[11] Yn ogystal, mae cymhariaeth o berfformiad ailgylchu adeiladu a dymchwel a masnachol a diwydiannol Cymru â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig yn gymhleth oherwydd cyfyngiadau data, ansicrwydd, a bylchau.[12]

2.22 Roedd cyfranogiad isel gan randdeiliaid yn y cyfweliadau a'r arolygon. O'r herwydd, nid yw data'r cyfweliadau a'r arolygon a gyflwynir o fewn yr adroddiad yn gwbl gynrychioliadol o grwpiau rhanddeiliaid a dylid cymryd gofal wrth lunio casgliadau o'r data a gyflwynir. Yn benodol, roedd yn anodd canfod a chynnwys rhanddeiliaid sydd â gwybodaeth addas o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi o'r grwpiau rhanddeiliaid o gasglwyr masnachol / darparwyr seilwaith eraill, sefydliadau amgylcheddol, a

[11] Dim ond ar gyfer blynyddoedd penodol mae data ar gael, nid yn flynyddol fel sydd ei angen ar gyfer dadansoddi.

[12] Defra (2022). [UK statistics on waste.]

chynhyrchwyr gwastraff (yn enwedig cynhyrchwyr adeiladu a dymchwel a masnachol a diwydiannol). Gall yr ymateb isel hwn fod o ganlyniad i'r nifer cyfyngedig o randdeiliaid a oedd ar gael, a'r graddau cyfyngedig o ymwybyddiaeth ac o ymwneud â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Felly, roedd safbwyntiau'r grwpiau hyn o randdeiliaid o fewn yr adolygiad hwn yn cael eu tan-gynrychioli. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem honh, cafodd fframiau amser y cyfweliadau eu hymestyn bum wythnos yn ychwanegol. Chwaraeodd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru rôl allweddol wrth ddosbarthu'r arolwg yn uniongyrchol i'r rhanddeiliaid perthnasol.

2.23 Cafodd gweithredwyr safleoedd tirlenwi, casglwyr masnachol / gweithredwyr seilwaith eraill a chynhyrchwyr gwastraff eu dewis fel grwpiau ar wahân o randdeiliaid yn y strategaeth samplu. Fodd bynnag, datgelodd y broses gyfweld orgyffwrdd rhwng rhai rhanddeiliaid o fewn y grwpiau (ee roedd rhai a gafodd eu cyfweld (ee o awdurdodau lleol) yn gynhyrchwyr gwastraff ac yn weithredwyr safleoedd tirlenwi). Er bod rhai o'r rheini a gyfwelwyd wedi eu categoreiddio o dan grwpiau rhanddeiliaid penodol (a defnyddiwyd a diwygiwyd y canllawiau pwnc perthnasol er mwyn sicrhau bod cwestiynau perthnasol eraill yn cael eu cynnwys), awgryma hyn fod safbwyntiau'r rhanddeiliaid hyn yn adlewyrchu eu profiad penodol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn hytrach a safbwynt grŵp o randdeiliaid a ragddiffiniwyd.

2.24 Roedd rhywfaint o bryder y gallai rhanddeiliaid ddefnyddio'r ymchwil i ddibenion lobïo, neu beidio â mynegi eu barn oherwydd gwrthdrawiad canfyddedig o fuddiannau. Ceisiwyd safbwyntiau gan amrywiaeth helaeth o grwpiau rhanddeiliaid (Atodiad A) er mwyn ceisio lliniaru hyn, yn ogystal â data triongli i sicrhau trylwyredd.

2.25 Mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gweithredu law yn llaw ag amrywiaeth helaeth o offerynnau polisi eraill ac iddynt y nod y gyfeirio Cymru tuag at economi fwy cylchol. Un o nodau'r adolygiad hwn oedd gwahanu effaith y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. O fewn cam un yr adolygiad, sylwodd yr adolygiad desg ar dueddiadau (ee cyfraddau ailgylchu) a oedd yn cael eu dylanwadu gan newidynnau y tu hwnt i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi megis esblygiad polisi gwastraff, strategaeth, a chyllido

gwasanaethau cyhoeddus. Y bwriad oedd triongli canfyddiadau'r adolygiad desg, canfyddiadau cyfweliadau a chanfyddiadau'r arolygon i wahanu effaith y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd priodoli effaith unigol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn anodd .

# 3. Canfyddiadau allweddol – effaith cyfraddau treth


## Effaith ar ailgylchu ac ailddefnyddio

| |
|---|
| **A1.** A yw'r dull a ddefnyddiwyd hyd yma i godi'r gyfradd safonol ac is yn unol â chwyddiant wedi bod yn effeithiol wrth annog cynnydd mewn ailgylchu ac ailddefnyddio? |

3.1 Ers 2014, y ffordd mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymdrin â chyfraddau trethi tirlenwi yw cynnal y cyfraddau treth safonol ac is yn unol â rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) o'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), yn hytrach na chwyddiant gwirioneddol. Hyd yma, mae cyfraddau Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru wedi cyfateb â chyfraddau trethi tirlenwi y Deyrnas Unedig er mwyn rhoi cysondeb, sicrwydd a sefydlogrwydd i fusnesau a lliniaru pryderon ynghylch twristiaeth gwastraff (gweler 3.38) ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Fel y dangosir yn Ffigur 1 (sy'n cymharu sut mae cyfraddau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gwastraff trefol wedi newid ochr yn ochr â chyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi), er nad oes cynnydd mewn termau real wedi bod i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, mae cyfraddau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio wedi cynyddu ddau y cant.[13]

[13] Mae hyn gan gyfeirio at wastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol yn unig.

**Ffigur 1: Cyfraddau trethi gwarediadau tirlenwi enwol a gwirioneddol o gymharu â chyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio trefol (2009 – 2023)**[14]




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2023). Ystadegau Treth Gwarediadau Tirlenwi

**Mae'r rhan llwyd ei liw yn cyfeirio at y cyfnod cyn datganoli'r dreth*


3.2 Er bod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'r Dreth Tirlenwi wedi bod â'r un cyfraddau, ers 2015, mae cyfradd ailgylchu gwastraff o gartrefi wedi bod yn gyson uwch yng Nghymru o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig (Ffigur 2).[15] Yn 2020, safai cyfradd ailgylchu Cymru ar 57 y cant o gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig o 44 y cant. Mae'n werth nodi mai Cymru oedd yr unig wlad yn y Deyrnas Unedig rhwng 2019 a 2020 i adrodd cynnydd mewn cyfraddau ailgylchu (cynnydd o un y cant). Ar y llaw arall, fe wnaeth cyfraddau ailgylchu Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ddisgyn dau neu dri y cant.

[14] O fewn Ffigur 2, mae cyfradd safonol y dreth (wirioneddol) yn gostwng mewn termau real 2021/21. Gan fod cyfraddau'r trethi'n cael eu cyhoeddi ymlaen llaw, mae'r gostyngiad hwn o ganlyniad i seilio'r cyfraddau ar ragolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o RPI, yn hytrach na chwyddiant gwirioneddol.

.

[15] 'Gwastraff o gartrefi' yw'r mesur y cytunwyd arno, ac a gysonwyd drwy'r Deyrnas Unedig, sy'n cael ei ddefnyddio i adrodd ailgylchu deunydd o gartrefi. Mae gwastraff o gartrefi'n cynnwys casgliadau rheolaidd o gartrefi, safleoedd amwynderau dinesig, gwastraff swmpus a gwastraff cartref arall.

**Ffigur 2: Cyfraddau ailgylchu gwastraff blynyddol o gartrefi gwledydd y Deyrnas Unedig**




Ffynhonnell: Defra (2022). UK statistics on waste

** Mae'r rhan llwyd ei liw yn cyfeirio at y cyfnod cyn datganoli'r dreth*

3.3 Awgryma Ffigur 1 and Ffigur 2 fod y cynnydd y sylwyd arno mewn ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio o ganlyniad i ffactorau eraill, heblaw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Er enghraifft, mesurau polisi eraill a oedd ar waith yr un pryd â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae mesurau polisïau o'r fath (ee Tuag at Ddyfodol Diwastraff,[16] Mwy nag Ailgylchu,[17]Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[18]) wedi gosod, neu'n gosod ar hyn o bryd, pwyslais ar ailgylchu yng Nghymru. Gall y cynnydd fod hefyd oherwydd defnyddio ffurfiau amgen o drin gwastraff megis rhwystro gwastraff, ailgylchu a ffurfiau eraill o drin gwastraff gweddilliol (ee ynni o wastraff). Trafodir ymhellach y defnydd o dechnolegau amgen o fewn adran 3.

3.4 O ran perfformiad ailgylchu ehangach, mae Tabl 5 yn nodi cyfraddau ailgylchu o'r sectorau adeiladu a dymchwel, a masnachol a diwydiannol, yng Nghymru. Rhwng 2012 a 2019, cynyddodd cyfradd ailgylchu adeiladu a dymchwel chwe phwynt canran, gyda 3.07 megadunnell o wastraff adeiladu a dymchwel yn cael ei anfon i'w baratoi ar gyfer gweithgareddau ailddefnyddio, ailgylchu, compostio ac ôl-lenwi. Yn

[16] Llywodraeth Cymru (2010). Tuag at ddyfodol diwastraff: ein strategaeth wastraff
[17] Llywodraeth Cymru (2021). Mwy nag Ailgylchu
[18] Llywodraeth Cymru (2015). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

unol â hyn, y farn oedd bod y targed ailgylchu gwastraff adeiladu a dymchwel o 90 y cant (fel y nodir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff[19]) wedi ei gyrraedd yn 2019. Cynyddodd cyfradd ailgylchu masnachol a diwydiannol hefyd rhwng 2012 a 2018 (cynnydd o naw pwynt canran). Roedd cynnydd nodedig yn y gyfran o wastraff y sector diwydiannol a baratowyd ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu, compostio ac ôl-lenwi (o 50 y cant yn 2012 i 69 y cant yn 2019).

3.5 Oherwydd y ffrâm amser roedd data ar gael ar ei gyfer, nid yw'n bosibl llunio unrhyw gasgliadau ynghylch effaith y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar berfformiad ailgylchu adeiladu a dymchwel a masnachol a diwydiannol Cymru.[20] Nid yw'n bosibl cymharu mewn modd dibynadwy a thrylwyr berfformiad ailgylchu adeiladu a dymchwel a masnachol a diwydiannol Cymru â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig oherwydd cyfyngiadau data, ansicrwydd, a bylchau.[21]

**Tabl 5: Cyfraddau ailgylchu Adeiladu a Dymchwel, a Masnachol a Diwydiannol Cymru**

| Sector | Cyfradd ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio | |
|---|---|---|
| | 2012 | 2018/2019 |
| **Masnachol a Diwydiannol** | 58% | 67% |
| **Adeiladu a Dymchwel (ac eithrio gwastraff peryglus a phriddoedd)** | 87% | 93% |

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru (2022).Arolwg Gwastraff Adeiladu a Dymchwel 2019.
Cyfoeth Naturiol Cymru (2022). Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol 2018.

3.6 Yn y cyfweliadau ansoddol, gofynnwyd i randdeiliaid am eu barn ar effaith cynyddu cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi un unol â'r rhagolwg chwyddiant ar ailgylchu ac ailddefnyddio. Yn unol â'r casgliadau y daethpwyd iddynt o'r data uchod, roedd consensws cyffredinol ymysg 12 a gyfwelwyd fod cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cael effaith fach ar ailygylchu ac ailddefnyddio ond ei bod yn anodd gwahanu'r effaith hon oddi wrth bolisïau eraill, rhaglenni gwariant, a newidiadau rheoliadol. Roedd y farn hon yn cael ei harddel ar draws gwahanol

[19] Llywodraeth Cymru (2010). Tuag at ddyfodol diwastraff: ein strategaeth wastraff
[20] Mae data ar gael ar gyfer blynyddoedd penodol yn unig, nid yn flynyddol fel sydd ei angen ar gyfer dadansoddi. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o'r data o'r arolygon (o 2012 i 2019) y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad sy'n canolbwyntio ar 2018-2022 (y cyfnod sy'n dilyn cyflwyno'r dreth gwarediadau tirlenwi).
[21] Defra (2022). UK statistics on waste.

grwpiau o randdeiliaid (rheoleiddwyr / cyrff llywodraeth; a chasglwyr masnachol / gweithredwyr seilwaith eraill). Er hynny, roedd dau randdeiliad (cymdeithas fasnach a chasglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall) yn pwysleisio bod y cynnydd mewn cyfraddau yn hanfodol er mwyn anghymell anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi.


3.7 Roedd grymoedd eraill a oedd, ym marn y rhai a gyfwelwyd, yn cael mwy o effaith na chyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi o ran ailgylchu ac ailddefnyddio yn cynnwys:

- yr arwydd gwleidyddol clir gan Lywodraeth Cymru nad tirlenwi oedd y dewis polisi hirdymor a ffefrir (cymdeithas fasnach);
- targedau ailgylchu statudol a osodir ar gyfer awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru (a chosbau ariannol am beidio â'u cyrraedd) (casglwyr masnachol / gweithredwyr seilwaith eraill).

3.8 Cafodd y canfyddiadau o'r arolwg eu cyfuno â'r rheini o'r cyfweliadau ansoddol. Teimlai hanner ymatebwyr yr arolwg (50 y cant neu gyfanswm o saith) fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi bod yn 'weddol effeithiol' wrth gynyddu cyfraddau ailgylchu yng Nghymru.[22] Dangosir hyn yn Ffigur 3.

[22] Cwestiwn arolwg: Yn gyffredinol, pa mor effeithiol neu aneffeithiol mae cyfraddau Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru wedi bod wrth gynyddu cyfraddau ailgylchu yng Nghymru? Esboniwch eich ateb gan ddefnyddio'r blwch sylwadau.

**Ffigur 3: Yn gyffredinol, pa mor effeithiol neu aneffeithiol mae cyfraddau Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru wedi bod wrth gynyddu cyfraddau ailgylchu yng Nghymru?**




*Ymatebwyr: gweithredwyr safleoedd tirlenwi, darparwyr triniaeth amgen gwastraff, casglwyr gwastraff masnachol, darparwyr gwasanaethau llogi sgipiau, darparwyr trosglwyddo gwastraff (n= 14)*

### Defnyddio technolegau amgen

| |
|---|
| **A5.** A oes unrhyw gydberthynas wedi bod rhwng cynnydd yng nghyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chynnydd yn y defnydd o dechnolegau amgen mwy cynaliadwy (ee treulio anaerobig a chompostio)? |

3.9 Un o'r effeithiau y bwriadwyd i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi eu cyflawni oedd parhau i annog dargyfeirio gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi a thuag at ffurfiau mwy cynaliadwy o driniaeth (fel y bwriadwyd ar gyfer Rheoliadau Trethi Tirlenwi 1996). Mae'r adran ganlynol yn archwilio'r graddau mae'r effaith hon wedi ei chyflawni ar wastraff adeiladu a dymchwel a gwastraff masnachol a diwydiannol. Dylid nodi nad oes fawr o ddata cynhwysfawr a chywir ar gael ar gyfer y ddau fath hwn o wastraff. Felly, mae'r adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar ddadansoddi gwastraff trefol a'u cyrchfannau amgen ar gyfer ei drin.

*Gwastraff Adeiladu a Dymchwel*

3.10 Er mwyn deall graddau dargyfeirio gwastraff adeiladu a dymchwel tuag at ffurfiau mwy cynaliadwy o driniaeth, dadansoddwyd data o arolwg gwastraff adeiladu a dymchwel Cyfoeth Naturiol Cymru a ffurflenni trwyddedau gwastraff Cyfoeth Naturiol Cymru.[23,24,25] Rhwng 2013 a 2021, roedd gwastraff adeiladu a dymchwel (o dan bennod 17 y catalog gwastraff Ewropeaidd (EWC)) yn cynrychioli cyfran gynyddol o gyfansoddiad gwastraff a dirlenwid, gan godi o 22 y cant yn 2013, i dros 30 y cant yn 2021. Er gwaethaf hyn, gostyngodd cyfanswm tunelli a chyfran yr holl wastraff adeiladu a dymchwel a gafodd ei dirlenwi rhwng 2012 a 2019 (o 19 y cant i chwech y cant).

3.11 Mae'r gostyngiad yn y swm o wastraff adeiladu a dymchwel a dirlenwir yn dangos y defnydd cynyddol o dechnolegau amgen. Cafodd y rhan fwyaf o wastraff adeiladu a dymchwel ei baratoi ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu yn 2012 a 2019 gyda, fel y trafodir ym mharagraff 3.4 a Tabl 5, chyfraddau ailgylchu yn cynyddu dros yr un cyfnod. Yn 2019, cafodd 0.6 y cant o wastraff adeiladu a dymchwel ei losgi. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl cymharu'r gyfran o wastraff adeiladu a dymchwel a losgwyd dros amser.[26]

*Gwastraff Masnachol a Diwydiannol*

3.12 O ran dargyfeirio gwastraff masnachol a diwydiannol o dirlenwi, gostyngodd y gyfran o gyfanswm gwastraff masnachol a diwydiannol a anfonwyd i safleoedd tirlenw o 26 y cant yn 2012, i 11 y cant yn 2018.[27]

3.13 O safbwynt defnyddio technolegau amgen, cafodd y rhan fwyaf o wastraff masnachol a diwydiannol ei baratoi ar gyfer ailgylchu yn 2012 a 2019 gyda, fel y trafodir ym mharagraff 3.4 a Tabl 5, chyfraddau ailgylchu yn cynyddu dros yr un

[23] Cyfoeth Naturiol Cymru (2019) .Arolwg Gwastraff Adeiladu a Dymchwel 2019.
[24] Cyfoeth Naturiol Cymru (2022). Data Ffurflenni Trwyddedau Gwastraff
[25] Mae data ffurflenni trwyddedau gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi'n benodol ffynhonnell y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Fodd bynnag, mae rhai penodau o fewn y catalog gwastraff Ewropeaiddd yn benodol i ffynonellau gwastraff.
[26] O fewn Arolwg Adeiladu a Dymchwel 2012, caiff llosgi ei ddosbarthu o dan 'arall' (sy'n cynnwys: compostio; adfer tir; llosgi; gorsaf drosglwyddo; a ddim yn gwybod). Yn 2012, cafodd un y cant o'r 'arall' ei drin trwy losgi.
[27] Cyfoeth Naturiol Cymru (2018). Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol 2018.

cyfnod. Fe wnaeth y gwastraff masnachol a diwydiannol a losgwyd gan adfer ynni gynyddu hefyd (1.7 y cant i 7.8 y cant).

*Gwastraff trefol*

3.14 Dangosodd ffurflenni trwyddedau data gan Cyfoeth Naturiol Cymru fod gwastraff trefol (Catalog Gwastraff Ewropeaidd pennod 20) yn cynrychioli cyfran lai o gyfansoddiad gwastraff a gafodd ei dirlenwi rhwng 2013 a 2021 (gostwng o 25 y cant i 16 y cant).

3.15 Er mwyn deall unrhyw newidiadau hanesyddol mewn gwastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi o gymharu â thechnolegau amgen, cafodd data gwastraff trefol a anfonwyd at Cyfoeth Naturiol Cymru gan awdurdodau lleol ("WasteDataFlow") ei ddadansoddi a'i gategoreiddio ar sail y dewisiadau trin (Ffigur 4). Yn wyneb natur gwastraff trefol a gasglir yn arferol gan awdurdodau lleol, mae hyn yn ymwneud mwy â'r gyfradd safonol na'r gyfradd is.


3.16 Fel y dangosir yn Ffigur 4, cyn datganoli o'r Dreth Tirlenwi, roedd tueddiad hirdymor o leihad sylweddol yn y gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi, a oedd yn debygol o fod o ganlyniad i effeithiau'r Dreth Tirlenwi yn unol â chanfyddiadau adolygiad 2014 o'r Dreth Tirlenwi.[28] Rhwng 2018/19 a 2020/21, lleihaodd y gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi o 155kt i 72kt.

3.17 O ran defnyddio technolegau amgen, fe wnaeth y swm o wastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol a gafodd ei ailddefnyddio/ailgylchu a'i gompostio (gan gynnwys treulio anaerobig) aros yn rhesymol gyson rhwng 2015/16 a 2020/2021. Dros yr un cyfnod, cynyddodd y swm o wastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol a'i drin trwy losgi (o 387kt i 424kt). Efallai mai rheswm allweddol dros y cynnydd hwn oedd bod mwy o seilwaith ynni o wastraff ar gael (ee Cyfleuster Adfer Ynni Viridor Caerdydd a Chyfleuster Adfer Ynni Parc Adfer), a/neu y newid mewn pris trin gwastraff trwy ynni o wastraff o gymharu â thirlenwi. Fel y dangosir yn

[28] Cylllid a Thollau Ei Fawrhydi (2014). Qualitative Research into Drivers of Diversion from Landfill and Innovation in the Waste Management Industry

Ffigur 5, rhwng 2014 a 2022, roedd cost canolrif ynni o wastraff yn is na'r gost o drin gwastraff mewn safleoedd tirlenwi.


**Ffigur 4: Llwybrau trin gwastraff trefol awdurdodau lleol (kt), 2012/13 – 2020/21**




Ffynhonnell: Data gwastraff a gyflwynwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru gan awdurdodau lleol ("WasteDataFlow")

**Mae'r rhan llwyd ei lliw yn cyfeirio gan y cyfnod cyn datganoli'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi*

**Ffigur 5: Cost Ynni o Wastraff o gymharu â chost trin trwy dirlenwi**




Ffynhonnell: LetsRecycle.[Prisau Ynni o Wastraff, Tirlenwi a Ffioedd Clwyd]

***Mae'r rhan llwyd ei lliw yn cyfeirio gan y cyfnod cyn datganoli'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi*

3.18 Gan adlewyrchu'r tueddiadau mewn data meintiol a gyflwyir yn Ffigur 4 (sy'n dangos y defnydd o dechnolegau amgen cyn datganoli oddi wrth y Dreth TIrlenwi), roedd barn gymysg gan y rhanddeiliaid a gyfwelwyd ynghylch a oedd unrhyw gydberthynas rhwng cynnydd mewn cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chynnydd yn y defnydd o dechnolegau amgen.

3.19 Teimlai 14 o'r rhai a gyfwelwyd (ar draws pob grŵp o randdeiliaid) fod y diwydiant wedi gweld buddsoddiadau mawr mewn technolegau amgen (gan gynnwys treulio anaerobig, compostio ac ynni o wastraff) dros y blynyddoedd diwethaf, a bod y cynnydd mewn cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn unol â chwyddiant rhagamcanol yn un o amryw o ffactorau a oedd yn cyfrannu at hyn. Roedd ffactorau eraill a nodwyd yn cynnwys targedau ailgylchu statudol awdurdodau lleol a gofynion o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a'r targed o ddim gwastraff i dirlenwi a nodir yn Mwy nag Ailgylchu.[29] Fodd bynnag, roedd yn aneglur weithiau a oedd y

[29] Llywodraeth Cymru (2021). [Mwy nag Ailgylchu 2021]

rhai a gyfwelwyd yn siarad yn benodol am y pum mlynedd ddiwethaf (pan oedd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi mewn grym) neu gyfnod ehangach a oedd yn cynnwys y Rheoliadau Trethi Tirlenwi.

3.20 Teimlai tri o'r rhai a gyfwelwyd fod cydberthynas, ond nad oedd achosiad. Roedd y farn hon i'w gweld gryfaf gan reoleiddwyr / cyrff llywodraeth a gredai ei bod yn rhy gynnar i ddweud pa effaith roedd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei chael ar dechnolegau amgen. Mae hyn oherwydd na chafodd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ei chyflwyno tan 2018 ac nad oedd y cyfraddau wedi cynyddu mewn termau real. Y farn oedd bod mecanweithiau polisi a thargedau eraill (gan gynnwys y rheini a drafodwyd ym mharagraff 3.19) yn bwysicach wrth roi technolegau amgen ar waith na'r cynnydd yng nghyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

3.21 Nid yw hyn yn gyfystyr â dweud bod, neu nad yw, cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gyffredinol wedi effeithio ar y defnydd o ddewisiadau amgen (a gaiff sylw pellach mewn ymateb i gwestiynau ymchwil B3 a C3 yn adran 4). Er bod y rhai a gyfwelwyd o blith rheoleiddwyr / cyrff llywodraeth o'r farn fod cyfraddau Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cael eu cynllunio i ysgogi'r defnydd o dechnolegau amgen, ni phennwyd nod o'r fath yn y pum egwyddor a weithredwyd ar gyfer cyfraddau'r dreth (gweler paragraff 1.9).Bwriad y polisi oedd i wahanol fathau o wastraff gael eu dosbarthu o dan y cyfraddau yn ôl yr amcangyfrif o niwed amgylcheddol a achosir ganddynt (fel y trafodir ym mharagraffau 3.22 i 3.24). O'r herwydd, mae'r dreth yn cyfrannu at roi arwydd i'r farchnad o le i *beidio* mynd â gwastraff, sef safleoedd tirlenwi.

### Cyfatebiaeth ag effeithiau amgylcheddol ffrydiau gwastraff

| |
|---|
| **A3.** I ba raddau mae'r gwahanol gyfraddau a chategorïau gwastraff yn neddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cyfateb ag effeithiau amgylcheddol cyffredinol ffrydiau gwastraff o'r fath? |

3.22 Canfu'r adolygiad desg set gyfyngedig o lenyddiaeth a oedd yn ceisio diffinio effeithiau amgylcheddol tirlenwi mewn termau ariannol. Mae'r data sy'n ymwneud â chyd-destun y Deyrnas Unedig yn dibynnu ar dechnegau prisio hedonig ac mae'n

fwy na degawd o ran oed.[30] Nid yw data mwy diweddar yn uniongyrchol berthnasol i gyd-destun Cymru, ac felly efallai y bydd angen astudiaeth unswydd yn y dyfodol i ateb y cwestiwn ymchwil hwn mewn modd cynhwysfawr.

3.23 Yn y cyfweliadau ansoddol, credai dau a gyfwelwyd (cymdeithas fasnach a chasglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall) fod y cyfraddau'n adlewyrchiad cywir o ganlyniadau amgylcheddol y gwastraff a ddynodwyd iddynt. Ar y llaw arall, credai tri arall a gyfwelwyd (cymdeithasau masnach a chasglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall) nad oedd y cyfraddau'n cyfateb yn ddigon â'r effeithiau amgylcheddol. Teimlai dau o'r rhain y gallai fod angen am gyfraddau lluosog neu gyfradd ganolig i gynrychioli gwahanol feichiau amgylcheddol deunyddiau unigol. Roedd y llall yn awgrymu y gellid defnyddio asesiadau cylchred oes i wella cyfatebiaeth cyfraddau'r dreth â gwahanol ffrydiau gwastraff.

3.24 Yng Nghrynodeb Ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth gan Drysorlys Ei Fawrhydi ar agweddau o'r Dreth Tirlenwi,[31] teimlai rhai rhanddeiliaid nad oedd y meini prawf yn ystyried effaith amgylcheddol tirlenwi deunydd yn hytrach na'i ailgylchu neu ei ailddefnyddio. Er enghraifft, colli 'carbon mewnblanedig' ac effeithiau carbon ac effeithiau amgylcheddol ehangach sy'n gysylltiedig â chynhyrchu deunyddiau o'r newydd yn hytrach nag ailgylchu rhai sy'n bod eisoes. Yn benodol, y teimlad oedd bod y gyfradd is yn gweithredu fel rhwystr i ddeunyddiau symud i fyny'r hierarchaeth gwastraff. Mae hon yn farn a gafwyd yn y cyfweliadau ansoddol ac fe'i trafodir ymhellach yn yr adran troseddau gwastraff o fewn adran 3.

[30] Model prisio yw prisio hedonig sy'n ystyried ffactorau mewnol ac allanol i benderfynu gwerth nwydd neu wasanaeth. Yn yr astudiaethau hyn, cafodd effaith economaidd safleoedd tirlenwi eu penderfynu gan yr effaith maent yn ei chael ar brisiau eiddo lleol.
[31] Trysorlys Ei Fawrhydi (2023). Summary of Responses to the Call for Evidence on aspects of Landfill Tax

**Effaith ar ffrydiau gwastraff penodol**

| |
|---|
| **A4.** A oes ffrydiau gwastraff penodol nad yw'n ymddangos bod y cyfraddau'n cael effaith ataliol arnynt?<br>• **A4.1** Pam allai hyn fod?<br>• **A4.2** A pha welliannau y gellid eu gwneud i gysoni'r cyfraddau â'r ffrydiau gwastraff?<br>• **A4.3** A oes mathau penodol o wastraff sy'n cael eu hanfon yn ddiangen i safleoedd tirlenwi ar hyno bryd (hynny yw, y gellid eu hailddefnyddio neu ailgylchu)? |

3.25 Roedd y rhai a gyfwelwyd yn crybwyll amryw o ffrydiau gwastraff y teimlid nad oedd y cyfraddau'n cael effaith ataliol. Amlinellir y rhain isod.

- **Asbestos** – Roedd sefydliad amgylcheddol yn diffinio asbestos fel deunydd peryglus gan ddweud mai safleoedd tirlenwi oedd y lle gorau i'w reoli. Y teimlad oedd bod gweithredu'r gyfradd safonol yn cymell ei gamreoli trwy dipio anghyfreithlon neu ei guddio ymysg deunyddiau eraill a anfonwyd i dirlenwi ar y gyfradd is. Roedd dau a gyfwelwyd (o sefydliadau amgylcheddol a rheoleiddwyr / cyrff llywodraeth) yn awgrymu y byddai gweithredu'r gyfradd is yn sicrhau gwaredu diogel asbestos ar safleoedd tirlenwi. Ailadroddwyd y farn hon gan Grynodeb o Ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth gan Drysorlys Ei Fawrhydi ar agweddau o'r Dreth Tirlenwi.[32]

- **Priddoedd halogedig** – Teimlai un sefydliad amgylcheddol ei bod yn hawdd cyflwyno priddoedd halogedig (ee gydag olewau) fel priddoedd glân (sy'n denu'r gyfradd is)

- **Gypsum** – Roedd sefydliad amgylcheddol o'r farn fod gypsum anhalogedig yn gymharol ddiogel ac yn hawdd ei ailgylchu. Fodd bynnag, oherwydd ei fod yn denu'r gyfradd is, gall hyn anghymell archwilio dewisiadau o ran adfer ac ailgylchu. Roedd yr un person yn awgrymu y gallai gweithredu'r gyfradd safonol annog defnyddio dewisiadau o driniaethau amgen.[33]

[32] Trysorlys Ei Fawrhydi (2023). Summary of Responses to the Call for Evidence on aspects of Landfill Tax
[33] Gwaherddir gypsum o gelloedd tirlenwi sy'n derbyn gwastraff bioddiraddadwy.

- **Lludw gwelod llosgydd (IBA)** – Dywedodd un o’r rhai a gyfwelwyd (rheoleiddiwr / corff llywodraeth) fod lludw gwaelod llosgydd yn ddeunydd a oedd yn denu’r gyfradd is. Teimlai’r cyfwelai y gellid symud lludw gwaelod llosgydd i’r gyfradd safonol er mwyn cymell adfer metelau gwerthfawr a/neu ei ddefnyddio mewn adeiladu. Cafodd yr angen i symud lludw gwaelod llosgydd oddi wrth y gyfradd is (er mwyn annog symudiad i fyny’r hierarchaeth gwastraff) ei adlewyrchu yn y Crynodeb o Ymatebion i’r Alwad am Dystiolaeth gan Drysorlys Ei Fawrhydi ar agweddau o’r Dreth Tirlenwi.[34]
- **Cyfansoddion anorganig actifedd isel** (sef deunyddiau Grŵp Chwech megis Calsiwm Carbonad, Magnesiwm Hydrocsid, Alwminiwm Ocsid) – Teimlai cynrychiolydd rheoleiddiwr / corff llywodraeth a gyfwelwyd y gellid adfer ac ailgylchu cyfansoddion anorganaidd o’r fath i’w defnyddio ymhellach. Er mwyn hyrwyddo defnydd o’r fath, mae angen iddynt gael eu gwahaniaethu oddi wrth bridd a gro glân (sy’n denu’r gyfradd is ar hyn o bryd).
- **Plastigau** – Teimlai tri o’r rhai a gyfwelwyd (gweithredwr safle tirlenwi, cymdeithas fasnach, rheolwr / corff llywodraeth) fod plastigau yn dal i gael eu hanfon i safleoedd tirlenwi. Roedd un ohonynt o’r farn fod hyn oherwydd diffyg ailgylchu plastigau yn y Deyrnas Unedig yn hytrach na chyfraddau trethi tirlenwi.
- **Tecstilau a phrenau (megis MDF)** – Roedd rheoleiddiwr / corff llywodraeth a gyfwelwyd yn esbonio bod deunyddiau o’r fath yn dal i gael eu hanfon i dirlenwi oherwydd diffyg mynediad at farchnadoedd ailgylchu cost-effeithiol.[35]
- **Gwastraff o driniaeth fecanyddol (sef cod 191212 y Catalog Gwastraff Ewropeaidd**) – Dywedodd rheoleiddiwr / corff llywodraeth fod tunelleddau mawr o’r gwastraff hwn yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi. Nid oedd yn eglur a oedd y sawl a gyfwelwyd yn cyfeirio at wastraff gweddilliol a ddidolwyd (y byddai disgwyl iddo fynd i dirlenwi) neu ronynnau gograu gro, gan y gellid dosbarthu’r ddau fel 191212.

[34] Trysorlys Ei Fawrhydi (2023). Summary of Responses to the Call for Evidence on aspects of Landfill Tax
[35] Bydd pren gwastraff yn cael ei wahardd rhag tirlenwi o fis Ebrill 2023.

3.26 Yn yr arolwg meintiol, gofynnwyd i randdeiliaid sy'n trin gwastraff a oeddent yn teimlo bod unrhyw fathau o wastraff o fewn eu gweithrediadau presennol a oedd yn cael eu tirlenwi'n ddiangen. Atebodd ychydig dros hanner (54 y cant, neu saith ymatebydd) eu bod, tra dywedodd ychydig o dan hanner (46 y cant, neu chwe ymatebydd) nad oeddent.[36] Pan ofynnwyd pam, yr atebion mwyaf cyffredin a roddwyd oedd diffyg mynediad at gyfleusterau trin amgen a chost ratach gwaredu o gymharu â chyfleusterau trin amgen.[37] Mae hyn yn gyson â'r rhesymu a roddwyd gan y rhai a gyfwelwyd pan ofynnwyd yr un cwestiwn iddynt.

3.27 O ran cysoni'r cyfraddau â ffrydiau gwastraff, mae rhai o'r awgrymiadau uchod gan y rheini a gyfwelwyd yn ymwneud â symud deunyddiau o un gyfradd treth i'r llall. Mewn mannau eraill yn y cyfweliadau, roedd ychydig o randdeiliaid yn awgrymu cyflwyno cyfraddau 'lluosog' neu 'ganolig' (gweler paragraff 3.23) a allai fod yn berthnasol yma hefyd. Mae'n debygol y bydd angen i unrhyw newidiadau i'r cyfraddau ystyried cydbwysedd rhwng effeithiau amgylcheddol y ffrwd wastraff a'r graddau mae cyfleoedd ar gael o fewn y Deyrnas Unedig i drin gwastraff y tu allan i dirlenwi. Byddai angen i gyfraddau lluosog gael eu hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau bod cyfraddau addas yn cael eu gweithredu ar wahanol ffrydiau gwastraff. Yn ogystal, byddai angen gwneud ymdrechion i leihau dryswch rhanddeiliaid wrth weinyddu a deall cyfraddau perthnasol, law yn llaw â sicrhau cysondeb â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig a'u cyfraddau trethi tirlenwi cyfatebol.

**Twristiaeth gwastraff**

| |
|---|
| **A6.** Ystyriwch rôl y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn yr hyn sy'n ysgogi llif gwastraff rhwng Lloegr (a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig) a Chymru ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â chymell ymddygiad a thwristiaeth gwastraff. |

3.28 Yn hanesyddol, mae'r un cyfraddau trethi wedi cael eu gosod o dan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, Treth Tirlenwi Lloegr a Gogledd Iwerddon, a Threth Tirlenwi'r


[36] Cwestiwn arolwg: Yn eich gweithrediadau chi, a oes mathau o wastraff sy'n cael eu hanfon yn ddiangen i safleoedd tirlenwi ar hyn o bryd (sef y gellid eu hailddefnyddio/ailgylchu)? Ymatebwyr: gweithredwr safle tirlenwi, darparwr triniaethau gwastraff amgen, casglwr gwastraff masnachol, darparwr gwasanaethau llogi sgipiau, darparwr trosglwyddo gwastraff (N= 13).
[37] Cwestiwn arolwg: Yn eich barn chi, pam maent yn cael eu hanfon i dirlenwi? Esboniwch eich ateb gan ddefnyddio'r blwch sylwadau. Ymatebwyr: gweithredwr safle tirlenwi, darpariaeth triniaethau gwastraff amgen, casglwr gwastraff masnachol, darparwr gwasanaethau llogi sgipiau, darparwr trosglwyddo gwastraff (N= 10).

Alban. Yn yr un modd, mae'r cyfraddau'n berthnasol i'r un deunyddiau. Diben cysoni'r cyfraddau treth a'r deunyddiau yn dilyn datganoli'r dreth tirlenwi oedd i anghymell twristiaeth gwastraff. Mae twristiaeth gwastraff yn cyfeirio ar lifau o wastraff ar draws ffiniau i'w drin, yn arferol am resymau'n ymwneud â chost; gallai cyfraddau is mewn un wlad fod â'r potensial o annog busnesau o wledydd eraill i waredu gwastraff trwy dirlenwi yno i osgoi talu cyfradd safonol yn eu lleoliad.[38] Bwriad y dull presennol yw ei gwneud yn llai tebygol i'r trethi tirlenwi annog twristiaeth gwastraff ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig, gan gynnwys ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr (a fel arall).

3.29 Fel y dangosir yn Ffigur 6, teithiodd mwy o wastraff o Loegr i'w drin mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru nag o Gymru i'w drin mewn safleoedd tirlenwi yn Lloegr rhwng 2015-2021, er i'r cydbwysedd amrywio. Roedd yr amrywio hwn o ganlyniad i'r amrywiol symiau o wastraff a dderbyniwyd gan safleoedd tirlenwi yn Lloegr o Gymru, gan amredeg rhwng ~60kt yn 2017 i frig o ~140kt yn 2020. Ni ellid penderfynu rhesymau pendant ar gyfer y llifau uchel o wastraff o Loegr i Gymru fel rhan o'r adolygiad hwn. Ni phrofwyd unrhyw dueddiadau o'r data a oedd yn dangos y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn annog nac yn anghymell twristiaeth gwastraff.

[38] Letsrecycle (2021). UK landfill tax rates stay similar after Scottish budget

**Ffigur 6: Llifau o wastraff i safleoedd tirlenwi rhwng Lloegr a Chymru**




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru (2022). Data Ffurflenni Trwyddedau Gwastraff
Asiantaeth Amgylchedd Lloegr (2023). Waste Data Interrogator

3.30 Gofynnwyd i randdeiliaid am resymau posibl dros unrhyw symudiad gwastraff ar draws ffiniau. Y consensws cyffredinol ymysg rhanddeiliaid (10 a gafodd eu cyfweld ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid), oedd mai'r prif ysgogydd llif gwastraff rhwng gwledydd a rhanbarthau oedd cost. Mae'r cyfraddau uwch ac is o dreth tirlenwi yr un fath rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig a'i gilydd, fel mae'r diffiniadau o pa ddeunyddiau a gynhwysir yn y cyfraddau hyn, felly y ffactorau sy'n effeithio ar gostau yw ffioedd clwyd a thrafnidiaeth (costau cludo a thanwydd). Dywedodd gweithredwr safle tirlenwi a chasglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall nad oedd y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn peri unrhyw rwystr, gyda gwastraff yn teithio ar draws y ffin yn y ddau gyfeiriad i'w drin oherwydd agosrwydd a hwylustod. Adlewyrchir y rhwyddineb hwn yn Ffigur 6. Teimlai gweithredwr un safle tirlenwi fod diffyg capasiti tirlenwi yng Nghymru (ynghyd â bod y poblogaethau dwysaf ar y ffin) yn golygu bod llawer o wastraff yn croesi'r ffin i Loegr. Fodd bynnag, dylid nodi (fel y dangosir gan Ffigur 6), roedd y mewnlif o wastraff i Gymru ar gyfer tirlenwi yn fwy na'r all-lif. Yn unol â Ffigur 6, nid oedd y rhai a gyfwelwyd yn cael yr argraff fod y

Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn anghymell llifau trawsffiniol o wastraff na thwristiaeth gwastraff.

3.31 Gallai ffactorau eraill, heblaw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, fod wedi dylanwadu ar y llif gwastraff rhwng Lloegr a Chymru ar gyfer ei drin (boed hynny'n dirlenwi neu dechnolegau amgen). Er enghraifft, mae gan Loegr gapasiti mwy o seilwaith triniaethau amgen a gallai agosrwydd y seilwaith hwn at Gymru fod wedi arwain at wastraff gweddilliol (a allai fel arall fod wedi ei dirlenwi yng Nghymru) yn cael ei anfon i Loegr i'w losgi. Gall hyn ddigwydd os yw'r cyfuniad o gludiant, storio, a ffioedd clwyd yn Lloegr yn llai na chyfanswm costau tirlenwi'r gwastraff yng Nghymru (gallai'r pwynt hwn esbonio llifau gwastraff o Loegr i Gymru hefyd). Yn ogystal, gallai fod gan Loegr gyfleusterau trin mwy a allai arwain at iddynt godi ffioedd clwyd is a chymell twristiaeth gwastraff. Gallai'r llif o wastraff fod wedi cael ei ddylanwadu hefyd gan agosrwydd cynhyrchwyr gwastraff at safleoedd tirlenwi ar y ffin (boed hwy yn Lloegr neu yng Nghymru).

### Ffioedd clwyd

**A7.** Archwiliwch y berthynas rhwng ffioedd clwyd a chyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

- **A7.1** A yw'r ffioedd clwyd wedi lleihau wrth i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi gynyddu?
- **A7.2** Pa wahaniaethau sydd mewn ffioedd clwyd rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig?
- **A7.3** Os oes gwahaniaethau mewn ffioedd clwyd, a yw'r gwahaniaethau mewn ffioedd clwyd rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig wedi dylanwadu ar y llif o wastraff rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig?


3.32 Mae LetsRecycle a WRAP yn casglu ac yn adrodd ar ffioedd clwyd y Deyrnas Unedig am amrywiaeth o ddewisiadau ailgylchu, adfer, a gwaredu gwastraff.[39,40] Yn dilyn adolygiad o ffioedd clwyd i'r ddwy ffynhonnell allweddol hyn rhwng 2018 a 2021, ni wnaeth y naill na'r llall gynnwys dadansoddiad o ffioedd clwyd tirlenwi yn ôl cenedl. Yn ei adroddiadau ffioedd clwyd, fe wnaeth WRAP nodi cyfraddau ymateb

[39] Letsrecycle (n.d.). EfW, Landfill and RDF Export Price Indicators
[40] WRAP (2022). Adroddiad Ffioedd Clwyd 2021/22

isel ar gyfer ffioedd clwyd tirlenwi ac amrediadau eang o ymatebion, a oedd yn ei gwneud yn anodd rhoi cymariaethau ar lefel y Deyrnas Unedig.

3.33 Dangosodd Adroddiad Ffioedd Clwyd 2021/22 WRAP fod canolrif ffioedd clwyd tirlenwi deunydd nad yw'n beryglus yng Nghymru (£85/tunnell) yn sylweddol uwch nag yn Lloegr (£28/tunnell), Gogledd Iwerddon (£20/tunnell) a'r Alban (£60/tunnell). Fodd bynnag dangosodd nad oedd Cymru ond wedi derbyn dau ymateb gan awdurdodau lleol, a'r Alban ddim ond tri, ac felly ni ddylid trin y data fel pe bai'n gynrychioliadol.[41,42] Dangosodd yr adroddiad y gallai'r cyfraddau ymateb isel i'r arolwg fod oherwydd nad oedd gan awdurdodau lleol yr amser na'r adnoddau ar gael i ymateb i'r arolwg, na ellid adgyfuno gwerthoedd ffioedd clwyd penodol, neu eu bod yn destun cyfrinachedd masnachol. I ateb cwestiwn A7.1, yn hytrach na chymariaethau cenedlaethol, dadansoddwyd data o'r adroddiadau i ddeall ffioedd clwyd tirlenwi ar lefel y Deyrnas Unedig. Mae Ffigur 7 yn dangos y ffioedd clwyd tirlenwi hanesyddol ledled y Deyrnas Unedig, gyferbyn â gwerth trethi tirlenwi, gyda'r dreth yn aros yr un fath ar draws pob un o'r gwledydd flwyddyn ar flwyddyn.

**Ffigur 7: Newid yn ffioedd clwyd safleoedd tirlenwi'r Deyrnas Unedig o gymharu â chyfraddau safonol trethi tirlenwi'r Deyrnas Unedig, 2014 i 2022**




Ffynhonnell: LetsRecycle (n.d.).[Ynni o Wastraff, Tirlenwi a Phrisiau Ffioedd Clwyd]

- *Mae'r rhan lwyd ei lliw yn cyfeirio at y cyfnod cyn datganoli'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi*

41 WRAP (2022). Adroddiad Ffioedd Clwyd 2021/22

42 Mae adroddiad ffioedd clwyd 2021/22 yn astudio'r ffioedd clwyd a godwyd ar awdurdodau lleol am ddewisiadau gwaredu gan gynnwys tirlenwi.

3.34 Rhwng 2018 a 2021, nid oedd fawr o amrywiaeth yn ffioedd clwyd safleoedd tirlenwi'r Deyrnas Unedig. Yn ystod yr un cyfnod, ni newidiodd gwerth trethi tirlenwi mewn termau real ledled y Deyrnas Unedig. Awgryma hyn fod, mewn termau real, fod ffioedd clwyd safleoedd tirlenwi wedi gostwng tra oedd trethi tirlenwi wedi aros yr un fath, ac felly gallai gweithredwyr safleoedd tirlenwi fod wedi ceisio cost gyffredinol tirlenwi trwy ostwng eu ffioedd clwyd. Dengys hyn bwysau tuag at i lawr ar ffioedd clwyd safleoedd tirlenwi, gan ei gwneud yn anodd i weithredwyr safleoedd tirlenwi ddal i fyny â chwyddiant mewn modd sy'n cael effaith gadarnhaol ar faint yr elw.

3.35 Yn y cyfweliadau ansoddol, gofynnwyd i randdeiliaid am y berthynas rhwng ffioedd clwyd a chyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Dywedodd pob un o'r 10 o weithredwyr safleoedd tirlenwi a gyfwelwyd eu bod wedi cynyddu eu ffioedd clwyd yr un amser ag roedd cyfradd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn codi. Mewn rhai achosion, cafodd ffioedd clwyd eu cynyddu yn unol â chwyddiant (RPI) ac mewn achosion eraill cawsant gynnydd ychydig is er mwyn cynnal fforddiadwyedd i fusnesau lleol. Mae hyn yn cadarnhau'r dystiolaeth a gyflwynir uchod, sef er bod ffioedd clwyd yn codi, nid ydynt bob amser yn cynyddu'n unol â chwyddiant – ac felly maent yn lleihau mewn termau real.

3.36 Roedd 12 o'r rhai a gyfwelwyd (ar draws grwpiau rhanddeiliaid gweithredwyr safleoedd tirlenwi, cynhyrchwyr, a chasglwyd masnachol / gweithredwyr seilwaith eraill a chymdeithasau masnach) o'r farn fod ffioedd clwyd yn cael eu harwain gan weithredwyr gan gyfeirio at un neu ddau o ffactorau a oedd yn fwy dylanwadol y neu golwg hwy na'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wrth osod ffioedd clwyd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyflenwad a galw (er enghraifft, gallai ffioedd clwyd fod yn is mewn ardaloedd lle mae llawer o gystadleuaeth).
- Costau sylfaenol seilwaith, peirianneg a gweithredu tirlenwi. Y farn oedd bod y costau sylfaenol hyn wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil newidiadau mewn technoleg ac ansawdd y beirianneg a oedd yn ofynnol.

3.37 Fel y crybwyllwyd uchod, nid oedd yn bosibl gael dadansoddiad cywir o ffioedd clwyd safleoedd tirlenwi yn ôl gwlad. Felly, ni ellid ateb cwestiynau atodol A7.2 ac

A7.3 (archwilio’r gwahaniaethau rmewn ffioedd clwyd rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig) trwy adolygu data eilaidd. Cafodd y cwestiynau atodol hyn eu harchwilio wedyn fel rhan o’r ymchwil uniongyrchol, fodd bynnnag, nid oedd y rhai a gyfwelwyd (o grwpiau rhanddeiliaid cymdeithasau masnach, gweithredwyr safleoedd tirlenwi a sefydliadau amgylcheddol) yn gwybod am unrhyw wahaniaethau sylweddol.

**Troseddau gwastraff / cydymffurfio**

**A2.** Beth yw effaith y bwlch rhwng y gyfradd is a safonol mewn perthynas ag ymddygiad?

- **A2.1** A yw’r bwlch rhwng cyfraddau safonol ac is wedi cymell camddisgrifio gwastraff?
- **A2.2** Ac os felly, pa lefel o newid i’r cyfraddau allai’r sector ei goddef pe bai’r bwlch yn cau?

**A8.** A oes unrhyw dystiolaeth fod cael y gyfradd gwarediadau anawdurdodedig wedi cael effaith ataliol?

- A8.1 A oes unrhyw dystiolaeth ar draws y Deyrnas Unedig fod dod â gwarediadau anawdurdodedig o dan gwmpas treth gwarediadau tirlenwi yn atal troseddau gwastraff?
- A8.2 A oes unrhyw dystiolaeth fod y gyfradd uwch yng Nghymru yn cael mwy o effaith nag yn Lloegr a’r Alban lle gweithredir y gyfradd safonol ar gyfer gwarediadau anawdurdodedig?

**B4.** A yw cynllun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi newid ymddygiad o ran camddisgrifio gwastraff i ddibenion treth?

*Camddisgrifio gwastraff*

3.38 Yn y cyfweliadau ansoddol, gofynnwyd i randdeiliaid am eu barn ar effaith y bwlch rhwng cyfraddau safonol ac is rheoli gwastraff. Nid oedd data ar achosion o droseddau gwastraff ar gael i’w hadolygu.

3.39 Roedd rhanddeiliaid yn mynegi safbwyntiau amrywiol ynghylch effaith y bwlch rhwng cyfraddau safonol ac is ar reoli gwastraff. Teimlai 18 o rai a gyfwelwyd (ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid) fod maint y bwlch yn rhoi cymhelliad troedig i

gynhyrchwyr gamddosbarthu'n fwriadol wastraff ar y gyfradd is er mantais economaidd. Ailadroddwyd y farn hon yn y Crynodeb o Ymatebion i'r Alwad gan Drysorlys Ei Fawrhydi am Dystiolaeth ar agweddau o Drethi Tirlenwi,[43] lle credai ymatebwyr y byddai cynyddu'r gyfradd is o dreth yn lleihau achosion o gamddosbarthu.

*"Bydd unrhyw faich ar y farchnad yn cynhyrchu llwybrau eraill, llai moesegol."*

Cyfweliad â rheoleiddiwr / corff llywodraeth, 2022.

3.40 Ychwanegodd dau o'r rheini a gafodd eu cyfweld (casglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall a rheoleiddiwr / corff llywodraeth) nad oedd cyfraddau isel yn dylanwadu ar gynhyrchwyr i ystyried dewisiadau eraill o drin gwastraff. Er ei bod yn anodd dangos tystiolaeth, teimlent fod hyn yn debygol o fod yn digwydd gyda deunyddiau o safleoedd adeiladu fel pridd a deunyddiau tebyg i bridd lle credid ei bod yn rhatach (a haws) eu hanfon i safleoedd tirlenwi na chanfod dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff. Adlewyrchwyd y gred hon o fewn y Crynodeb o Ymatebion i'r Alwad gan Drysorlys Ei Fawrhydi am Dystiolaeth ar agweddau o Drethi Tirlenwi, lle credai ymatebwyr nad oedd dewisiadau o driniaethau amgen yn cael eu datblygu ar gyfer deunyddiau a raddiwyd yn is.[44]

3.41 Teimlai pump o'r rhai a gafodd eu cyfweld (yn cynrychioli cymdeithasau masnach, casglwr masnachol / gweithredwyr seilwaith eraill a rheoleiddwyr / cyrff llywodraeth) fod angen i'r bwlch rhwng y cyfraddau fod yn llai, neu fod angen cyflwyno cyfradd ganolig o dreth (gweler paragraff 3.23) i fynd i'r afael â'r materion hyn, rhoi mwy i'r pwrs cyhoeddus, a lleihau'r effaith ar weithredwyr cyfreithlon. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr i Alwad Trysorlys Ei Fawrhydi am Dystiolaeth ar agweddau o drethi tirlenwi[45] yn rhybuddio a gallai cyfradd treth ganolig gymhlethu'r dreth a chynyddu'r risg o droseddau gwastraff.

3.42 Ar y llaw arall, roedd pump a gafodd eu cyfweld (gweithredwyr safleoedd tirlenwi a chynhyrchwyr gwastraff) nad oedd yn credu bod y gwahaniaeth rhwng y gyfradd safonol ac is yn effeithio ar gamddosbarthu. Dywedent fod y gred hon yn cael ei

---

[43] Trysorlys Ei Fawrhydi (2023). Summary of Responses to the Call for Evidence on aspects of Landfill Tax
[44] Trysorlys Ei Fawrhydi (2023). Summary of Responses to the Call for Evidence on aspects of Landfill Tax
[45] Trysorlys Ei Fawrhydi (2023). Summary of Responses to the Call for Evidence on aspects of Landfill Tax

chadarnhau gan ddata o'r pontydd pwyso ar y safleoedd a ffurflenni. Ailadroddwyd hyn gan gynrychiolydd rheoleiddio / corff llywodraeth a gyfwelwyd a oedd yn credu bod y bwlch rhwng y cyfraddau y gwneud 'y peth iawn' yn sylfaenol. Ychwanegodd y byddai bob amser, waeth beth fo'r bwlch, gymhelliad i gamadrodd gwastraff.

3.43 Roedd rhai a gyfwelwyd yn trafod rhesymau eraill dros gamddosbarthu, heblaw'r cyfraddau trethi. Roedd dau ohonynt (cymdeithas fasnach a sefydliad amgylcheddol) yn nodi y gallai camddosbarthu fod yn fwriadol ac anfwriadol. Y gred oedd bod y broblem o gamddosbarthu anfwriadol yn cael ei gwaethygu gan drwyddedau cymhleth a disgrifiadau gwastraff (ee amryw o ffrydiau gwastraff o dan yr un cod a/neu y Catalog Gwastraff Ewropeaidd a oedd yn cael ei ystyried i fod yn ddryslyd). Credai un gweithredwr safle tirlenwi fod y rheswm dros gamddosbarthu i'w briodoli i'r ffaith mai gan y gweithredwr roedd y cyfrifoldeb dros ddosbarthu gwastraff. Ychwanegodd y cyfwelai y byddai llai o achosion o gamddosbarthu pe bai'r cyfrifoldeb i gydymffurfio yn cael ei osod ar gynhyrchwr y gwastraff.[46]

3.44 Mae amrediad helaeth safbwyntiau rhanddeiliaid yn awgrymu bod angen mwy o dystiolaeth i ddeall graddau'r camddosbarthu sy'n digwydd ac effeithiolrwydd y mesurau gorfodi a chydymffurfio presennol. Cadarnheir yr angen hwn gan ddata Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, sy'n amcangyfrif y bwlch trethi tirlenwi (yn sgil elfennau gan gynnwys camddosbarthu[47]) fel 17.1 o rwymedigaethau damcaniaethol y trethi (2020/21) gydag amcangyfrif o golled o £125 miliwn.[48,] Nid yw'n hysbys beth yw'r bwlch trethi o fewn Cymru gan na chaiff ei asesu ar hyn o bryd oherwydd amrywiaeth o resymau, gyda'r anhawster i ddarparu amcangyfrif cywir yn un ohonynt.

*Gwarediadau anawdurdodedig*

3.45 Mewn cyfweliadau, gofynnwyd i randdeiliaid a oeddent yn gwybod a oedd y gyfradd gwarediadau anawdurdodedig yn cael effaith ataliol ar safleoedd gwastraff anghyfreithlon. Roedd y rheini a oedd yn gallu cynnig safbwynt yn amau ei

[46] Dylid ychwanegu bod cyfrifoldeb o'r fath eisoes yn bod. Mae gofynion dyletswydd gofal yn golygu bod rhwymedigaeth ar gynhyrchwyr i ddosbarthu eu gwastraff ar y nodiadau trosglwyddo gwastraff.
[47] Mae'r bwlch treth yn cynnwys gwastraff heb ei ddatgan ac wedi ei gamddosbarthu ar safleoedd gwastraff anawdurdodedig, a darganfod gwastraff mewn safleoedd anawdurdodedig ac anghyfreithlon hysbys.
[48] Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (2022). Official Statistics. Tax Gaps: Other Taxes

effeithiolrwydd (chwe o rai a gyfwelwyd o gymdeithasau masnach, cynhyrchwyr, rheoleiddwyr / cyrff llywodraeth). Er bod y gyfradd ei hun (150 y cant) yn ymddangos yn synhwyrol, roedd y rhai a gyfwelwyd yn pwysleisio problemau gyda'i gorfodi a diffyg ymwybyddiaeth o'i bodloaeth. Mae'r ddau reswm hyn yn cyfyngu gallu'r gyfradd uwch ar gyfer gwarediadau anawdurdodedig yng Nghymru i gael mwy o effaith gadarnhaol.

3.46 Bu dau a gyfwelwyd (cynhyrchwr a chymdeithas fasnach) yn rhannu anecdotau ar dipio anghyfreithlon; er bod achosion wedi cael eu cymryd i'r llys, roedd barnwyr yn gyndyn o ddedfrydu oherwydd ansicrwydd wrth adnabod y cyflawnwr. O ganlyniad, credent fod y cyflawnwyr yn llai ofnus o ganlyniadau ymddygiad anghyfreithlon. Yn ogystal, credai'r cynrychiolydd cymdeithas fasnach hefyd fod cyfran helaeth o dipio anghyfreithlon yn cael ei gyflawni gan droseddwyr cyfundrefnol a all ystyried y ddirwy bosibl (150 y cant o'r gyfradd safonol) yn fach iawn o'r buddion ariannol canfyddedig posibl. Fodd bynnag, awgrymodd yr un cyfwelai fod problem o ran pa mor ddibynadwy oedd data tipio anghyfreithlon gydag anomaleddau a data amrywiol yn cael ei gasglu. Golyga hyn ei bod yn anodd llunio casgliadau ynghylch effaith y gwarediadau anawdurdodedig.

3.47 O ran effaith y gyfradd uwch ar gyfer gwarediadau anawdurdodedig yng Nghymru o gymharu â Lloegr a'r Alban, credai pedwar o rai a gafodd eu cyfweld (yn cynrychioli cymdeithasau masnach a rheoleiddwyr / cyrff llywodraeth) naill nad oedd dim effaith gweladwy (am y rhesymau a drafodir ym mharagraffau 3.45 i 3.46) neu ei bod yn rhy gynnar i asesu hyn ers i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi gychwyn. Er hynny, credai rheoleiddiwr / corff llywodraeth o'r Alban fod ganddi'r potensial i fod yn gadarnhaol a chaniatáu cynhyrchu mwy o refeniw.

# 4. Canfyddiadau allweddol – effaith rheoleiddio

| |
|---|
| **B1.** A oes unrhyw dystiolaeth fod y gwahaniaethau mewn deddfwriaeth Trethi Gwarediadau Tirlenwi o'u cymharu o fewn y Deyrnas Unedig wedi cael effaith? Os felly, a yw'r effaith hon wedi bod yn gadarnhaol neu negyddol ar:<br>i) gyfraddau ailgylchu<br>ii) lefelau risg treth<br>iii) hyfywedd busnesau tirlenwi/gwastraff |

*Gwahaniaethau deddfwriaethol*

4.1 Mae'r adran ganlynol yn nodi'r prif wahaniaethau rhwng deddfwriaethau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a Threthi Tirlenwi Lloegr a'r Alban sy'n ymwneud â disgownt dŵr, esemptiadau a rhyddhadau, llifau gwastraff cyfradd is, gwarediadau anawdurdodedig a gwarediadau trethadwy.[49] Caiff effaith y gwahaniaethau a ganfuwyd ar (i) lefelau o risg treth a (ii) hyfywedd busnesau tirlenwi/gwastraff eu cyflwyno yn yr adrannau dilynol. Caiff effeithiau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar ailgylchu ac ailddefnyddio eu trafod o fewn adran 3.

4.2 Roedd naw o'r rhai a gyfwelwyd (ar draws grwpiau rhanddeiliaid gweithredwyr safleoedd tirlenwi, rheoleiddwyr / cyrff llywodraeth, sefydliadau amgylcheddol, casglwyr masnachol a gweithredwyr seilwaith eraill) â diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol o'r gwahaniaethau mewn deddfwriaeth, gyda chred fod y ddeddfwriaeth yn gyffredinol yr un fath rhwng gwledydd ac yn wynebu heriau tebyg o ran polisi (ee camddisgrifio). Sylw un cynrychiolydd rheoleiddwyr / cyrff llywodraeth a gyfwelwyd oedd er bod y strwythur deddfwriaethol/cyfreithiol yr un fath, fod mân wahaniaethau gweinyddol a oedd yn caniatáu addasiadau yn y deddfwriaethau yn unol ag anghenion penodol y gwledydd.

[49] Roedd manyleb y tendr yn nodi "gallai gradd o gymharu rhwng y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'r Dreth Tirlenwi godi – ni fydd hyn yn ymwneud â chymharu pob llinell o'u Deddfau perthnasol, ond dewis rhannau o'r ddeddfwriaeth sydd ag elfen ymddygiadol ac a fydd yn rhoi asesiad defnyddiol o gyfleoedd i wella'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ee effeithiolrwydd rhyddhadau a disgowntiau."

4.3 Lle gwnaed sylw ar effaith gwahaniaethau, manylir ar hyn isod. Lle na allai rhanddeiliaid gwneud sylw ar effaith oherwydd diffyg gwybodaeth o’r gwahaniaethau, caiff y gwahaniaethau mewn deddfwriaeth eu diffinio’n syml isod.

*Disgownt dŵr*

4.4 O ran disgownt dŵr, mae deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cesio egluro’r trefniadau a’r prosesu ar gyfer ymgeisio am ddisgownt dŵr a’i hawlio. Mae’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a’r Dreth Tirlenwi ill dwy yn darparu disgownt a gaiff ei weithredu ar ddŵr a gynhwysir mewn deunydd wrth gyfrifo pwysau trethadwy gwastraff. Mae’r ddwy gyfundrefn yn gofyn am bresenoldeb o leiaf un o’r un pum maen prawf wrth ymgeisio am ddisgownt, sef bod y dŵr yn bresennol fel a ganlyn:

- bu’n rhaid ei ychwanegu er mwyn galluogi’r deunydd i gael ei gludo i’w waredu;
- bu’n rhaid ei ddefnyddio i echdynnu mwyn;
- bu’n rhaid ei ychwanegu yng nghwrs proses ddiwydiannol;
- cododd fel canlyniad angenrheidiol proses ddiwydiannol; neu
- mae’r deunydd yn weddill o drin elifion neu garthion mewn gwaith trin dŵr.

4.5 Er bod y darpariaethau yng Nghymru yn cael yr un effaith yn fras â darpariaethau Lloegr a’r Alban, mae gwahaniaethau. Yng Nghymru, mae’r holl ddarpariaethau perthnasol ar wyneb y ddeddfwriaeth yn hytrach nag yn y rheoliadau. Nod hyn yw darparu tryloywder a sefydlogrwydd. Yn ogystal, mae’r broses ymgeisio am ddisgownt dŵr yn wahanol rhwng y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a’r Dreth Tirlenwi. Yn gyntaf, mae’r Dreth Tirlenwi yn pennu bod yn rhaid i’r dŵr sy’n bresennol gyfansoddi o leiaf 25 y cant o bwysau’r deunydd, tra nad oes amod o’r fath gan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi gan mai’r farn yw y byddai hyn yn agored i’w gamddefnyddio. O ganlyniad, mae’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cyflwyno prawf anghenraid sy’n ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i’r dŵr a ychwanegwyd fod yn angenrheidiol er mwyn cymhwyso am ddisgownt dŵr. Heb gael maen prawf trothwy ar gyfer y ganran o bwysau dŵr, mae’n aneglur sut y caiff y disgownt hwn ei ddefnyddio’n ymarferol. Yn ail, yng Nghymru mae gweithredwr y safle tirlenwi (y trethdalwr) yn gweithredu’r disgownt dŵr, tra bod cynhyrchwr neu brosesydd y

gwastraff yn Lloegr yn ymgeisio am ddisgownt mewn cytundeb gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi a'r gweithredwr y safle tirlenwi. Felly, yn Lloegr, gall cynhyrchwr gwastaff ddal un cais am ddisgownt dŵr gyda sawl gweithredwr safle tirlenwi (gan olygu y gall safleoedd tirlenwi gael mwy nag un cais). O ganlyniad, ni ellir cymharu'r data ar y niferoedd o ddisgowntiau a weithredwyd yng Nghymru yn uniongyrchol â'r sefyllfa yn Lloegr. Caiff effaith y gwahaniaethau mewn disgownt dŵr ei drafod ymhellach yn adran 4 – rhyddhadau, disgownt ac esemptiadau, a lefelau o risg treth.

*Esemptiadau a rhyddhadau*

4.6 O dan y Dreth Tirlenwi yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae pob sefyllfa lle gall gwarediad trethadwy gael rhyddhad yn cael eu dosbarthu fel esemptiadau (er bod pob darpariaeth yn gofyn am ddull gwahanol gan y trethdalwr). Nid yw asesiad Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn ofynnol ar gyfer yr esemptiadau hyn. O dan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru, caiff esemptiadau eu gwahanu'n esemptiadau a rhyddhadau. Nid yw'n ofynnol i wybodaeth gael ei chyflwyno i Awdurdod Cyllid Cymru er mwyn cadarnhau'r hawl ar gyfer esemtpiadau.[50] Yn ogystal, nid oes raid i warediadau esempt gyflwyno ffurflenni. Yn wahanol i warediadau esempt, mae'n ofynnol i warediadau â rhyddhad gyflwyno ffurflenni.

4.7 Mae dau esemptiad yn bod o dan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, sef gwarediadau lluosog o ddeunydd yn yr un safle a mynwentydd anifeiliaid anwes. Mae gan y Dreth Tirlenwi esemptiad yn ymwneud â gwastraff gan luoedd sy'n ymweld. Er y gellir trin y deunyddiau canlynol fel esemptiadau o dan y Dreth Tirlenwi a rhyddhadau o dan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, mae'r deddfwriaethau'n dangos canlyniad tebyg o dreth yn peidio â bod yn daladwy ar ddeunyddiau o'r fath pan fodlonir y meini prawf canlynol:

- deunyddiau'n cael eu tynnu o ddŵr (carthu);
- deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer llenwi chwareli;
- deunyddiau o adfer safleoedd; a
- deunyddiau sy'n codi o weithrediadau mwyngloddio a chwarela.

[50] Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn gallu gwneud ymholiad fel rhan o'i waith cydymffurfio a gorfodi.

4.8 O’r mathau hyn o ryddhad, mae’r ddau olaf wedi cael eu diwygio. Roedd diwygiadau i ail-lenwi mwyngloddiau brig a chwareli yn ymestyn cwmpas y rhyddhad i gynnwys ‘cymysgedd cymwys o ddeunyddiau nad yw wedi ei gyfansoddi’n gyfan gwbl o ro mân’ a sicrhau bod gwarediadau trethadwy o ddeunyddiau cymwys yn gymwys ar gyfer y rhyddhad yn y dyfodol.[51] Y ddau ddiwygiad i ddeunydd adfer safleoedd:

- caniatáu i ryddhad adfer safleoedd gael ei hawlio ar gyfer deunydd sydd wedi ei gyfansoddi’n gyfan gwbl o uwchbridd.[52]
- diwygio’r diffiniad o ‘waith adfer’ i gwmpasu gwaith a gyflawnir i adfer ardal gwarediadau tirlenwi nad yw wedi ei chapio.[53]

Caiff effaith y gwahaniaethau mewn esemptiadau a rhyddhadau ei thrafod ym mharagraffau 4.12 i 4.18 o’r adroddiad.

*Ffrydiau gwastraff sy’n cymhwyso o dan y gyfradd is*

4.9 Mae’r Dreth Tirlenwi yn pennu bod yn rhaid i’r gwastraff beidio â bod yn beryglus, bod yn rhaid iddo gael potensial isel am allyriadau nwyon ty gwydr, a bod yn rhaid iddo fod â photensial isel o lygru yn amgylchedd y safle tirlenwi er mwyn cymhwyso o dan y gyfradd is. Yn hytrach na chael meini prawf ar gyfer ffrydiau gwastraff cymwys, mae’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn pennu’r union ffrydiau gwastraff o dan y gyfradd hon, sy’n cynnwys creigiau a phriddoedd, deunydd seramig neu goncrit, mwynau, slagiau ffwrnais, lludw, cyfansoddion anorganig actifedd isel, calsiwm sylffad, a chalsiwm hydrocsid a dŵr hallt.

*Gwarediadau anawdurdodedig*

4.10 Daeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a’r Dreth Tirlenwi â gwarediadau anawdurdodedig o fewn cwmpas y dreth. Fodd bynnag, yn Lloegr, caiff gwarediadau anawdurdodedig eu codi ar y gyfradd safonol, a dirwy gosb bosibl. Yng Nghymru, mae cyfradd ar wahân ar gyfer gwarediadau anawdurdodedig (150 y

[51] Llywodraeth Cymru (2019). 2019, Rhif1143 (Cy. 198). Rheoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhadau) (Diwygiadau Amrywiol) 2019
[52] Llywodraeth Cymru (2018). 2018, Rhif1057 (Cy. 221). Rheoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhad Adfer Safle) (Diwygiad) 2018
[53] Llywodraeth Cymru (2019). 2019, Rhif 1143 (Cy.198). Rheoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhadau) (Diwygiadau Amrywiol) 2019

cant o’r gyfradd safonol). Caiff effaith y gyfradd hon ar gyfer gwarediadau anawdurdodedig ei thrafod ymhellach ym mharagraff 3.45 yr adroddiad.

*Gwarediadau trethadwy*

4.11 Mae’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a’r Dreth Tirlenwi yn cynnwys prawf sylfaenol ar gyfer gwarediad trethadwy. Fodd bynnag, gweithredir y mireinio canlynol hefyd i ddeddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi:

- mae’n ceisio eglurder fod y gweithredwr safle tirlenwi yn atebol;
- mae’n ceisio cadarnhad y gellir dehongli’r ‘bwriad i waredu’ o’r amgylchiadau, gan ei wneud yn llai goddrychol; ac
- mae’n egluro  y gall y gwarediad, er bod budd dros dro neu ddamweiniol, ddal i ddisgyn o fewn cwmpas y dreth.

**Rhyddhadau, disgownt ac esemptiadau**

**B3.4** Pa effeithiau mae’r rhyddhadau, disgowntiau a’r esemptiadau o dan y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi wedi eu cael ar ymddygiad trethdalwyr?

**B3.5** A yw’r rhyddhadau, disgowntiau a’r esemptiadau yn y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn dal yn addas ac angenrheidiol?

4.12 Casglwyd cyfuniad o ddata uniongyrchol ac eilaidd i ddeall sut mae’r rhyddhadau, disgowntiau a’r esemptiadau o dan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi effeithio ar ymddygiad trethdalwyr. Mae trosolwg o’r rhyddhadau, disgowntiau a’r esemptiadau o dan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i’w gael ym mharagraffau 4.4 i 4.8.

4.13 O fewn Cymru, roedd y nifer o geisiadau a gymeradwywyd am ddisgownt dŵr yn amrywio rhwng 10 a 20 yn y blynyddoedd 2018-19 i 2022-23 (Tabl 6). Nid yw data ar geisiadau a dynnwyd yn ôl neu a wrthodwyd ond ar gael ar gyfer 2022-23.

**Tabl 6: Cyfanswm o geisiadau disgownt dŵr yng Nghymru a dderbyniwyd gan Awdurdod Cyllid Cymru**

| Blwyddyn ariannol | Cymru | |
|---|---|---|
| | Ceisiadau a gymeradwywyd | Ceisiadau a dynnwyd yn ôl neu a wrthodwyd |
| **2018-19** | 15 | Ddim ar gael |
| **2019-20** | 20 | Ddim ar gael |
| **2020-21** | 10 | Ddim ar gael |
| **2021-22** | 10 | Ddim ar gael |
| **2022-23** | 15 | 5 |

**Ffynhonnell:** Awdurdod Cyllid Cymru (2022)
**Nodiadau:** Mae cytundebau disgownt dŵr Awdurdod Cyllid Cymru yn rhedeg fel arfer am gyfnod o 12 mis pryd y cânt eu hadolygu a all arwain at gytundeb newydd. Mae'r data wedi ei dalgrynnu i'r pum cais agosaf. Mae ceisiadau a gymeradwywyd yn cynnwys cytundebau newydd, cytundebau adnewyddu ar ôl adolygiad 12-mis ac amrywiadau i'r cytundeb. Gall gweithredwyd safleoedd tirlenwi dynnu cais yn ôl cyn iddo gael ei gymeradwyo. Mae data ar gyfer 2022-23 yn cynrychioli'r ceisiadau hynny a dderbyniwyd hyd at y pwynt rydym wedi cynhyrchu'r ystadegau hyn, ac felly maent yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 10 Hydref 2022.

4.14 Nid yw'n bosibl deall effeithiau disgownt dŵr o dan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar ymddygiad trethdalwyr o'r data eilaidd ar ei ben ei hun. Felly, ceisiwyd ennill dealltwriaeth trwy gyfweliadau ansoddol ar effaith, angenrheidrwydd ac addasrwydd y disgownt hwn yn ogystal â disgowntiau, rhyddhadau ac esemptiadau eraill.

4.15 O ran disgownt dŵr, esboniodd dau weithredwr safleoedd tirlenwi a gyfwelwyd fod, yng Nghymru, y berthynas ar gyfer disgownt dŵr rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a'r gweithredwr safle tirlenwi (fel yr esbonir ym mharagraff 4.5), gyda'r gweithredwr yn gyfrifol am brofi a dadansoddi'r llif gwastraff mewn unrhyw amodau cysylltiedig. O ganlyniad, roedd y rhai a gyfwelwyd yn credu bod gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn ysgwyddo costau uwch.

*"Byddem yn ysgwyddo mwy o gostau a risg i wneud yr hyn sy'n ofynnol gyda'r gwastraff felly rydym wedi rhoi'r gorau i'w gymryd. O ganlyniad, mae marchnad allan yno nad ydym yn teimlo y gallwn ymwneud â hi."*

Cyfweliad â gweithredwr safle tirlenwi, 2022.

*“Ar gyfer y disgownt dŵr, rydym yn gwrthod tua 25,000 tunnell y flwyddyn oherwydd dull gofalus [gan y gweithredwr]”*

Cyfweliad â gweithredwr safle tirlenwi, 2022.

4.16 Er bod rhyddhadau yn cael eu hystyried fel baich gweinyddol gan un gweithredwr safle tirlenwi, roedd eraill a gyfwelwyd (un gweithredwr safle tirlenwi ac un gymdeithas fasnach) o’r farn fod eu hangen oherwydd y buddion ariannol ac amgylcheddol sy’n gysylltiedig â hwy. Pe na bai rhyddhadau yn bod, byddai ail-lenwi chwareli yn rhy gostus ac yn llesteirio creu cynefinoedd megis gwlyptiroedd o ganlyniad (sy’n aml yn cael eu creu trwy adfer chwareli).[54]

4.17 Fodd bynnag, roedd y Crynodeb o Ymatebion i’r Alwad am Dystiolaeth gan Drysorlys Ei Fawrhyd ar agweddau o’r Dreth Tirlenwi, yn dangos pryderon yngylch rheoleiddio a gorfodi gwastraff anadweithiol a ddefnyddir i adfer safleoedd chwareli.[55] O’r herwydd, bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig yn adolygu a yw’r esemptiadau presennol o fewn y Dreth Tirlenwl yn parhau i gefnogi amcanion amgylcheddol ehangach.

4.18 Y consensws cyffredinol yn y cyfweliadau oedd bod canfod unrhyw effaith (o’r rhyddhadau, disgowntiau a’r esemptiadau) ar ymddygiadau yn anodd iawn. Roedd hyn yn rhannol oherwydd yr anhawster wrth gymharu’r effeithiau yng Nghymru ag mewn gwledydd eraill. Er enghraifft, yng Ngymru, nid oedd data ar esemptiadau yn cael ei gofnodi cyn cyflwyno’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac mae’r rhyddhadau ar hyn o bryd yn cael eu dosbarthu fel esemptiadau o dan y Dreth Tirlenwi.

### Amwyseddau a bylchau yn y ddeddfwriaeth

| |
|---|
| **B5.** A oes unrhyw amwyseddau neu fylchau yn y ddeddfwriaeth bresennol sy’n golygu bod llai o dreth na’r disgwyl yn cael ei gasglu? |

4.19 Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn ei chael yn anodd canfod unrhyw amwyseddau na bylchau yn y ddeddfwriaeth bresennol. Roedd hyn yn arbennig o

[54] Mae ail-lenwi chwareli yn rhyddhad o dan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, ac yn esemptiad o dan y Dreth Tirlenwi.

[55] Trysorlys Ei Fawrhydi (2023). Summary of Responses to the Call for Evidence on aspects of Landfill Tax

wir am y sector rheoli gwastraff a oedd â gwybodaeth o'r cyfraddau treth yn bennaf yn hytrach nag o'r ddeddfwriaeth yn ei chyfanrwydd.

4.20 Credai un cynrychiolydd rheoleiddiwr / corff llywodraeth ei bod yn rhy gynnar i ddweud a oedd unrhyw fylchau yn y ddeddfwriaeth, yn enwedig yn absenoldeb unrhyw benderfyniadau llys (a fyddai'n gwneud bylchau o'r fath yn amlwg). Mae'n werth nodi bod achosion llys ar hyn o bryd yn yr Alban a Lloegr, ond bod Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru wedi ei drafftio yn y fath fodd i geisio osgoi ymgyfreitha, gan gymryd gwersi o achosion mewn lleoedd eraill (trafodir ym mharagraff 1.9).

4.21 Teimlai un arall a gyfwelwyd (cymdeithas fasnach) y byddai mwy o dreth yn cael ei gasglu wrth gyflwyno cyfradd dreth ganolig (gweler paragraff 3.23). Gallai hyn hyrwyddo'r ymddygiadau a ddeisyfir a lleihau gweithgarwch troseddol megis camddisgrifio (gweler adran 3 – troseddau gwastraff). Byddai hefyd yn helpu lleihau effeithiau ar weithredwyr cyfreithlon trwy greu cae chwarae mwy gwastad.

### Lefelau risg treth

| |
|---|
| **B1.2**. A oes unrhyw dystiolaeth fod y gwahaniaethau mewn deddfwriaeth trethi gwarediadau tirlenwi o fewn y Deyrnas Unedig wedi cael effaith? Os felly, a yw'r effaith hon wedi bod yn gadarnhaol neu'n negyddol ar lefelau o risg treth? |

4.22 Er mwyn deall gwahaniaethau mewn risg treth rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig, casglwyd data ymchwil eilaidd ac uniongyrchol yn ymwneud â risg treth (sef achosion o gamddisgrifio a disgownt dŵr). Dylid nodi bod data eilaidd ar y risgiau hyn naill ai heb fod ar gael, neu ar gael ar gyfer Cymru yn unig.

4.23 Rhwng Cymru a Lloegr, ni chanfuwyd unrhyw wahaniaethau mewn deddfwriaeth yn ymwneud â chamddisgrifio gwastraff. O fewn Cymru, roedd absenoldeb data uniongyrchol yn ymwneud ag achosion o gamddisgrifio gwastraff. Roedd y data a oedd ar gael yn gyfrinachol ei natur ac nid oedd ar gael i'w adolygu. O ran ymchwil ansoddol, bu'r rhai a gyfwelwyd yn trafod achosion o gamddisgrifio mewn perthynas â'r cyfraddau treth. Trafodir hyn ym mharagraffau 3.38 i 3.44.

4.24 Roedd hefyd ddiffyg data yn ymwneud â disgownt dŵr a risg treth (er bod effaith disgowntiau dŵr yn gyffredinol yn cael ei drafod ym mharagraffau 4.12 i 4.18).

Roedd un o'r rhai a gyfwelwyd (cymdeithas fasnach) yn credu bod disgowntiau dŵr yn agored i'w camddefnyddio o ganlyniad i ddeddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, ac yn esbonio bod gweithredwyr yng Nghymru wedi bod yn hawlio rhyddhad yn anghywir am ddisgownt dŵr. Awgryma hyn efallai nad yw'r addasiadau a wnaed o fewn deddwriaeth Cymru i leihau'r potensial o gamddefnyddio (gweler paragraff 4.5) yn gwbl effeithiol. Fodd bynnag, dylid nodi mai barn anecdotaidd yn hytrach nag ar sail profiad uniongyrchol yw hon ac na ddylid credu bod hyn yn fater sy'n unigryw i Gymru. Ar y llaw arall, credai cynrychiolydd rheoleiddiwr / corff llywodraeth a gyfwelwyd fod llawer o ddiwydrwydd dyladwy ynghylch disgowntiau dŵr er mwyn lleihau risgiau.

**Hyfywedd busnesau tirlenwi/gwastraff**

| |
|---|
| **B1.3.** A oes unrhyw dystiolaeth fod y gwahaniaethau mewn deddfwriaeth Trethi Gwarediadau Tirlenwi o fewn y Deyrnas Unedig wedi cael effaith, ac os felly, a yw'r effaith hon wedi bod yn gadarnhaol neu negyddol ar hyfywedd busnesau tirlenwi/gwastraff? |
| **C3.** Pa effaith mae cynllun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chyfraddau treth wedi ei gael ar benderfyniadau'r diwydiant ynghylch hyfywedd safleoedd tirlenwi yng Nghymru? |

4.25 Er mwyn deall gwahaniaethau mewn hyfywedd busnesau rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig, casglwyd data eilaidd ac uniongyrchol yn ymwneud â nifer a hyfywedd safleoedd a gweithredwyr trin gwastraff yn ôl dewis triniaeth. Mae dadansoddiad o'r ffynonellau hyn yn ffurfio cynnwys y drafodaeth isod. Dylid nodi bod data eilaidd ar yr elfennau hyn ar gael ar gyfer Cymru, yr Alban a Lloegr ond mai'n rhannol yn unig roedd ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon.

4.26 Mae Tabl 7 yn nodi'r nifer o safleoedd tirlenwi yn y Deyrnas Unedig yn ôl cenedl. Disgynnodd nifer safleoedd tirlenwi yn yr Alban 14 y cant (o 51 i 44 o safleoedd) rhwng 2017 a 2021. Er gwaethaf y bylchau mewn data, dengys y data fod nifer y safleoedd yng Ngogledd Iwerddon hefyd wedi disgyn dros yr un cyfnod. Yng Nghymru, gostynodd nifer y safleoedd tirlenwi o 23 yn 2018 i 20 yn 2022. Ar y llaw arall, cynyddodd nifer y safleoedd tirlenwi yn Lloegr rhwng 2016 a 2021. Caiff y rhesymau posibl dros y gwahaniaethau hyn eu trafod ym mharagraff 4.29.

**Tabl 7: Nifer o safleoedd tirlenwi yn y Deyrnas Unedig yn ôl cenedl, 2017 i 2022**

| Lleoliad | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | ddim ar gael | 23 | 23 | 21 | 20 | 20 |
| **Lloegr** | 515 | 534 | 536 | 534 | 527 | ddim ar gael |
| **Yr Alban** | 51 | 50 | 45 | 43 | 44 | ddim ar gael |
| **Gogledd Iwerddon** | 33 | ddim ar gael | ddim ar gael | ddim ar gael | 21 | 21 |

**Ffynonellau:** SEPA (2022). Waste sites and capacity data tool. Asiantaeth yr Amgylchedd (Lloegr) (2022). Remaining Landfill Capacity. Awdurdod Cyllid Cymru (2022). Gweithredwyr safleoedd tirlenwi cofrestredig yng Nghymru . Awdurdod Cyllid Cymru (2022). Ystadegau Treth Tirlenwi Cymru. Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (2021). List of registered landfill site operators. NIEA (2018). Authorised landfill sites

**Nodiadau:** Yr unig reswm y caiff data 2017 ei gynnwys yw er mwyn rhoi cyd-destun i safleoedd Gogledd Iwerddon yn sgil diffyg data ar gael ar gyfer 2018 – 2020. Caiff nifer y safleoedd tirlenwi yng Nghymru ei gymryd o ddiwedd y flwyddyn galendr. Mae 'ddim ar gael' yn nodi nad yw'r data ar gael.

4.27 Roedd y nifer o weithredwyr safleoedd tirlenwi yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr rhwng 2016 a 2021 yn dilyn yr un tueddiadau â'r nifer o safleoedd tirlenwi, fel y dangosir yn Nhabl 8. Roedd lleihad o 28 y cant yn y nifer o weithredwyr safleoedd tirlenwi yn yr Alban (o 39 i 28 o weithredwyr) rhwg 2017 a 2021. Er gwaethaf y bylchau data, mae'r data sydd ar gael yn dangos bod y nifer o weithredwyr safleoedd tirlenwi yng Ngogledd Iwerddon hefyd wedi gostwng. Yn y cyfamser bu cynnydd o ddau y cant yn nifer y gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn Lloegr (o 315 i 320 o weithredwyr) dros yr un cyfnod. Yng Nghymru, arhosodd y nifer o weithredwyr yn sefydlog ar 17 rhwng 2018 a 2022. Dylid nodi bod nifer y gweithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru cynyddu am gyfnod byr i 18 rhwng misoedd Gorffennaf a Medi 2018 cyn disgyn yn ôl i 17.

**Tabl 8: Nifer o weithredwyr safleoedd tirlenwi yn y Deyrnas Unedig**

| Lleoliad | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | ddim ar gael | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| **Lloegr** | 315 | 323 | 329 | 329 | 320 | ddim ar gael |
| **Yr Alban** | 39 | 37 | 31 | 30 | 28 | ddim ar gael |
| **Gogledd Iwerddon** | 31 | ddim ar gael | ddim ar gael | ddim ar gael | 21 | ddim ar gael |


Ffynonellau: SEPA (2022). Waste sites and capacity data tool. Asiantaeth yr Amgylchedd (Lloegr) (2022)., Remaining Landfill Capacity. Awdurdod Cyllid Cymru (2022). Gweithredwyr safleoedd tirlenwi cofrestredig yng Nghymru . Awdurdod Cyllid Cymru (2022). Ystadegau Treth Tirlenwi Cymru. Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (2021). List of registered landfill site operators. NIEA (2018). Authorised landfill sites

**Nodiadau:** Yr unig reswm y caiff data 2017 ei gynnwys yw er mwyn rhoi cyd-destun i safleoedd Gogledd Iwerddon yn sgil diffyg data ar gael ar gyfer 2018 – 2020. Caiff nifer y safleoedd tirlenwi yng Nghymru ei gymryd o ddiwedd y flwyddyn galendr. Mae ‘ddim ar gael’ yn nodi nad yw’r data ar gael.

4.28 O’i gyferbynnu â’r nifer o safleoedd a gweithredwyr tirlenwi, dangosir tuedd wahanol yn Ffigur 8, sy’n cyflwyno gwastraff tirlenwi o dan y cyfraddau safonol ac is. Gostyngodd cyfanswm tunelli a gafodd ei dirlenwi ar y gyfradd safonol rhwng blynyddoedd ariannol 18-19 a 20-21 (o 484kt i 322kt). Gostyngodd cyfanswm tunelli a gafodd ei dirlenwi ar y gyfradd is hefyd dros yr un cyfnod (o 562kt i 521kt), er bod hyn i raddau llai. Gallai’r gwahaniaeth mewn cyfraddau lleihad rhwng y tunelli ar y raddfa safonol a’r raddfa is gyfateb i lai o gymhelliad ariannol i ddargyfeirio ffrydiau gwastraff cyfradd is o safleoedd tirlenwi. Ym mlwyddyn ariannol 21-22, cynyddodd cyfanswm tunelli a gafodd ei dirlenwi ar y gyfradd safonol (i 446kt) ac ar y gyfradd is 599kt). Gall y cynnydd hwn adlewyrchu’r cynnydd mewn gwastraff o driniaeth fecanyddol (sef cod 191212 y Catalog Gwastraff Ewropeaidd) ac, i raddau llai, gwastraff trefol cymysg (sef cod 200301 y Catalog Gwastraff Ewropeaidd). Fel y dangosir yn Ffigur 9, roedd cyfanswm cyfun y ddau fath o wastraff yn cyfansoddi 51 y cant o gyfanswm y gwastaff a gafodd ei dirlenwi yng Nghymru yn 2021, o


gymharu â 29 y cant yn 2015. Mae'n debyg mai cyfyngedig fydd y triniaethau amgen ar wahân i dirlenwi a fydd ar gaer ar gyfer gwastraff o driniaeth fecanyddol.

**Ffigur 8: Tunelli a gafodd eu tirlenwi (kt) yn ôl cyfradd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru, 2018/19 – 2021/22**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2023). [Ystadegau Treth Gwarediadau Tirlenwi]

**Ffigur 9: Canran o wastraff tirlenwi a ffurfir o 191212 a 200301 yng Nghymru, 2015-2021**



**Mae'r rhan lwyd ei lliw yn cyfeirio at y cyfnod cyn datganoli'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi*

Ffynhonnell: Awdurdod Cyllid Cymru (2022). Data Ffurflenni Trwyddedau Data

4.29 Er mwyn deall ymhellach sut mae deddfwriaeth Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi effeithio ar hyfywedd busnesau tirlenwi a gwastraff yng Nghymru o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig, casglwyd data trwy gyfweliadau ansoddol. Credai tri gweithredwyr safloedd tirlenwi a gyfwelwyd fod deddfwriaeth Cymru yn rhy gymhleth o gymharu â'r gwledydd eraill, gan greu baich ariannol a gweinyddol ar weithredwyr. Roedd enghreifftiau o'r baich a nodwyd yn cynnwys y broses lafurus o lenwi ffurflenni (a allai adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn esemptiadau a rhyddhadau rhwng Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) a'r Dreth Tirlenwi, paragraff 4.5) a thalu treth ychwanegol pe penderfynid fod gwastraff yn perthyn i wahanol gategori. Esboniodd un o'r rheini a gafodd eu cyfweld fod Cyllid a Thollau Ei Fawrhyd wedi newid ei ganllawiau yn 2016/2017 er mwyn gwneud pethau'n haws i weithredwyr (ee o ran adfer). Ar y llaw arall, yng Nghymru a'r Alban, mae popeth yn drethadwy oni phrofir yn wahanol, gan greu llawer o waith i weithredwyr. Er bod tri gweithredwr safle tirlenwi arall a gyfwelwyd yn nodi bod y dreth wedi achosi gostyngiad mewn safleoedd tirlenwi dros amser, nid oeddent yn pennu rheswm dros hyn.

*"Rydym yn aml yn gwneud y sylw ein bod, o ystyried bod gennym ddau safle tirlenwi yng Nghymru, yn treulio tua 50 y cant o'n hamser gweithio ar drethi tirlenwi ar faterion Cymreig, o gymharu â'r Alban (un safle tirlenwi) a Lloegr (20 o safleoedd tirlenwi)."*

Cyfweliad â gweithredwr safle tirlenwi, 2022.

*"Mae'n chwerthinllyd faint o amser mae fy nhîm yn ei dreulio'n paratoi ar un safle o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig, sy'n faich ar fusnes. Fe wnaeth y Cymry ddewis ysgrifennu a gweithredu'r dreth hon er mwyn ei gwneud yn wahanol".*

Cyfweliad â gweithredwr safle tirlenwi, 2022.

*"Maen nhw [Awdurdod Cyllid Cymru] yn dehongli'r rheoliadau ac mae'r rheoliadau'n rhy gymhleth. Mae angen symleiddio'r cyfan".*

Cyfweliad â gweithredwr safle tirlenwi, 2022.

4.30 Teimlai tri chynrychiolydd casglwyr masnachol / gweithredwyr seilwaith eraill a gyfwelwyd fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi bod yn ysgogydd ariannol i'w busnesau. Roeddent yn esbonio bod y gost gynyddol uchel o anfon gwastraff i'w dirlenwi wedi golygu pwysau am atebion rhatach – a mwy cynaliadwy fel arfer (a allai adlewyrchu'r gostyngiad mewn tunelli a dirlanwyd rhwng blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2020-21, Ffigur 8). Fodd bynnag, roedd un o'r rheini a gafodd eu cyfweld yn rhybuddio y gallai treth garbon bosibl (o ganlyniad i gynllun masnachu allyriadau'r Deyrnas Unedig yn ehangu i gynnwys ynni o wasgraff) gynyddu ffioedd clwyd ac achosi cymhelliad i wastraff gael ei ddargyfeirio'n ôl i safleoedd tirlenwi.

*"Rhan glyfar y dreth oedd y cyfnod pontio cymharol fyr a lwythwyd fel y gellid cychwyn ar unwaith gyda phenderfyniadau a buddsoddiadau. Mae'n enghraifft wych o'r hyn y dylid ei wneud mewn lleoedd eraill er mwyn yr agenda carbon/newid hinsawdd".*

Cyfweliad â chasglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall, 2022.

*"Heb y Dreth Gwarediadau Tirlenwi mae'n amheus a fyddai'n busnes [treulio anaerobig] yn bod."*


Cyfweliad â chasglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall, 2022.

*"Gyda'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi … mae'r gost o anfon gwastraff i'w dirlenwi yn hynod o uchel. Rydym wedi newid y ffordd rydym yn paratoi ein gwastaff – ei sychu, cymryd cymaint ag sy'n bosibl o ddeunyddiad ailgylchadwy allan, etc. Rydym wedi buddsoddi mewn gwell peirianweithiau trin dwr i gael cymaint ag sy'n bosibl allan o'r ffrwd wastraff. Mae hyn i gyd wedi ei ysgogi gan gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi."*

Cyfweliad â chasglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall, 2022.

4.31 Yn gyffredinol, credai ymatebwyr a arolygwyd (ar draws gwahanol gyfleusterau trin gwastraff) fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi bod yn ysgogydd/ystyriaeth ariannol i'w sefydliad. Credau dros hanner (58 y cant neu wyth ymatebydd) fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi bod yn ysgogydd/ystyriaeth naill ai i raddau 'helaeth' neu raddau 'cymedrol' (Ffigu 10).

**Ffigur 10: I ba raddau mae'r dreth wedi bod yn ysgogydd / ystyriaeth ariannol i'ch sefydliad?**




*Ymatebwyr: Darparwyr triniaethau gwastraff amgen, casglwyr gwastraff masnachol, darparwyr gwasanaethau llogi sgipiau, darparwyr trosglwyddo gwastraff (n=14)*

**Canlyniadau anfwriadol**

**B2.** Beth sydd wedi newid yng Nghymru o ganlyniad i'r Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi?

- B2.1 Nodwch feysydd lle mae'r ddeddfwriaeth yn gweithio'n dda, wedi cael effaith gadarnhaol (a chanlyniadau anfwriadol cadarnhaol) ac sydd, er enghraifft, yn annog cydymffurfio.
- B2.2 Nodwch feysydd lle nad yw'r ddeddfwriaeth yn gweithio'n dda, wedi cael effaith negyddol ac yn annog effeithiau neu ganlyniadau anfwriadol nas deisyfir.

4.32 Yn y cyfweliadau ansoddol a'r arolwg, gofynnwyd i rhanddeiliaid am eu barn ar effeithiau cadarnhaol a negyddol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

*Effeithiau cadarnhaol*

4.33 Teimlai 14 o'r rhai a gyfwelwyd (ar draws grwpiau rhanddeiliaid gweithredwyr safleoedd tirlenwi, casglwyr masnachol / gweithredwyr seilwaith eraill, cynhyrchwyr


a chymdeithasau masnach) fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi arwain at arferion mwy cynaliadwy o reoli gwastraff ac wedi arwain at wastraff yn cael ei yrru i fyny'r hierarchaeth. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn esbonio fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cynyddu capasiti ar gyfer ailgylchu a dargyfeirio deunyddiau o dirlenwi – fel yr adlewyrchwyd yng nghyfradd uchel ailgylchu Cymru (gweler adran 3 – ailgylchu ac ailddefnyddio). Roeddent yn ychwanegu hefyd fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi annog buddsoddiad mewn technoleg, cynyddu swyddi ac wedi arwain at brosiectau cymunedol drwy Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

*"Mae [y Dreth Gwarediadau Tirlenwi] wedi dargyfeirio canran uchel o ddeunydd a fyddai'n cael ei dirlenwi o'r blaen. Mae hyn yn dda i'r amgylchedd a'r bobl sy'n byw yng Nghymru ar lefel leol a byd-eang (oherwydd yr ôl troed carbon yn cael ei leihau)."*

Cyfweliad â chasglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall, 2022

*4.34* Caiff safbwyntiau cadarnhaol rhanddeiliaid a gyfwelwyd eu hadlewyrchu yng nghanlyniadau'r arolwg (Ffigur 11. Roedd effeithiau cadarnhaol a grybwyllid yn aml yn cynnwys 'mwy o arloesi mewn rheoli gwastraff' (22 y cant neu saith o ymatebwyr), 'cyfraddau uwch o ailddefnyddio ac ailgylchu' (22 y cant neu saith o ymatebwyr) a 'chefnogi egwyddorion economi gylchol' (19 y cant neu chwech o ymatebwyr).

**Ffigur 11: Yn eich barn chi, beth oedd effeithiau cadarnhaol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar sector gwastraff Cymru yn ehangach?**




*Ymatebwyr: Gweitrhredwyr safleoedd tirlenwi, darparwyr trinaethau gwastraff amgen, casglwyr gwastraff masnachol, darparwyr gwasanaethau llogi sgipiau, darparwyr trosglwyddo gwastraff (n=32)*

*Diffyg effeithiau*

4.35 Credai tri arall a gyfwelwyd (rheoleiddwyr / cyrff llywodraeth a chasglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall) nad oedd fawr ddim newid wedi bod o ganlyniad i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (ee dim newidiadau yn y swm o wastraff a dderbyniwyd) – er y cydnabuwyd yr un pryd y gallai fod yn rhy gynnar i adnabod effeithiau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

*"Mae'n amheus gen i a oes unrhyw newid arwyddocol sy'n uniongyrchol neu hyd yn oed yn anuniongyrchol gysylltiedig â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Byddwn yn dadlau bod y ffordd y rheolir gwastraff Cymru heddiw yn adlewyrchiad o'r strategaethau a roddwyd ar waith tua 10 mlynedd yn ôl ac mai rhan yn unig o'r drafodaeth honno yw treth."*

Cyfweliad â chasglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall, 2022

*Effeithiau negyddol*

4.36 Roedd 15 o'r rhai a gafodd eu cyfweld (ar draws grwpiau rhanddeiliaid gweithredwyr safleoedd tirlenwi, casglwyr masnachol / gweithredwyr seilwaith eraill, cynhyrchwyr, sefydliadau amgylcheddol) yn nodi effeithiau negyddol neu ganlyniadau anfwriadol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar droseddau a thwyll gwastraff (trafwyd ymhellach yn adran 3 – troseddau gwastraff). Credai'r 15 hyn fod cymhlethdod y ddeddfwriaeth a'r bylchau rhwng cyfraddau yn arwain at fylchau y gallai gweithredwyr diegwyddor fantesio arnynt (ee gyda chamddisgrifio a thirlenwi anghyfreithlon). Teimlai un gweithredwr safle tirlenwi nad oedd y grym gorfodi o fewn y ddeddfwriaeth yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botential ac nad oedd camau addas yn cael eu gweithredu yn erbyn gwarediadau anghyfreithlon.

*"Mae unrhyw beth sy'n cyfyngu ar pa mor hawdd yw i bobl gael gwared ar ddeunydd â'r potensial i gymhell ymddygiad troseddol."*

Cyfweliad â chymdeithas fasnach, 2022.

4.37 Roedd tri o'r rhai a gyfwelwyd (cynhyrchwr, gweithredwr safle tirlenwi a chasglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall) yn cyfeirio at y baich costau sy'n gysylltiedig â'r dreth. Roeddent yn esbonio bod y dreth wedi arwain at gynyddu cost


gwaredu gwastraff i’r cynhyrchwr, a gredai fod hyn yn peri problem neilltuol i fusnesau bach.

4.38 Roedd tri a gyfwelwyd (gweithredwyr safleoedd tirlenwi a sefydliadau amgylcheddol) yn cyfeirio at sut y defnyddid refeniw’r dreth. Roeddent yn nodi nad oedd y refeniw, gan ei fod yn mynd i bot canolog, yn cael ei ddefnyddio’n uniongyrchol o fewn y gymuned leol. Roeddent yn cydnabod rôl Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn eu hymateb. Credai un gweithredwr safle tirlenwi y dylid neilltuo cyfran o’r refeniw ar gyfer cronfa i wella a chynyddu rheoleiddio.

4.39 Teimlai rhai o’r rheini a gyfwelwyd nad oedd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn edrych ymlaen yn ddigonol. Credai un cynrychiolydd cymdeithas fasnach nad oedd y dreth yn ystyried y waddol tirlenwi anferth yng Nghymru (er na fanylwyd ar oblygiadau’r diffyg ystyriaeth hon). Dywedodd casglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall fod y dreth yn brin o gynllun hirdymor a bod angen rhwystro llithro’n ôl i dirlenwi o ganlyniad i offerennau megis y dreth garbon (o ganlyniad i gynllun masnachu allyriadau’r Deyrnas Unedig yn ehangu i gynnwys ynni o wastraff).

4.40 Roedd safbwyntiau negyddol y rheini a gyfwelwyd yn cael eu hadlewyrchu’n gyffredinol yng nghanlyniadau’r arolwg (Ffigur 12). Yr effaith negyddol a nodwyd yn fwyaf cyffredin oedd ‘cynyddu achosion o warediadau anawdurdodedig’ (32 y cant neu 10 o ymatebwyr), yn unol â chanfyddiadau’r cyfweliadau. Diddorol yw gweld nad oedd camddisgrifio – er iddo gael ei amlygu fel effaith negyddol gan nifer o rai a gyfwelwyd – ond yn cael ei nodi gan 10 y cant (tri) o ymatebwyr yr arolwg fel effaith negyddol.

**Ffigur 12: Yn eich barn chi, beth oedd effeithiau negyddol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar sector gwastraff ehangach Cymru?**




*Ymatebwyr: gweithredwr safle tirlenwi, darparwyr triniaethau gwastraff amgen, casglwyr gwastraff masnachol, darparwyr gwasanaethau llogi sgipiau, darparwyr trosglwyddo gwastraff (n=31)*

**Ymddygiad y diwydiant ac arloesi o'i fewn**

**B3.** Sut mae'r ddeddfwriaeth wedi dylanwadu ar ymddygiad y diwydiant ac ar arloesi o'i fewn?

- **B3.1** Beth fu'r prif newidiadau yn y diwydiant o safbwynt ymddygiad ac arloesi o ganlyniad i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ers ei chyflwyno yn 2018?
- **B3.2** A yw'r dylanwad ar ymddygiad ar arloesi wedi bod yn wahanol ers i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ddisodli'r Dreth Tirlenwi?
- **B3.3** A yw'r dreth wedi bod yn ysgogydd ariannol i fusnesau?

4.41 Yn gyffredinol, credai'r rhai a gafodd eu cyfweld fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (a threthi tirlenwi yn gyffredinol) wedi dylanwadu ar ymddygiad y diwydiant ac ar arloesi o'i fewn. Ar y llaw arall, roeddent yn pwysleisio hefyd fod ysgogwyr eraill, yn enwedig y tirwedd polisi ehangach, wedi cael mwy o effaith ar ymddygiad y diwydiant ac ar arloesi o'i fewn.

*Buddsoddi ac arloesi mewn dewisiadau amgen a mwy cynaliadwy o drin gwastraff*

4.42 Yn y cyfweliadau ansoddol, bu rhanddeiliaid yn trafod newidiadau mewn ymddygiad ac arloesi o ganlyniad i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Nid oedd y rhai a gyfwelwyd yn credu bod gwahaniaeth amlwg wedi bod mewn ymddygiad ac arloesi ers i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ddisodli'r dreth tirlenwi yng Nghymru. Fel y pwysleisiwyd gan un sefydliad amgylcheddol a bwysleisiwyd, roedd llawer o arloesi cyn y Dreth Gwarediadau Tirlenwi oherwydd y cynnydd cyflym yng nghyfradd yr esgynnydd (paragraff 1.4). O'r herwydd, mae'r argraffiadau a gyflwynir isod yn fwyaf tebygol o ragflaenu cyflwyno'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn 2018.

4.43 Roedd rhanddeiliaid yn nodi bod cynnydd wedi bod mewn arloesi a buddsoddi mewn ynni o wastraff, cyfleusterau ailgylchu deunyddiau, compostio, treulio anaerobig, a thriniaeth fiolegol fecanyddol (gweler y drafodaeth ar hyfywedd busnesau tirlenwi/gwastraff, paragraffau 4.30 i 4.31). Fodd bynnag, cymysg oedd y farn ymysg rhanddeiliaid ynghylch ai'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi oedd yn gyfrifol am newidiadau o'r fath.

4.44 Roedd rhai rhanddeiliaid (tri a gyfwelwyd, gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn bennaf) yn credu bod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ysgogydd cryf o arloesi a buddsoddi yn y math o decholegau amgen a grybwyllir uchod.

"*Mae'r diwydiant gwastraff wedi gweld buddsoddiad anferth oherwydd nad oes ar neb eisiau talu £100/tunnell o dreth tirlenwi. Mae hyn yn arwain at iddo gael ei fuddsoddi mewn offer [amgen].*"

Cyfweliad â gweithredwr safle tirlenwi, 2022

*"Er bod rôl allweddol gan gyllid a'r agenda cynaliadwyddd (yr economi gylchol bellach), y prif ysgogydd yn wreiddiol oedd y dreth tirlenwi."*

Cyfweliad â gweithredwr safle tirlenwi, 2022

4.45 Credai chwech o randdeiliaid (cynhyrchwyr, casglwyr masnachol a gweithredwyr seilwaith eraill, a chymdeithasau masnach) nad oedd newidiadau mewn arloesi ac ymddygiad i'w priodoli'n unig i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Pwysleisiai rhanddeiliaid rôl y tirwedd polisi cyffredinol sydd gyda'i gilydd wedi annog dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi. Roedd enghreifftiau o bolisïau o'r fath yn cynnwys targedau ailgylchu statudol, targedau datgarboneiddio a'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (LAS).

*"Mae ein portffolio buddsoddi heddiw yn ymwneud yn gyfan gwbl â charbon, nid yw'n ymwneud â'r dreth tirlenwi. Felly, rydym yn cael ein rheoli gan set wahanol iawn o baramedrau."*


Cyfweliad â chasglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall, 2022.

*"Mae [y Dreth Gwarediadau Tirlenwi] wedi cyflawni ei diben ond bellach mae pethau eraill yn cymryd drosodd. Mae ar gwmnïau eisiau cael eu gweld yn gwneud yn well o safbwynt ailgylchu etc.".*

Cyfweliad â chymdeithas fasnach, 2022.

4.46 Caiff barn amrywiol y rhai a gyfwelwyd ei hadlewyrchu yng nghanlyniadau'r arolwg (Ffigur 13). Credai tua 36 y cant (neu gyfanswm o bump) o ymatebwyr fod ymddygiad ac arloesi wrth reoli gwastraff wedi 'newid llawer' neu 'newid i raddau cymedrol'. Ar y llaw arall, credai 64 y cant (neu gyfanswm o naw) o ymatebwyr yr arolwg fod ymddygiad ac arloesi naill ai wedi 'newid ychydig' neu 'heb newid'.

**Ffigur 13: Faint mae ymddygiad ac arloesi wrth reoli gwastraff wedi newid ers i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ddisodli'r dreth dirlenwi yn 2017?**




*Ymatebwyr: Gweithredwr safle tirlenwi, darparwyr triniaethau gwastraff amgen, casglwyr gwastraff masnachol, darparwyr gwasanaethau llogi sgipiau, darparwyr trosglwyddo gwastraff (n=14)*

## 5. Canfyddiadau allweddol – cwestiynau ehangach

### Gwersi a ddysgwyd o wledydd eraill y Deyrnas Unedig

**C1.** A oes gwersi a ddysgwyd gan wledydd eraill y Deyrnas Unedig a allai ddangos ffyrdd at newid pellach mewn ymddygiad mewn perthynas â threthi tirlenwi?

5.1 Hyd yma, nid yw deddfwriaeth trethi tirlenwi yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig wedi bod yn destun gwerthusiad nac adolygiad ffurfiol. Nid oedd Galwad am Dystiolaeth 2021 ar y Dreth Tirlenwi yn cynnwys gwersi a ddysgwyd. Felly, mae'r adran hon yn canolbwyntio ar argraffiadau ac agweddau rhanddeiliaid, a gasglwyd trwy gyfweliadau ansoddol.

5.2 Gofynnwyd i randdeiliaid a gyfwelwyd o gyrff llywodraeth yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig a oedd unrhyw wersi a ddysgwyd y gellid eu cymhwyso i Gymru. Er y gwnaed rhai cymariaethau cyffredinol gyda gwledydd eraill y Deyrnas Unedig (fel y trafodir drwy'r holl adroddiad hwn), nid oedd y rhai a gyfwelwyd yn gallu nodi unrhyw wersi penodol a ddysgwyd.

5.3 Esboniodd un o’r rhai a gafodd eu cyfweld sut roedd gwledydd y Deyrnas Unedig yn cydweithio ar faterion sy’n ymwneud â threth tirlenwi. Esboniodd fod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig ar ‘alwadau tair-gwlad’. Defnyddid y galwadau hyn i gyfnewid strategaethau, gwybodaeth ar ddulliau o ddehongli’r rheolau a’r ddeddfwriaeth, a dulliau o brofi pwerau rheoleiddio o dan y ddeddfwriaeth. Roeddent hefyd yn trafod sut y gellid rhannu gwybodaeth yn ystod ymchwiliadau (yn enwedig lle ymchwilir i nifer o bobl o fewn achos unigol).

**Cydnawsedd â pholisi amgylcheddol ehangach**

**C2.** Pa mor gydnaws yw’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi â pholisi amgylcheddol ehangach?

**B6.** Pa effaith mae’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei gael ar gynnydd tuag at gyrraedd targedau amgylcheddol presennol ee 2025 a 2050 ‘Strategaeth Mwy nag Ailgylchu’ gan gynnwys beth sydd wedi bod yn effeithiol a heb fod mor effeithiol?

5.4 Fel rhan o’r adolygiad desg a’r cyfweliadau ansoddol, adolygwyd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ôl graddau ei chydnawsedd â pholisïau, deddfwriaeth a strategaethau amgylcheddol allweddol sy’n ymwneud â rheoli gwastraff, yr economi gylchol a sero net yng Nghymru. Trafodir y rhain yn y paragraffau canlynol.

*Gwastraff tirlenwi a chyfraddau ailgylchu*

5.5 Canfu’r adolygiad desg gyfraniadau clir gan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn benodol, lleihau gwastraff sy’n mynd i safleoedd tirlenwi, cynyddu cyfraddau ailgylchu, a lleihau pwysau ar adnoddau naturiol. Mae’r rhain yn themâu amlwg o fewn Symud Cymru Ymlaen,[56] Ffyniant i Bawb,[57] Tuag at Ddyfodol Diwastraff,[58] Mwy nag Ailgylchu,[59] y Polisi Adnoddau Naturiol,[60] Deddf yr Amgylchedd (Cymru)[61] a Cymru Sero Net - Cyllideb Garbon 2

[56] Llywodraeth Cymru (2016). Symud Cymru Ymlaen
[57] Llywodraeth Cymru (2019). Ffyniant i Bawb: Cymru sy’n Effro i’r Hinsawdd
[58] Llywodraeth Cymru (2010). Tuag at Ddyfodol Diwastraff: ein strategaeth wastraff
[59] Llywodraeth Cymru (2021). Mwy nag Ailgylchu 2021
[60] Llywodraeth Cymru (2018). Polisi Adnoddau Naturiol
[61] Llywodraeth Cymru (2016). Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016


(2021 i 2025)[62]. O fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae hefyd ddangosydd cenedlaethol ar y swm o wastraff a gynhyrchir na chaiff ei ailgylchu.[63]

5.6 Gellir dadlau mai'r hyn sy'n cydgyfeirio fwyaf â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yw Mwy nag Ailgylchu, strategaeth Cymru i drawsnewid at economi gylchol a gyflwynwyd yn 2021 (a chyn hynny, Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn 2010). Gosododd y ddwy strategaeth dargedau ailgylchu statudol ac mae ganddynt darged i gyflawni nod o ddim gwastraff trefol yn cael ei dirlenwi erbyn 2025.

5.7 Fel y dangosir yn Ffigur 14, roedd taflwybr ar i lawr yng nghyfanswm y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yng Nghymru rhwng 2018 a 2020 (1,431 i 979 kt, a lleihad o 32 y cant). Roedd cynnydd mewn gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi rhwng 2020 a 2021 (979 i 1,138 kt, cynnydd o 16 y cant), y gellid o bosibl ei briodoli i'r pandemig COVID-19 neu lefelau uwch o wastaff yn cael eu mewnforio o Loegr (fel y dangosir yn Ffigur 6). Dylid nodi bod cyfanswm gwastraff wedi lleihau yn ystod cyfnodau clo'r pandemig COVID-19 (ee Mawrth – Mehefin 2020) ond iddo gynyddu yn dilyn llacio'r cyfyngiadau. Ni ddarlunir gwahaniaethau manwl o'r fath o fewn Ffigur 14 oherwydd y defnydd o ddata blynyddol. Roedd lefelau o wastraff a anfonwyd i dirlenwi yn 2021 yn dal i fod yn llai nag yn 2018, gyda lleihad cyffredinol o 35 y cant. Roedd y lleihad mewn gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi rhwng 2018 a 2020 yn arbennig o amlwg yn ne-ddwyrain Cymru. Yn y rhanbarth hwn, bu lleihad o 39 y cant yn y gwastraff a dderbyniwyd gan safleoedd tirlenwi. Mae'r data yn cyflwyno'r taflwybr iawn tuag at cyflawni'r nod o beidio â thirlenwi dim gwastraff. Cyflwynir manylion pellach ar wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn adrannau 3 (defnyddio technolegau amgen) a 4 (hyfywedd tirlenwi) o'r adroddiad hwn.

[62] Llywodraeth Cymru (2021). Cymru Sero Net - Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025) | LLYW.CYMRU
[63] Llywodraeth Cymru (2015). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Ffigur 14: Cyfanswm gwastraff a dderbyniwyd (kt) gan safleoedd tirlenwi, ar sail ffurflenni trwyddedu, wedi eu categoreiddio yn ôl Rhanbarthau Cymru, 2018-2021**





Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru (2022). Data Ffurflenni Trwyddedau Gwastraff

5.8 O ran y mathau o wastraff a dderbynnir gan safleoedd tirlenwi, mae Ffigur 15 yn dangos bod y symiau o wastraff peryglus, cartref, masnachol a diwydiannol, anadweithiol, ac adeiladu a dymchwel a dderbyniwyd gan safleoedd tirlenwi wedi lleihau rhwng 2018 a 2020, gan ddangos cynnydd tuag at y nod o ddim gwastraff tirlenwi erbyn 2025. Rhwng 2020 a 2021, cynyddodd symiau'r holl fath o gwastraff a grybwyllir uchod a dderbyniwyd gan safleoedd tirlenwi. Yn benodol, bu cynnydd o 34 y cant yn swm gwastraff cartref a masnachol a diwydiannol a dderbyniwyd. Fel y nodir uchod, gellid o bosibl priodoli hyn i'r pandemig COVID-19, er (fel y crybwyllir ym mharagraff 5.7), yn sgil y defnydd o ddata blynyddol, ni chaiff gwahaniaethau manwl mewn lefelau o wastraff eu cynrychioli o fewn Ffigur 15 (ee lleihaodd ffrydiau gwastraf adeiladu a dymchwel a masnachol a diwydiannol yn ystod y cyfnodau clo, ond bu iddynt gynyddu yn dilyn llacio cyfyngiadau).

5.9 Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r sector adeiladu a dymchwel ar y trywydd i gyrraedd y targedau rhwystro gwastraff, ailgylchu a thirlenw a osodwyd gan

Lywodraeth Cymru.[64] Mae hyn yn allweddol gan fod gwastraff adeiladu a dymchwel yn ffurfio'r gyfran ail uchaf o wastraff a dderbynnir gan safleoedd tirlenwi (mae'r gyfran uchaf o drin gwastraff a dŵr (Catalog Gwastraff Ewropeaidd pennod 19), gweler Ffigur 9). Trafodir manylion pellach ar wastraff adeiladu a dymchwel a masnachol a diwydiannol yn adran 3 – defnyddio technolegau amgen.

**Ffigur 15: Cyfanswm gwastraff a dderbyniwyd (kt) gan safleoedd tirlenwi wedi ei gategoreiddio yn ôl math o wastraff yng Nghymru, 2013 – 2021**




** Mae'r rhan llwyd ei liw yn cyfeirio at y cyfnod cyn datganoli'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi*

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru (2022). Data Ffurflenni Trwyddedau Gwastraff

5.10 Elfen allweddol arall o gyflawni'r nod o beidio â thirlenwi dim gwastraff yw cynyddu cyfraddau ailgylchu. Gosododd Mwy nag Ailgylchu darged o gynyddu cyfraddau ailgylchu yng Nghymru i 64 y cant cyn 2025, ac i 70 y cant erbyn 2025. Roedd data rhwng 2017 a 2021 yn dangos bod cyfraddau ailgylchu gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cynyddu o 63 y cant i 65 y cant – felly'n rhagori ar darged cyn-2025 o 64 y cant.[65] Ar lefel awdurdod lleol, cyrhaeddodd 19 allan o'r 22 awdurdod lleol y targed cyn-2025, ac o'r rhain, roedd pedwar awdurdod

[64] Cyfoeth Naturiol Cymru (2019) .Arolwg Gwastraff Adeiladu a Dymchwel 2019.
[65] Llywodraeth Cymru (2021). Datganiad Ystadegol Cyntaf: Rheoli Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol, 2020-21

lleol eisoes wedi cyrraedd targed 2025. Rhoddir manylion pellach ar gyfraddau ailgylchu yn adran 3 – effaith ar ailgylchu ac ailddefnyddio.

5.11 Cafodd cydnawsedd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi â pholisïau Cymreig sy'n ymwneud â lleihau gwastraff ei grybwyll gan reoleiddwyr / cyrff llywodraeth a chasglwyr masnachol / gweithredwyr seilwaith eraill mewn cyfweliadau ansoddol. Yn ogystal, credau rhanddeiliaid y byddai'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cydgyfeirio'n dda iawn â chyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr, y cynllun dychwelyd ernes a pholisïau rheoliadau ailyglchu safleoedd annomestig (pan gyflwynir hwy) mewn gyrru gwastraff oddi wrth dirlenwi.

*"Mae Cymru wedi cael mwy o sicrwydd polisi gyda thargedau statudol a dewisiadau casglu, sydd wedi golygu bod Cymru'n llawer mwy tebygol o gyrraedd y nod nag yw Lloegr. Mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cydweddu'n dda yng nghanol myrdd o bolisi. Yng Nghymru, rydych wedi cael yr holl fframweithiau polisi eraill sy'n golygu bod gennych fwy o'r seilwaith iawn yn cael ei adeiladu a mwy o ddeunyddiau yn cael eu cipio yn y ffordd iawn. Byddwn yn dweud eich bod wedi cael mwy o gynnydd oherwydd mae popeth yn fwy cydlynus. Yn Lloegr, mae'r Dreth Tirlenwi wedi bod yn arwyddocaol ar brydiau lle mae polisi amgylchynol yn brin a lle nad oes dim trosolion eraill wedi bod."*

Cyfweliad â chasglwr masnachol / gweithredwr seilwaith arall, 2022.

*Sero Net*

5.12 Canfu'r adolygiad desg gydnawsedd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi â blaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru ynghylch cyflawni sero net, yr hyn mae Cynllun Cymru Sero Net[66] yn canolbwyntio arno a thema amlwg yn Symud Cymru Ymlaen.[67] Fel y nodir yng Nghynllun Cymru Sero Net, bu lleihad o 64 y cant mewn allyriadau o wastraff rhwng y flwyddyn sylfaenol (1990) a 2019 a chafodd 403,000 tunell o allyriadau $CO_2$ eu hosgoi trwy ymdrechion ailgylchu awdurdodau lleol yn 2019/20. Er nad yw gwahanu'r effaith y peth hawsaf i'w wneud, mae'n debygol fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gyfrannwr allweddol.

[66] Llywodraeth Cymru (2021) Cymru Sero Net
[67] Llywodraeth Cymru (2016). Symud Cymru Ymlaen

*Polisïau ehangach*

5.13 Mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi hefyd yn cefnogi blaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag economi gynaliadwy, sy'n thema amlwg yn Symud Cymru Ymlaen. Gellid dadlau bod y dreth wedi cyfrannu at 'Gymru lewyrchus a diogel' (un o nodau'r strategaeth) trwy roi sicrwydd busnes a chae chwarae gwastad i fusnesau gwastraff cyfreithlon (trwy leihau gwarediadau anawdurdodedig), law yn llaw â hyrwyddo economi garbon isel.[68,69] Yn ogystal, cyfrannodd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi at yr un thema trwy sefydlu Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Fel y trafodwyd ym mharagraffau 5.14 i 5.27, mae'r Cynllun Cymunedau wedi galluogi cymorth i brosiectau dan arweiniad cymunedau, hyrwyddo datblygu sgiliau, ynni cymunedol a chreu swyddi.

**Adolygiad o Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi**

| |
|---|
| **C4.** Pa effaith mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei gael ar ymddygiad y sector gwastraff ac ar ganlyniadau amgylcheddol ehangach ar sail yr adolygiad annibynnol o Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi? |

5.14 Rhaglen a gyllidir gan grant Llywodraeth Cymru yw Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, sy'n cefnogi prosiectau cymunedol ac amgylcheddol lleol mewn ardaloedd sydd wedi eu lleoli'n agos i safleoedd tirlenwi neu orsafoedd trosglwyddo gwastraff. Caiff ei chyllido trwy gynllun statudol sy'n seiliedig ar ddyrannu refeniw a godir trwy'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. O refeniw'r Llywodraeth, caiff £1.5 miliwn o gyllid ei ddyrannu'n flynyddol i Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Cyflawnwyd adolygiad annbynnol o'r Cynllun Cymunedau gan Eunomia yn 2022.[70] Mae'r adolygiad hwn yn ymestyn dros y cyfnod o 2018 i 2021.

5.15 Rhaid i brosiectau y dyfernir cyllid grant iddynt o dan y Cynllun Cymunedau hyrwyddo a chefnogi un neu fwy o'r themâu canlynol:

[68] Llywodraeth Cymru (2017). Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): Memorandwm Esboniadol
[69] Llywodraeth Cymru (2020). Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020
[70] Eunomia (2022). Adolygiad o Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

- Dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth a’r arferion gorau i leihau’r swm o wastraff a gynhyrchir;
- Bioamrywiaeth trwy greu rhwydweithiau ecolegol cadarn; a
- Gwelliannau amgylcheddol ehangach, sy’n dod â budd cymunedol ehangach trwy wella ansawdd lle.

5.16 Mae’r paragraffau isod yn trafod effaith y Cynllun Cymunedau ar ymddygiad y sector gwastraff a chanlyniadau amgylcheddol ehangach.

*Ymddygiad y sector gwastraff*

5.17 Nid yw Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn anelu’n benodol at ddylanwadu ar ymddygiad y sector rheoli gwastraff. Fodd bynnag, canfuwyd ei fod yn cael dylanwad cadarnhaol ar ymddygiad unigolion (sef aelodau’r gymuned) mewn perthynas â gwastraff trwy ei bwyslais ar ddargyfeirio gwastraff o dirlenwi a lleihau gwastaff.

5.18 Mae’r Cynllun Cymunedau wedi ariannu prosiectau o dan arweiniad cymunedau sydd â phwyslais ar gael gwared ar wastaff o safleoedd natur a threftadaeth, cynyddu gweithgarwch ynghylch ailgylchu a rheoli gwastraff yn gywir i rwystro tipio anghyfreithlon, a rhwystro gwastraff rhag cael ei dirlenwi trwy fentrau adnewyddu, atgyweirio ac ailddosbarthu. Mae prosiectau’n cynnwys Caffi Trwsio Cymru (ac iddo’r nod o leihau gwastraff, rhannu sgiliau ymarferol, a chryfhau cymunedau trwy ddarparu canolfan leol i wirfoddolwyr atgyweirio eitemau cartref); ‘llyfrgell pethau’ (gwasanaeth benthyca cymunedol ar gyfer eitemau cartref) i leihau gwastraff; ehangu Ail-lenwi Cymru (i annog a helpu pobl i symud tuag at systemau y gellir eu hail-lenwi a’u hailddefnyddio); a datblygu cynhyrchion hirhoedlog i’r gymuned leol wedi eu gwneud o blastigau môr.

5.19 Ar adeg yr adolygiad, mae’r Cynllun Cymunedau wedi ariannu 962 o fentrau sy’n annog atal, ailddefnyddio, adfer, ac ailgylchu gwastraff; 768 o fentrau sy’n ennyn diddordeb a helpu dealltwriaeth er mwyn galluogi gwastraff i gael ei weld fel adnodd; a 66 o fentrau sy’n lleihau gwastraff bwyd a chefnogi mentrau megis compostio.

5.20 Cafodd cyfraniad y Cynllun Cymunedau at leihau gwastraff ei adlewyrchu yn adolygiad y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Roedd dogfennau'n amlygu bod prosiectau'r Cynllun Cymunedau wedi canolbwyntio ar atal gwastraff, yn enwedig mewn cymunedau bregus.[71] Awgryma hyn fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'r Cynllun Cymunedau yn ategu ei gilydd a'u bod yn gydnaws â pholisi a ddeddfwriaeth ehangach Llywodraeth Cymru sy'n ceisio dargyfeirio gwastraff o dirlenwi a hyrwyddo economi gylchol (fel y trafodir ym mharagraffau 5.5 i 5.11).

*Canlyniadau amgylcheddol ehangach*

5.21 Canfuwyd bod Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi rhoi cefnogaeth gadarnhaol i welliannau amgylcheddol ehangach, yn benodol mewn meysydd sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a lleihau carbon.

5.22 Caiff cyfraniadau prosiectau'r Cynllun Cymunedau i fioamrywiaeth eu nodi isod yn ôl themâu allweddol.

- **Darparu gwybodaeth ac uwchsgilio.** Mae prosiectau wedi cynyddu gwybodaeth ac uwchsgilio unigolion mewn meysydd sy'n ymwneud â bioamrywiaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys prosiectau gerddi addysgiadol mewn bwyd trefol ac ysgolion coedwig cynaliadwy.
- **Adfer rhywogaethau a gwarchod cynefinoedd.** Mae prosiectau wedi cyflawni ymyraethau a gafodd eu targedu i helpu adfer rhywogaethau a gwarchod cynefinoedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwella amodau i ffyngau, datblygu cynefinoedd gwlyptiroedd a rhostiroedd, a chyflwyno'r bele i gyfyngu ar niferoedd gwiwerod llwyd.
- **Atebion seiliedig ar natur.** Mae amryw o brosiectau wedi cefnogi atebion seiliedig ar natur trwy gynyddu brigdwf a datblygu seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch. Mae enghreifftiau'n cynnwys datblygu Coedwigoedd Bach (coetir cynhenid trwchus, sy'n tyfu'n gyflym), adfywio coetiroedd ffawydd prin, creu parciau natur, sefydlu wal werdd.
- **Cymorth i bryfed peillio.** Mae prosiectau wedi datblygu cynefinoedd amrywiol a chysylltiedig i helpu pryfed peillio, gan gynnwys datblygu coridorau bywyd

[71] Llywodraeth Cymru (2022). Gweithio gyda'n gilydd i gyrraedd sero net: Cynllun Cymru Gyfan 2021-2025

gwyllt trwy adfer gwrychoedd, rhoi gerddi cymunedol ar waith, a chreu clwb garddio sydd wedi cynyddu diddordeb, dealltwriaeth a gweithgarwch y cyhoedd mewn bioamrywiaeth.

5.23 Erbyn adeg yr adolygiad hwn, mae'r Cynllun Cymunedau wedi ariannu 2,275 o fentrau sy'n cefnogi nodau bioamrywiaeth.

5.24 O ran lleihau carbon, roedd meysydd mae prosiectau'r Cynllun Cymunedau wedi canolbwyntio arnynt yn cynnwys ynni cymunedol ac economi garbon isel trwy sefydlu systemau gwresogi effeithlon o ran ynni ac inswleiddio. Fe wnaeth prosiectau hefyd wella llecynnau gwyrdd (ee gwella llwybr bryngaer yng Ngheredigion) a chodi ymwybyddiaeth o faterion byd-eang (ee bu O'r Ddinas i'r Môr yn ymwneud â phroblem fyd-eang llygredd plastig).

5.25 Roedd gweithredwyr safleoedd tirlenwi a gyfwelwyd yn nodi effeithiau cadarnhaol y Cynllun Cymunedau, yn enwedig o safbwynt buddion cymunedol, er na wnaethant ddweud bod y cynllun wedi effeithio ar eu hymddygiad. Fodd bynnag, dywedodd un sefydliad amgylcheddol a gyfwelwyd fod rhywfaint o'r cyllid nad oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y prosiectau iawn (ee adeiladau neuaddau pentref neu feysydd parcio newydd).

5.26 Cwestiwn allweddol yw a fyddai'r mentrau hyn wedi digwydd heb gyllid Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (ychwanegedd). Fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun, canfu arolwg gyda buddiolwyr y Cynllun amryw o fentrau a fyddai'n annhebygol o fod wedi digwydd heb gymorth y Cynllun. Er bod ffynonellau eraill o gylllid yn bod, ychydig o ffynonellau sy'n ariannu prosiectau lleol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau amgylcheddol. Y farn oedd bod mwy o gystadleuaeth am gyllid arall, gan ei gwneud yn fwy anodd cael ato. Er hynny, canfu'r adolygiad sawl prosiect hefyd a oedd wedi gallu symud ymlaen heb gyllid y Cynllun.[72]

5.27 Roedd adolygiad y Cynllun Cymunedau yn cydnabod bod disgwyl i refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru ddisgyn o £45 miliwn yn 2021-22 i £35 miliwn yn 2026-27. Roedd yr adolygiad yn nodi hefyd fod disgwyl i'r swm o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi leihau yn yr hirdymor, gan arwain at leihad disgwyliedig

[72] Prosiectau a ymgeisiodd i Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ond a oedd yn aflwyddiannus.

mewn refeniw o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.[73] Er y byddai hyn yn effeithio i ryw raddau ar gyllid y Cynllun Cymunedau yn y dyfodol, caif rhaglen grantiau'r Cynllun ei hariannu trwy refeniw cyffredinol Llywodraeth Cymru; nid refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yw'r unig elfen a fydd yn effeithio ar gyllid yn y dyfodol. Er gwaethaf hyn, mae'r Cynllun Cymunedau'n dal yn gysylltiedig â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac felly gellir priodoli cyfraniadau'r Cynllun Cymunedau at leihau gwastraff a chanlyniadau amgylcheddol ehangach (a drafodir uchod) i ryw raddau i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

[73] Mae hyn o dan senario sy'n tybio bod cyfraddau treth yn aros yn gyson neu'n profi cynnydd bach wrth i gyfeintiau tirlenwi leihau.

# 6. Casgliadau

6.1 Nod yr astudiaeth oedd adolygu effeithiolrwydd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru a chanfod unrhyw wersi a ddysgwyd ers iddi ddod i rym yn 2018.

6.2 Roedd barnu effeithiolrwydd Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) ynddi ei hun ac ar wahân yn anodd am ddau reswm: i) cymerodd le'r Dreth Tirlenwi yng Nghymru yn 2018 a chysonwyd ei gyfraddau trethi a chategorïau gwastraff â rhai ei rhagflaenydd. Roedd rhai rhanddeiliaid yn ei chael yn anodd ystyried effeithiolrwydd y dreth tirlenwi yn y cyfnod ers iddi gael ei datganoli yn unig, a ii) mae'n gweithredu o fewn tirwedd polisi ehangach ac iddo'r nod o yrru gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi a thuag at ffyrdd amgen o'i drin.

6.3 Dengys y canfyddiadau o'r astudiaeth hon fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gydnaws iawn â pholisïau a blaenoraethau amgylcheddol Llywodraeth Cymru a'i bod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at flaenoriaethau rheoli gwastraff, ond mae'n debygol fod ffactorau eraill wedi chwarae rhan fwy mewn annog effaith cadarnhaol ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu a defnyddio technolegau amgen. Er y gallai'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi fod wedi cyfrannu at y cynnydd hwn mewn ailgylchu, credai rhanddeiliaid fod ffactorau ysgogi eraill (yn benodol arwyddion gwleidyddol fod tirlenwi yn ddewis anhyfyw a thargedau ailgylchu statudol awdurdodau lleol) wedi cael mwy o effaith. Yn ogystal, am y rhesymau a amlinellir uchod, mae'r effeithiau uniongyrchol yn anodd eu gwahanu oddi wrth ymyraethau eraill. Er hynny, mae'n rhan hanfodol o becyn o fesurau polisi sydd gyda'i gilydd yn gyrru gwastraff oddi wrth dirlenwi ac i fyny'r hierarchaeth gwastraff (sef tuag at atal, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer).

6.4 Roedd rhanddeiliaid yn awgrymu gwelliannau i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i'w hystyried, a oedd fel a ganlyn:

- Cyflwyno cyfraddau amrywiol neu gyfradd ganolig o dreth i gyfrif am wahanol feichiau amgylcheddol deunyddiau unigol a problem camddosbarthu.
- Newid y cyfraddau a drethir ar rai deunyddiau er mwyn sicrhau bod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael yr effaith a ddeisyfir (er enghraifft, gellir yn hawdd

gyflwyno priddoedd halogedig fel priddoedd glân sy'n denu'n gyfradd is, gan gymell i'r deunydd gael ei anfon i safleoedd tirlenwi).

- Lleihau'r baich gweinyddol mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ei roi ar weithredwyr safleoedd tirlenwi (y bernir ei fod yn llawer uwch nag ar gyfer deddfwriaeth tirlenwi mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig).
- Neilltuo cyfran o'r refeniw treth ar gyfer gwella a chynyddu rheoleiddio sy'n ymwneud â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

6.5 Byddai angen i unrhyw newidiadau, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â newidiadau i gyfraddau, gael eu hystyried yng nghyd-destun rheoli gwastraff yn ehangach yn wyneb cysondeb y Dreth Gwarediadau Tirlenwi â deddfwriaeth trethi tirlenwi yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig.

6.6 Roedd y tîm ymchwil yn ei chael yn anodd denu rhanddeiliaid addas i gymryd rhan. Roedd hyn yn arbennig o wir am weithredwyr safleoedd tirlenwi, casglwyr gwastraff masnachol, darparwyr seilwaith gwastraff amgen a chynhyrchwyr gwastraff mawr. Yn aml, teimlai busnesau nad oedd hwn yn bwnc roeddent yn gallu gwneud sylwadau arno. Ymddengys fod hyn yn wir hefyd am ymgynghoriad blaenorol o dreth tirlenwi, a gyflawnwyd ym mis Medi 2015, lle'r oedd y nifer o atebion a gategoreiddiwyd fel 'busnes' yn llawer is na grwpiau eraill o randdeiliaid. Bydd angen meddwl ymhellach sut i ennyn mwy o gydweithrediad cyn cynnal unrhyw brosiectau ymchwil ar y pwnc hwn yn y dyfodol. Er enghraifft, archwilio'r defnydd o gymhellion i gymryd rhan mewn ymchwil neu Lywodraeth Cymru i chwarae mwy o ran mewn recriwtio (i gyfleu pwysigrwydd yr ymchwil).

6.7 Yn olaf, roedd amryw o gwestiynau ymchwil na ellid eu hateb yn llawn oherwydd diffyg data (ee cwestiynau'n ymwneud â chamddisgrifio, troseddau gwastraff, a gwerth a swm gwarediadau anawdurdodedig). Pe bai mwy o'r data hwn ar gael gallai gefnogi prosesau penderfynu ar gyfer gwelliannnau yn y ddeddfwriaeth ei hun (lle mae'n bosibl gwneud newidiadau) neu wrth reoli'r dreth.

**Atodiad A: Rhestr o grwpiau rhanddeiliaid**

Amlinellir isod y rhestr o sefydliadau rhanddeiliaid y cysylltwyd â hwy fel rhan o'r adolygiad, naill ai fel cyfranogwyr uniongyrchol mewn ymchwil sylfaenol (trwy arolygon a/neu gyfweliadau) neu a gefnogodd yr ymchwil sylfaenol (trwy ddosbarthu arolygon neu adnabod rhanddeiliaid posibl y gallem siarad â hwy).

- Asiantaeth Gwarchod Amgylchedd yr Alban (SEPA)
- Awdurdod Cyllid Cymru
- Biffa
- Biogen
- Brisco Waste Disposal
- Chartered Institution of Wastes Management (CIWM)
- CWM Environmental
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC)
- Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (WESA)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cyngor Conwy
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Defra
- DS Smith
- Enifinium
- FCC Environment
- Fox Brothers
- Greenacres Skip Hire
- Gwynedd Skip & Plant Hire
- Humphreys Waste Recycling
- JLA Disposal
- Llywodraeth Cymru
- Mineral Products Association (MPA)
- Potter Group
- Revenue Scotland
- Severn Trent Green Power
- Smiths Waste Management

- SUEZ Recycling and Recovery
- Treborth Leisure
- Trysorlys Ei Fawrhydi
- United Resource Operators Consortium (UROC)
- Veolia (UK)
- Williams a Williams CYF
- Wrecsam Wrecycled
- Ymddiriedolaethau Natur Cymru

**Atodiad B: Canllawiau Pwnc**

## Canllawiau Pwnc Sefydliadau Amgylcheddol

### Cyflwyniad

1. Allwch chi roi cipolwg bras imi o'ch sefydliad a'ch rôl.
*Holi: Sut mae eich gwaith yn ymwneud â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi?*

**Cyfraddau Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru: Hoffem fanteisio ar eich profiad i ddeall effaith cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar sut y caiff gwastraff ei reoli o fewn y sector gwastraff (gan gynnwys gwarediadau anawdurdodedig) dros y pum mlynedd ddiwethaf.**

2. Mae cyfraddau safonol ac is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cael eu cynyddu'n hanesyddol ar raddfa gyson â chwyddiant rhagamcanol. I ba raddau yn eich barn chi mae'r dull hwn wedi cael effaith ar ddargyfeirio gwastraff oddi wrth dirlenwi?
*Holi: A oes unrhyw enghreifftiau/achosion lle mae cynnydd mewn cyfraddau ailgylchu yn gysylltiedig â chodi'r cyfraddau safonol ac is yn unol â chwyddiant?*

3. Fel y byddwch yn gwybod, mae cyfradd safonol ac is o dreth o fewn Cymru. Ym mlwyddyn ariannol 2021/2022, roedd y rhain yn sefyll ar: £98.60 cyfradd safonol; £3.15, cyfradd is. Yn eich barn chi, sut mae'r gwahaniaeth rhwng dwy raddfa hyn y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi dylanwadu ar sut y caiff gwastraff ei reoli o fewn y sector gwastraff?
*Holi: A yw'r cyfraddau'n ddigon uchel i roi cymhelliad i ysgogi adferiad a dargyfeirio cyfatebol o dirlenwi?*

4. Mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gweithredu gwahanol gyfraddau treth ar wahanol gategorïau o wastraff. Mae hyn yn ymwneud ag effaith amgylcheddol y ffrydiau gwastraff hyn, lle mae'r ffrydiau gwastraff sydd ag effeithiau amgylcheddol negyddol is yn derbyn y gyfradd is, tra bod y rheini sydd ag effeithiau negyddol uwch yn derbyn y gyfradd safonol a chaiff gwarediadau anawdurdodedig eu gosod ar 150 y cant o'r gyfradd safonol.
O'ch safbwynt chi, i ba raddau ydych chi'n meddwl mae gwahanol gyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (cyfraddau safonol, is a gwaredu anawdurdodedig) yn gymesur ag effeithiau amgylcheddol eu ffrydiau gwastraff cysylltiedig?
*Holi: Pam / pam ddim? Holi: A oes unrhyw enghreifftiau o lle mae'r cyfraddau a'r categorïau gwastraff yn cyfateb ag effaith amgylcheddol ffrydiau gwastraff o'r fath neu lle nad ydynt yn gwneud hynny?*

5. O’r arsylwadau chi, a oes unrhyw ffrydiau gwastraff lle nad yw cyfraddau’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn effeithiol wrth rwystro gwastraff rhag cael ei anfon i dirlenwi? Pa ffrydiau?
*Holi: Pam ydych chi’n meddwl bod y ffrydiau gwastraff hyn yn mynd i dirlenwi yn hytrach na chael eu hailgylchu, eu hailddefnyddio, neu eu hanfon i adfer ynni? Sut gellid gwneud gwelliannau i gysoni’n well y cyfraddau a’r ffrydiau gwastraff?*

6. Pa effaith, os o gwbl, ydych chi’n meddwl mae cyfraddau’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei chael ar gynnydd yn y defnydd o dechnolegau amgen, mwy cynaliadwy (ee treulio anaerobig a chompostio)?
(Os effaith o gwbl) Allwch chi roi unrhyw enghreifftiau o sut mae’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi dylanwadu ar ddefnyddio technolegau amgen, mwy cynaliadwy (ee treuio anaerobig a chompostio)?

7. Ar hyn o bryd, mae cyfraddau trethi tirlenwi (safonol ac is) yr un fath ledled y Deyrnas Unedig. Sut mae hyn wedi dylanwadu ar dwristiaeth gwastraff rhwng gwledydd?
*Holi: Pa effaith fyddai ar dwristiaeth gwastraff pe bai gwahaniaeth mewn cyfraddau trethi tirlenwi rhwng Cymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig? Ydych chi’n gwybod am unrhyw dwristiaeth gwastaff rhwng Cymru a Lloegr? (sef symud gwastraff ar draws ffiniau i ganfod dewisiadau trin gwastraff mwy fforddiadwy neu fwy effeithiol). Os ydych chi, pa effaith neu ddylanwad, os o gwbl, mae cyfraddau’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei gael ar dwristiaeth gwastraff rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig?*

8. Wrth feddwl am ffioedd clwyd, ydych chi’n gwybod am unrhyw wahaniaethau mewn ffioedd clwyd tirlenwi rhwng Cymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig?
*Holi: Pa wledydd sydd â ffioedd uwch / is / wedi newid dros amser? Sut mae hyn wedi dylanwadu ar y llifau o wastraff rhwng gwledydd?*

9. I ba raddau ydych chi’n meddwl bod cyfraddau ffioedd clwyd tirlenwi yn gysylltiedig â newidiadau i gyfraddau’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi?
*Holi: Pam? Unrhyw enghreifftiau?*

10. Mae cyfradd y dreth gwarediadau anawdurdodedig yng Nghymru wedi ei gosod ar 150 y cant o gyfradd safonol y dreth. Yn Lloegr a’r Alban, mae’r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig wedi ei gosod ar 100 y cant. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol neu aneffeithiol mae’r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig wedi bod? *Holi: Ydych chi’n meddwl bod y gyfradd gwarediadau anawdurdodedig yng*

*Nghymru wedi bod yn fwy neu'n llai effeithiol nag yn Lloegr a'r Alban? Pam / pam ddim?*

11. Sut mae cynllun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi dylwanadu ar gamddisgrifio gwastraff o fewn y diwydiant gwastraff yn ei gyfanrwydd?
*Holi: Yn fwy penodol, sut mae'r bwlch rhwng y cyfraddau safonol ac is wedi effeithio ar gamddisgrifio gwastraff mewn safleoedd tirlenwi? A oes unrhyw enghreifftiau? Os oes, pa wahaniaeth rhwng y gyfradd safonol a'r gyfradd is a fyddai'n arwain at ddim, neu fawr ddim, gwastraff yn cael ei gamddisgrifio?*

**Deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi: Hoffem fanteisio ar eich profiad i ddeall y graddau mae deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (sef heblaw cyfraddau'r dreth) wedi newid y ffordd y caiff gwastraff ei reoli dros y pum mlynedd ddiwethaf.**

12. I ba raddau'r ydych yn gwybod am y manylion ynghylch esemptiadau, rhyddhadau a disgownt o dan y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi? (os yn gwybod) Yn eich barn chi, pa effeithiau mae'r rhyddhadau, disgownt a'r esemptiadau o dan y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi wedi eu cael ar reoli gwastraff yng Nghymru?
*Holi: Cadarnhaol / negyddol? Pam / pam ddim? I ba raddau mae'r rhyddhadau, disgownt ac esemptiadau mewn treth gwarediadau tirlenwi yn dal i fod yn addas ac angenrheidiol?*

13. Pa wahaniaethau mewn deddfwriaeth ydych chi'n gwybod amdanynt rhwng y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru a deddfwriaethau trethi tirlenwi yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig? (sef esemptiadau, rhyddhadau, disgownt dŵr)
Os yn gwybod … Sut yn eich barn chi mae'r gwahaniaethau mewn rheoliadau trethi tirlenwi ledled y Deyrnas Unedig wedi effeithio ar: i) gyfraddau ailgylchu; ii) lefelau o risg treth; iii) hyfywedd busnesau tirlenwi/gwastraff?
*Os felly, a yw'r effaith hon wedi bod yn gadarnhaol neu negyddol?*

14. Pa effaith ydych chi'n meddwl mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei chael ar arloesi yn y sector rheoli gwastraff yng Nghymru?
*Holi: Sut mae hyn wedi newid dros amser?*

15. Yn eich barn chi, sut mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cyfrannu at dargedau amgylcheddol Llywodraeth Cymru (ee 2025 a 2050 'Strategaeth Mwy nag Ailgylchu', cyfraddau a thargedau ailgylchu)?

*Holi: Beth sydd wedi bod yn effeithiol / heb fod mor effeithiol? Effeithiau uniongyrchol / effeithiau anuniongyrchol / effeithiau cadarnhaol / effeithiau negyddol?*

**Cwestiynau i grynhoi: hoffem ofyn ychydig o gwestynau crynhoi terfynol ichi ar effaith y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.**

16. Heblaw'r hyn rydym wedi ei drafod eisoes yn y cyfweliad hwn, ydych chi'n meddwl bod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi arwain at unrhyw newidiadau eraill ynghylch rheoli gwastraff yng Nghymru?

17. Ar sail eich arbenigedd a phrofiad, sut hoffech chi weld y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn datblygu yn y dyfodol?

18. A oes unrhyw beth arall yr hoffech wneud sylwadau arno ynghylch effaith y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru rhwng 2018 a 2022?

## Canllawiau Pwnc Rheoleiddwyr / Cyrff Llywodraeth

### Cyflwyniad

1. Allwch chi roi cipolwg bras imi o'ch sefydliad a'ch rôl?
*Holi: Sut mae eich gwaith yn ymwneud â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi?*

**Cyfraddau Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru: Hoffem fanteisio ar eich profiad i ddeall effaith cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar sut y caiff gwastraff ei reoli o fewn y sector gwastraff (gan gynnwys gwarediadau anawdurdodedig) dros y pum mlynedd ddiwethaf.**

2. Mae cyfraddau safonol ac is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cael eu cynyddu'n hanesyddol ar raddfa gyson â chwyddiant rhagamcanol. I ba raddau yn eich barn chi mae'r dull hwn wedi cael effaith ar ddargyfeirio gwastraff oddi wrth dirlenwi?
*Holi: A oes unrhyw enghreifftiau/achosion lle mae cynnydd mewn cyfraddau ailgylchu yn gysylltiedig â chodi'r cyfraddau safonol ac is yn unol â chwyddiant?*

3. Fel y byddwch yn gwybod, mae cyfradd safonol ac is o dreth o fewn Cymru. Ym mlwyddyn ariannol 2021/2022, roedd y rhain yn sefyll ar: £98.60 cyfradd safonol; £3.15, cyfradd is. Yn eich barn chi, sut mae'r gwahaniaeth rhwng dwy raddfa hyn y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi dylanwadu ar sut y caiff gwastraff ei reoli o fewn y sector gwastraff?

*Holi: Sut mae cyfraddau presennol y dreth yn cymell gwastraff tuag at adferiad ac felly'n dargyfeirio o dirlenwi?*

4. O'ch safbwynt chi, i ba raddau ydych chi'n meddwl mae gwahanol gyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (cyfraddau safonol, is a gwaredu anawdurdodedig) yn gymesur ag effeithiau amgylcheddol eu ffrydiau gwastraff cysylltiedig?
*Holi: Pam / pam ddim? Holi: A oes unrhyw enghreifftiau o lle mae'r cyfraddau a'r categorïau gwastraff yn cyfateb ag effaith amgylcheddol ffrydiau gwastraff o'r fath neu lle nad ydynt yn gwneud hynny?*

5. O'r arsylwadau chi, a oes unrhyw ffrydiau gwastraff lle nad yw cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn effeithiol wrth rwystro gwastraff rhag cael ei anfon i dirlenwi? Pa ffrydiau?
*Holi: Pam ydych chi'n meddwl bod y ffrydiau gwastraff hyn yn mynd i dirlenwi yn hytrach na chael eu hailgylchu, eu hailddefnyddio, neu eu hanfon i adfer ynni? Sut gellid gwneud gwelliannau i gysoni'n well y cyfraddau a'r ffrydiau gwastraff?*

6. Pa effaith, os o gwbl, ydych chi'n meddwl mae cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei chael ar gynnydd yn y defnydd o dechnolegau amgen, mwy cynaliadwy (ee treulio anaerobig a chompostio)?
(Os effaith o gwbl) Allwch chi roi unrhyw enghreifftiau o sut mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi dylanwadu ar ddefnyddio technolegau amgen, mwy cynaliadwy (ee treuio anaerobig a chompostio)?

7. Ar hyn o bryd, mae cyfraddau trethi tirlenwi (safonol ac is) yr un fath ledled y Deyrnas Unedig. Sut mae hyn wedi dylanwadu ar dwristiaeth gwastraff rhwng gwledydd?
*Holi: Pa effaith fyddai ar dwristiaeth gwastraff pe bai gwahaniaeth mewn cyfraddau trethi tirlenwi rhwng Cymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig? Ydych chi'n gwybod am unrhyw dwristiaeth gwastaff rhwng Cymru a Lloegr? (sef symud gwastraff ar draws ffiniau i ganfod dewisiadau trin gwastraff mwy fforddiadwy neu fwy effeithiol). Os ydych chi, pa effaith neu ddylanwad, os o gwbl, mae cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei gael ar dwristiaeth gwastraff rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig?*

8. Mae cyfradd y dreth gwarediadau anawdurdodedig yng Nghymru wedi ei gosod ar 150 y cant o gyfradd safonol y dreth. Yn Lloegr a'r Alban, mae'r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig wedi ei gosod ar 100 y cant. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol neu aneffeithiol mae'r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig wedi

bod? *Holi: Ydych chi'n meddwl bod y gyfradd gwarediadau anawdurdodedig yng Nghymru wedi bod yn fwy neu'n llai effeithiol nag yn Lloegr a'r Alban? Pam / pam ddim?*

9. Sut mae cynllun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi dylwanadu ar gamddisgrifio gwastraff o fewn y diwydiant gwastraff yn ei gyfanrwydd?
*Holi: Yn fwy penodol, sut mae'r bwlch rhwng y cyfraddau safonol ac is wedi effeithio ar gamddisgrifio gwastraff mewn safleoedd tirlenwi? A oes unrhyw enghreifftiau? Os oes, pa wahaniaeth rhwng y gyfradd safonol a'r gyfradd is a fyddai'n arwain at ddim, neu fawr ddim, gwastraff yn cael ei gamddisgrifio?*

**Deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi: Hoffem fanteisio are eich profiad i ddeall y graddau mae deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (sef heblaw cyfraddau'r dreth) wedi newid y ffordd y caiff gwastraff ei reoli dros y pum mlynedd ddiwethaf.**

10. I ba raddau'r ydych yn gwybod am y manylion ynghylch esemptiadau, rhyddhadau a disgownt o dan y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi? (os yn gwybod) Yn eich barn chi, pa effeithiau mae'r rhyddhadau, disgownt a'r esemptiadau o dan y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi wedi eu cael ar reoli gwastraff yng Nghymru?
*Holi: Cadarnhaol / negyddol? Pam / pam ddim? I ba raddau mae'r rhyddhadau, disgownt ac esemptiadau mewn treth gwarediadau tirlenwi yn dal i fod yn addas ac angenrheidiol?*

11. Byddai gennym ddiddordeb mewn gwybod am unrhyw amwyseddau neu fylchau yn y ddeddfwriaeth bresennol sy'n golygu bod llai o dreth na'r disgwyl yn cael ei gasglu. Ydych chi'n gwybod am unrhyw amwyseddau neu fylchau yn y ddeddwriaeth bresennol sy'n golygu bod llai o dreth na'r disgwyl yn cael ei gasglu?
*Holi: Enghreifftiau? Sut gellir mynd i'r afael â hyn?*

12. Pa wahaniaethau mewn deddfwriaeth ydych chi'n gwybod amdanynt rhwng y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru a deddfwriaethau trethi tirlenwi yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig? (sef esemptiadau, rhyddhadau, disgownt dŵr)
Os yn gwybod … Sut yn eich barn chi mae'r gwahaniaethau mewn rheoliadau trethi tirlenwi ledled y Deyrnas Unedig wedi effeithio ar: i) gyfraddau ailgylchu; ii) lefelau o risg treth; iii) hyfywedd busnesau tirlenwi/gwastraff?
*Os felly, a yw'r effaith hon wedi bod yn gadarnhaol neu negyddol?*

13. Yn eich barn chi, sut mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cyfrannu at dargedau amgylcheddol Llywodraeth Cymru (ee 2025 a 2050 'Strategaeth Mwy nag Ailgylchu', cyfraddau a thargedau ailgylchu)?
*Holi: Beth sydd wedi bod yn effeithiol / heb fod mor effeithiol? Effeithiau uniongyrchol / effeithiau anuniongyrchol / effeithiau cadarnhaol / effeithiau negyddol?*

**Cwestiynau i grynhoi: hoffem ofyn ychydig o gwestynau crynhoi terfynol ichi ar effaith y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.**

14. (Llywodraeth yr Alban/Lloegr) A oes unrhyw wersi a ddysgwyd ac enghreifftiau o arferion da o wledydd eraill y Deyrnas Unedig o safbwynt treth tirlenwi?

15. Yn eich barn chi, beth fu effeithiau cadarnhaol deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi? Awgrymiadau: annog cydymffurfio, cyfraddau ailgylchu, camddisgrifio, economi gylchol, cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Effeithiau cadarnhaol anfwriadol.

16. Yn eich barn chi, beth fu effeithiau negyddol deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi? Awgrymiadau: hyfywedd busnesau, cyfraddau ailgylchu, camddisgrifio, twristiaeth gwastraff, gwrthdaro â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Effeithiau negyddol anfwriadol.

17. Ar sail eich arbenigedd a phrofiad, sut hoffech chi weld y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn datblygu yn y dyfodol?

18. A oes unrhyw beth arall yr hoffech wneud sylwadau arno ynghylch effaith y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru rhwng 2018 a 2022?

## Canllawiau Pwnc Cynhyrchwyr

### Cyflwyniad

1. Allwch roi disgrifiad byr imi o'ch sefydliad a'ch rôl?
*Holi: Sut mae eich gwaith yn ymwneud â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi? Pa fathau o wastraff ydych chi'n eu cynhyrchu/rheoli?*

**Cyfraddau Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru: Hoffem fanteisio ar eich profiad i ddeall effaith cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar sut y caiff gwastraff ei reoli o fewn y sector gwastraff (gan gynnwys gwarediadau anawdurdodedig) dros y pum mlynedd ddiwethaf.**

2. Fel y byddwch yn gwybod, mae cyfradd safonol ac is o dreth o fewn Cymru. Ym mlwyddyn ariannol 2021/2022, roedd y rhain yn sefyll ar: £98.60 cyfradd safonol; £3.15, cyfradd is. Yn eich barn chi, sut mae'r gwahaniaeth rhwng dwy raddfa hyn y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi dylanwadu ar sut ydych chi'n rheoli eich gwastraff?

3. O'r arsylwadau chi, a oes unrhyw ffrydiau gwastraff lle nad yw cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn effeithiol wrth rwystro gwastraff rhag cael ei anfon i dirlenwi? Pa ffrydiau?
*Holi: Pam ydych chi'n meddwl bod y ffrydiau gwastraff hyn yn mynd i dirlenwi yn hytrach na chael eu hailgylchu, eu hailddefnyddio, neu eu hanfon i adfer ynni? Sut gellid gwneud gwelliannau i gysoni'r cyfraddau a'r ffrydiau gwastraff yn well?*

4. Mae cyfradd y dreth gwarediadau anawdurdodedig yng Nghymru wedi ei gosod ar 150 y cant o gyfradd safonol y dreth. Yn Lloegr a'r Alban, mae'r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig wedi ei gosod ar 100 y cant. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol neu aneffeithiol mae'r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig wedi bod? *Holi: Ydych chi'n meddwl bod y gyfradd gwarediadau anawdurdodedig yng Nghymru wedi bod yn fwy neu'n llai effeithiol nag yn Lloegr a'r Alban? Pam / pam ddim?*

**Deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi: Hoffem fanteisio ar eich profiad i ddeall y graddau mae deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (sef heblaw cyfraddau'r dreth) wedi newid y ffordd y caiff gwastraff ei reoli dros y pum mlynedd ddiwethaf.**

5. I ba raddau'r ydych yn gwybod am y manylion ynghylch esemptiadau, rhyddhadau a disgownt o dan y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi? (os yn gwybod) Yn eich barn chi, pa effeithiau mae'r rhyddhadau, disgownt a'r esemptiadau o dan y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi wedi eu cael ar eich busnes a'r sector ehangach?
*Holi: Cadarnhaol / negyddol? Pam / pam ddim? I ba raddau mae'r rhyddhadau, disgownt ac esemptiadau mewn treth gwarediadau tirlenwi yn dal i fod yn addas ac angenrheidiol?*

6. Pa effaith ydych chi'n meddwl mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei chael ar arloesi o fewn eich busnes?
*Holi: Sut mae hyn wedi newid dros amser?*

7. Ers i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi gymryd lle'r rheoliadau trethi tirlenwi yn 2018, a yw'r dylanwad ar arloesi yn wahanol neu wedi aros yr un fath yn: i) Eich cwmni?; ii) Eich sector?

*Holi: Sut felly? Newidiadau cadarnhaol neu negyddol?*

8. Yn aml, mae cwmnïau'n ystyriaeth amrywiaeth neu restr o ysgogwyr ariannol wrth benderfynu ar sut i reoli eu gwastraff. O'r amrywiaeth o ysgogwyr ariannol eich cwmni, lle mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn disgyn o fewn y rhestr hon?

**Cwestiynau i grynhoi: hoffem ofyn ychydig o gwestynau crynhoi terfynol ichi ar effaith y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.**

9. Yn eich barn chi, beth fu effeithiau cadarnhaol deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi? Awgrymiadau: annog cydymffurfio, cyfraddau ailgylchu, camddisgrifio, economi gylchol, cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Effeithiau cadarnhaol anfwriadol.

10. Yn eich barn chi, beth fu effeithiau negyddol deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi? Awgrymiadau: hyfywedd busnesau, cyfraddau ailgylchu, camddisgrifio, twristiaeth gwastraff, gwrthdaro â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Effeithiau negyddol anfwriadol.

11. Ar sail eich arbenigedd a phrofiad, sut hoffech chi weld y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn datblygu yn y dyfodol?

12. A oes unrhyw beth arall yr hoffech wneud sylwadau arno ynghylch effaith y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru rhwng 2018 a 2022?

## Canllawiau Pwnc Gweithredwyr Seilwaith Eraill a Chasglwyr Masnachol

### Cyflwyniad

1. Allwch chi roi disgrifiad byr imi o'ch sefydliad a'ch rôl?
   *Holi: Sut mae eich gwaith yn ymwneud â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi? Pa wasanaethau mae eich sefydliad yn eu darparu a pha gyfleusterau trin gwastraff sydd gennych?*

**Cyfraddau Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru: Hoffem fanteisio ar eich profiad i ddeall effaith cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar sut y caiff gwastraff ei reoli o fewn y sector gwastraff (gan gynnwys gwarediadau anawdurdodedig dros y pum mlynedd ddiwethaf.**

2. Mae cyfraddau safonol ac is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cael eu cynyddu’n hanesyddol ar raddfa gyson â chwyddiant rhagamcanol. I ba raddau yn eich barn chi mae’r dull hwn wedi cael effaith ar wastraff sy’n cael ei anfon i’ch cyfleusterau chi i’w drin?
*Holi: A oes unrhyw enghreifftiau/achosion lle mae cynnydd mewn cyfraddau ailgylchu yn gysylltiedig â chodi’r cyfraddau safonol ac is yn unol â chwyddiant?*

3. Fel y byddwch yn gwybod, mae cyfradd safonol ac is o dreth o fewn Cymru. Ym mlwyddyn ariannol 2021/2022, roedd y rhain yn sefyll ar: £98.60 cyfradd safonol; £3.15, cyfradd is. Yn eich barn chi, sut mae’r gwahaniaeth rhwng dwy raddfa hyn y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi dylanwadu ar sut y caiff gwastraff ei reoli o fewn y sector gwastraff?
*Holi: Sut mae’r cyfraddau treth presennol yn cymell gwastraff tuag at adferiad ac felly’n ei ddargyfeirio o dirlenwi?*

4. O’r arsylwadau chi, a oes unrhyw ffrydiau gwastraff lle nad yw cyfraddau’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn effeithiol wrth rwystro gwastraff rhag cael ei anfon i dirlenwi? Pa ffrydiau?
*Holi: Pam ydych chi’n meddwl bod y ffrydiau gwastraff hyn yn mynd i dirlenwi yn hytrach na chael eu hailgylchu, eu hailddefnyddio, neu eu hanfon i adfer ynni? Sut gellid gwneud gwelliannau i gysoni’r cyfraddau a’r ffrydiau gwastraff yn well?*

5. Pa effaith, os o gwbl, ydych chi’n meddwl mae cyfraddau’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei chael ar gynnydd yn y defnydd o dechnolegau amgen, mwy cynaliadwy (ee treulio anaerobig a chompostio)?
(Os effaith o gwbl) Allwch chi roi unrhyw enghreifftiau o sut mae’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi dylanwadu ar ddefnyddio technolegau amgen, mwy cynaliadwy (ee treuio anaerobig a chompostio)?

6. (Casglwyr) Wrth feddwl am ffioedd clwyd, ydych chi’n gwybod am unrhyw wahaniaethau mewn ffioedd clwyd tirlenwi rhwng Cymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig?
*Holi: Pa wledydd sydd â ffioedd uwch / is / wedi newid dros amser? Sut mae hyn wedi dylanwadu ar y llifau o wastraff rhwng gwledydd?*

7. I ba raddau ydych chi’n meddwl fod cyfraddau ffioedd clwyd tirlenwi yn gysylltiedig â newidiadau i gyfraddau’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi?
*Holi: Pam? Unrhyw enghreifftiau?*

**Deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi: Hoffem fanteisio ar eich profiad i ddeall y graddau mae deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (sef heblaw cyfraddau'r dreth) wedi newid y ffordd y caiff gwastraff ei reoli dros y pum mlynedd ddiwethaf.**

8. O'ch arsylwadau chi, sut mae sector gwastraff Cymru wedi newid o ganlyniad i'r Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi?

9. O gymharu â rheoliadau trethi tirlenwi 1996, pa effaith ydych chi'n meddwl mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei chael ar arloesi o fewn: i) eich cwmni; a ii) y sector rheoli gwastraff yng Nghymru?
*Holi: Sut mae hyn wedi newid dros amser?*

10. I ba raddau, os o gwbl, mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ystyriaeth neu'n ysgogydd ariannol i'ch busnes?
*Holi: Pam/pam ddim?*

11. Pa effaith, os o gwbl, mae cynllun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chyfraddau trech wedi ei chael ar eich busnes?

**Cwestiynau i grynhoi: hoffem ofyn ychydig o gwestynau crynhoi terfynol ichi ar effaith y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.**

12. Yn eich barn chi, beth fu effeithiau cadarnhaol deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi? Awgrymiadau: annog cydymffurfio, cyfraddau ailgylchu, camddisgrifio, economi gylchol, cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Effeithiau cadarnhaol anfwriadol.

13. Yn eich barn chi, beth fu effeithiau negyddol deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi? Awgrymiadau: hyfywedd busnesau, cyfraddau ailgylchu, camddisgrifio, twristiaeth gwastraff, gwrthdaro â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Effeithiau negyddol anfwriadol.

14. Ar sail eich arbenigedd a phrofiad, sut hoffech chi weld y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn datblygu yn y dyfodol?

15. A oes unrhyw beth arall yr hoffech wneud sylwadau arno ynghylch effaith y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru rhwng 2018 a 2022?

## Canllawiau Pwnc Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi

### Cyflwyniad

1. Allwch chi roi disgrifiad byr imi o'ch sefydliad a'ch rôl?
*Anogaeth: Sut mae eich gwaith yn ymwneud â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi? Pa wasanaethau mae eich sefydliad y neu darparu a pha gyfleusterau trin gwastraff sydd gennych chi? Pa fathau o wastraff ydych chi'n eu cynhyrchu/rheoli?*

**Cyfraddau Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru: Hoffem fanteisio ar eich profiad i ddeall effaith cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar sut y caiff gwastraff ei reoli o fewn y sector gwastraff (gan gynnwys gwarediadau anawdurdodedig dros y pum mlynedd ddiwethaf.**

2. Mae cyfraddau safonol ac is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cael eu cynyddu'n hanesyddol ar raddfa gyson â chwyddiant rhagamcanol. I ba raddau mae hyn wedi cael effaith ar wastraff yn cael ei yrru i'ch cyfleusterau chi i'w drin?
*Holi: A oes unrhyw enghreifftiau/achosion lle mae cynnydd mewn cyfraddau ailgylchu yn gysylltiedig â chodi'r cyfraddau safonol ac is yn unol â chwyddiant?*

3. Fel y byddwch yn gwybod, mae cyfradd safonol ac is o dreth o fewn Cymru. Ym mlwyddyn ariannol 2021/2022, roedd y rhain yn sefyll ar: £98.60 cyfradd safonol; £3.15, cyfradd is. Yn eich barn chi, sut mae'r gwahaniaeth rhwng dwy raddfa hyn y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi dylanwadu ar sut y caiff gwastraff ei reoli o fewn y sector gwastraff?
*Holi: A yw'r cyfraddau'n ddigon uchel i roi cymhelliad i ysgogi adferiad a dargyfeirio cyfatebol o dirlenwi?*

4. O'r arsylwadau chi, a oes unrhyw ffrydiau gwastraff lle nad yw cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn effeithiol wrth rwystro gwastraff rhag cael ei anfon i dirlenwi? Pa ffrydiau?
*Holi: Pam ydych chi'n meddwl bod y ffrydiau gwastraff hyn yn mynd i dirlenwi yn hytrach na chael eu hailgylchu, eu hailddefnyddio, neu eu hanfon i adfer ynni? Sut gellid gwneud gwelliannau i gysoni'r cyfraddau a'r ffrydiau gwastraff yn well?*

5. Ar hyn o bryd, mae cyfraddau trethi tirlenwi (safonol ac is) yr un fath ledled y Deyrnas Unedig. Sut mae hyn wedi dylanwadu ar dwristiaeth gwastraff rhwng gwledydd?
*Holi: Pa effaith fyddai ar dwristiaeth gwastraff pe bai gwahaniaeth mewn cyfraddau trethi tirlenwi rhwng Cymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig? Ydych chi'n*

*gwybod am unrhyw dwristiaeth gwastaff rhwng Cymru a Lloegr? (sef symud gwastraff ar draws ffiniau i ganfod dewisiadau trin gwastraff mwy fforddiadwy neu fwy effeithiol). Os ydych chi, pa effaith neu ddylanwad, os o gwbl, mae cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei gael ar dwristiaeth gwastraff rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig?*

6. Wrth feddwl am ffioedd clwyd, ydych chi'n gwybod am unrhyw wahaniaethau mewn ffioedd clwyd tirlenwi rhwng Cymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig?
*Holi: Pa wledydd sydd â ffioedd uwch / is / wedi newid dros amser? Sut mae hyn wedi dylanwadu ar y llifau o wastraff rhwng gwledydd?*

7. I ba raddau ydych chi'n meddwl bod cyfraddau ffioedd clwyd tirlenwi yn gysylltiedig â newidiadau i gyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi?
*Holi: Pam? Unrhyw enghreifftiau? A yw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cael effaith/dylanwad ar eich ffioedd clwyd? Heblaw'r dreth tirlenwi, ydych chi'n gwybod am unrhyw ffactorau eraill sy'n effeithio ar ffioedd clwyd?*

8. Sut mae cynllun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi dylwanadu ar gamddisgrifio gwastraff o fewn y diwydiant gwastraff yn ei gyfanrwydd?
*Holi: Yn fwy penodol, sut mae'r bwlch rhwng y cyfraddau safonol ac is wedi effeithio ar gamddisgrifio gwastraff mewn safleoedd tirlenwi? A oes unrhyw enghreifftiau? Os oes, pa wahaniaeth rhwng y gyfradd safonol a'r gyfradd is a fyddai'n arwain at ddim, neu fawr ddim, gwastraff yn cael ei gamddisgrifio?*

**Deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi: Hoffem fanteisio ar eich profiad i ddeall y graddau mae deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (sef heblaw cyfraddau'r dreth) wedi newid y ffordd y caiff gwastraff ei reoli dros y pum mlynedd ddiwethaf.**

9. I ba raddau'r ydych yn gwybod am y manylion ynghylch esemptiadau, rhyddhadau a disgownt o dan y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi? (os yn gwybod) Yn eich barn chi, pa effeithiau mae'r rhyddhadau, disgownt a'r esemptiadau o dan y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi wedi eu cael: i) are eich busnes; a ii) ar reoli gwastraff yng Nghymru?
*Holi: Cadarnhaol / negyddol? Pam / pam ddim? I ba raddau mae'r rhyddhadau, disgownt ac esemptiadau mewn treth gwarediadau tirlenwi yn dal i fod yn addas ac angenrheidiol?*

10. Pa wahaniaethau mewn deddfwriaeth ydych chi'n gwybod amdanynt rhwng y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru a deddfwriaethau trethi tirlenwi

yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig? (sef esemptiadau, rhyddhadau, disgownt dŵr)
Os yn gwybod … Sut yn eich barn chi mae'r gwahaniaethau mewn rheoliadau trethi tirlenwi ledled y Deyrnas Unedig wedi effeithio ar: i) gyfraddau ailgylchu; ii) lefelau o risg treth; iii) hyfywedd busnesau tirlenwi/gwastraff?
*Os felly, a yw'r effaith hon wedi bod yn gadarnhaol neu negyddol?*

11. O gymharu â rheoliadau trethi tirlenwi 1996, pa effaith ydych chi'n meddwl mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei chael ar arloesi o fewn: i) eich cwmni; a ii) y sector rheoli gwastraff yng Nghymru?
*Holi: Sut mae hyn wedi newid dros amser?*

12. I ba raddau, os o gwbl, mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ystyriaeth neu'n ysgogydd ariannol i'ch busnes?
Holi: Pam/pam ddim?

13. Pa effaith, os o gwbl, mae cynllun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chyfraddau treth wedi ei chael ar eich busnes?

**Cwestiynau i grynhoi: hoffem ofyn ychydig o gwestynau crynhoi terfynol ichi ar effaith y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.**

14. Yn eich barn chi, beth fu effeithiau cadarnhaol deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi? Awgrymiadau: annog cydymffurfio, cyfraddau ailgylchu, camddisgrifio, economi gylchol, cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Effeithiau cadarnhaol anfwriadol.

15. Yn eich barn chi, beth fu effeithiau negyddol deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi? Awgrymiadau: hyfywedd busnesau, cyfraddau ailgylchu, camddisgrifio, twristiaeth gwastraff, gwrthdaro â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Effeithiau negyddol anfwriadol.

16. Ar sail eich arbenigedd a phrofiad, sut hoffech chi weld y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn datblygu yn y dyfodol?

17. A oes unrhyw beth arall yr hoffech wneud sylwadau arno ynghylch effaith y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru rhwng 2018 a 2022?

## Atodiad C: Strategaeth samplu

| Rhanddeiliad | Dull Ymchwil | Poblogaeth | Sampl Targed | Dull a Meini Prawf Samplu | Ffynhonnell Cysylltiadau | Ystyriaethau Posibl |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi** | **Cyfweliadau**<br>Oherwydd sensitifrwydd rhai cwestiynau, efallai na fyddant yn fodlon rhannu gwybodaeth gyda gweithredwyr safleoedd tirlenwi eraill felly mae hyn wedi ei newid o'r gweithdai. | 18 | Wyth - deg<br>(Un – dau safle tirlenwi wedi cau, gwirio'r rhestr gyda Cyfoeth Naturiol Cymru) | **Samplu pwrpasol**<br>Meini prawf:<br>Y rheini sy'n trin eu gwastraff eu hunain yn bennaf (ee Tata, RWE, Casnewydd) gyferbyn â'r rheini sy'n trin gwastraff o amrywiaeth helaethach o ffynonellau (ee awdurdodau lleol[74])<br>Yn ôl math o wastraff a dirlenwir (Mae pob safle yn cyflwyno ffurflenni chwarterol i Cyfoeth Naturiol Cymru wedi eu rhannu yn ôl y gwastraff a reolir, sy'n dangos codau EWC)<br>Safleoedd tirlenwi presennol a rhai wedi cau[75] (gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru am restr o safleoedd tirlenwi wedi cau)<br>Lleoliad o fewn Cymru<br>Safleoedd tirlenwi mwy (gan gynnwys y pump sy'n cynnwys 80 y cant o wastraff a dirlenwir) | Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru, CIWM<br>Neu Eunomia i ganfod manylion cyswllt ar-lein | Angen sicrhau ein bod yn siarad gyda'r bobl iawn; gofyn i ddechrau i Cyfoeth Naturiol Cymru os gallant rannu manylion cyswllt gyda ni, sy'n debygol o fod yn rheolwyr tirlenwi; rhaid inni weithio wedyn tuag at gyfweld, gallwn ddiweddu'n siarad â'r arweinydd masnachol sydd â goruchwyliaeth strategol o dirlenwi |

[74] Mae'n bwysig cydnabod y gall awdurdodau lleol ymddangos fel gweithredwyr safleoedd tirlenwi ac fel cynhyrchwyr gwastraff. Lle gell hyn ddigwydd, byddwn yn addasu ein dull cyfweld â'r rhanddeiliad penodol hwnnw fel bo'r angen.
[75] Bydd y rhain yn ymwneud a safleoedd tirlenwi a wnaeth gau yn ystod y cyfnod gwerthuso.

| Rhanddeiliad | Dull Ymchwil | Poblogaeth | Sampl Targed | Dull a Meini Prawf Samplu | Ffynhonnell Cysylltiadau | Ystyriaethau Posibl |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Byddwn yn mapio'r gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn erbyn y gwahanol feini prawf i benderfynu ar y rhaniad. | | |
| **Cynhyrchwyr gwastraff ee awdurdodau lleol, cwmnïau adeiladu** | **Cyfweliadau**<br>Gallent fod â sensitifrwydd tebyg i weithredwyr safleoedd tirlenwi | - | 10 | **Samplu Pwrpasol**<br>Meini prawf<br>Sefydliadau sy'n cynhyrchu mwy o dunelli<br>Yn ôl ffynonellau o wastraff a anfonir i dirlenwi (ee adeiladu a dymchwel, etc)<br>Math o gynhyrchwr gwastraff (ee cwmnïau adeiladu, awdurdodau lleol)<br>Siarad gyda rhai awdurdodau lleol sydd wedi arwyddo contractau yn ddiweddar gyda llosgwyr (pam wnaethant symud at losgwyr o dirlenwi, er enghraifft; gallu edrych ar WasteDataFlow i weld lle mae gwastraff awdurdod lleol yn mynd) | Eunomia | Cyfranogi cyfyngedig oherwydd pwysau amser/gwaith |

| Rhanddeiliad | Dull Ymchwil | Poblogaeth | Sampl Targed | Dull a Meini Prawf Samplu | Ffynhonnell Cysylltiadau | Ystyriaethau Posibl |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sefydliadau amgylcheddol a chymdeithasau masnach (ychwanegiad newydd)** | **Cyfweliadau** | - | Pedwar (hollt dau/dau) | **Samplu Pwrpasol**<br>Meini prawf:<br>Rhai sy'n canolbwyntio ar Gymru neu rai Prydeinig sydd â gwybodaeth o Gymru<br>Meini prawf penodol:<br>– **Sefydliadau amgylcheddol:** Sefydliadau anllywodraethol sy'n ymwneud â gwastraff neu'r economi gylchol (**Cadwch Gymru'n Daclus fel blaenoriaeth**, WRAP i'w ystyried), neu'r rheini sydd â gwybodaeth o dirlenwi (Cyfeillion y Ddaear fel blaenoriaeth)<br>– **Cymdeithasau masnach**: cymdeithasau masnach sy'n ymwneud â gwastraff neu'r economi gylchol (ee UROC, CIWM, Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Ailgylchu) | Eunomia a Llywodraeth Cymru<br>Ar gyfer cymdeithasau masnach, rydym eisoes mewn cysylltiad ag UROC, CIWM, Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am gymorth cyffredinol i ennyn ymateb rhanddeiliaid | Angen sicrhau ein bod yn adnaboc y cynrychiolwyr iawn a all ymateb i'r cwestiynau'n unol â hynny |

| Rhanddeiliad | Dull Ymchwil | Poblogaeth | Sampl Targed | Dull a Meini Prawf Samplu | Ffynhonnell Cysylltiadau | Ystyriaethau Posibl |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwybdaeth dechnegol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi vs gwybodaeth ar bolisi ehangach Cymru | | |
| **Cyrff rheoleidio / cyrff llywodraeth** | **Cyfweliadau** | Pedwar | Pedwar | **Samplu Pwrpasol**<br>I gynnwys:<br>Lloegr: Defra a Thrysorlys Ei Fawrhydi (cyfweliad ar y cyd[76])<br>Yr Alban: SEPA a Revenue Scotland (cyfweliad ar y cyd)<br>Cymru: Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru (cyfweliadau ar wahân)<br>Cymru: Llywodraeth Cymru (ee Andy Rees)<br>Meini prawf i gynrychiolwyr:<br>Adrannau sy'n ymwneud yn benodol â gwastraff/yr amgylchedd ym mhob llywodraeth<br>Gwybodaeth arbenigol ar yr hyn sydd gyfwerth â'r Ddeddf Treth | Llywodraeth Cymru | Adrannau Llywodraeth Cymru, y Deyrnas Unedig a'r Alban |

[76] Rydym wedi cynnig cyfweliadau ar y cyd i rai grwpiau penodol o randdeiliaid er mwyn effeithlonrwydd ac er mwyn sicrhau ein bod yn cael amrywiaeth helaeth o safbwyntiau. Fodd bynnag, bydd angen i'r dull hwn gael ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau bod y cyfweliadau'n dal i weithio. Bydd hyn yn cynnwys gwirio ymlaen llaw fod cyfranogwyr yn hapus i gael eu cyfweld gyda rhywun o sefydliad arall a chyfyngu ar y nifer a gyfwelir (ee un o bob sefydliad) er mwyn sicrhau niferoedd y gellir eu rheoli.

| Rhanddeiliad | Dull Ymchwil | Poblogaeth | Sampl Targed | Dull a Meini Prawf Samplu | Ffynhonnell Cysylltiadau | Ystyriaethau Posibl |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwarediadau Tirlenwi ym mhob gwlad<br>Cyfarwydd ag effaith y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac offerynnau polisi eraill ar y sector<br>Rydym wedi hepgor yr NIEA oherwydd nad yw Gogledd Iwerddon yn rhannu ffin gyda Lloegr ac mae twristiaeth gwastraff yn llai tebygol wrth orfod trosglwyddo gwastraff dros y môr; mae'r Alban hefyd yn well cymhariaeth â Lloegr oherwydd mae ganddyn nhw'r un pwerau i osod eu Treth Gwarediadau Tirlenwi eu hunain. Mae Treth Gwarediadau Tirlenwi Lloegr mewn grym yng Ngogledd Iwerddon yn ogystal. | | |
| **Darparwyr seilwaith trin gwastraff (ee Ynni o Wastraff a** | Cyfweliadau VS Gweithdai | - | I'w gadarnhau | **Samplu Pwrpasol**<br>Meini prawf: | Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Gwasanaethau | Rhyw raddau o hunan-ddewis yn anochel. Gellir lliniaru hyn trwy allgymorth eang a hygyrchedd dulliau cyfranogi |

| Rhanddeiliad | Dull Ymchwil | Poblogaeth | Sampl Targed | Dull a Meini Prawf Samplu | Ffynhonnell Cysylltiadau | Ystyriaethau Posibl |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **darparwyr triniaethau eraill[77])** | | | | Busnes sy'n gweithredu yng Nghymru<br>Pwysau mwy ar ddarparwyr triniaethau gwastraff yn hytrach na chwmnïau casglu a sgipiau<br>Ar y prif berson / pobl a gyfwelir: rhaid iddynt fod wedi bod gyda'r cwmni neu wedi gweithio yn y diwydiant ers o leiaf bum mlynedd | Amgylcheddol Cymru, CIWM | |
| **Cwmnïau casglu mawr** | | - | | | Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru, CIWM | |
| **Cwmnïau sgip**<br>***Nhw sy'n debygol o anfon y mwyaf o wastraff i dirlenwi a nhw sydd â'r potensial o gyflawni'r mwyaf o dwyll.*** | | - | | | UROC | Efallai na fydd cwmnïau bach mewn cysylltiad â chymdeithasau masnach |

[77] Rydym wedi argymell cynnwys amrywiaeth o ddarparwyr triniaethau er mwyn deall sut y dylanwadwyd ar eu dewis i fuddsoddi a gweithredu eu triniaeth benodol gan unrhyw ffactorau ynghylch tirlenwi a Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

**Atodiad D: Cwestiynau ymchwil a chwestiynau atodol**

| Math o gwestiwn | Cwestiwn Ymchwil | Cwestiwn Atodol |
|---|---|---|
| Effaith | A1 I ba raddau mae'r dull a ddefnyddiwyd hyd yma i godi'r gyfradd safonol ac is yn unol â chwyddiant wedi bod yn effeithiol wrth annog cynnydd mewn ailgylchu ac ailddefnyddio? | |
| | A2 Beth yw effaith y bwlch rhwng y gyfradd is a safonol mewn perthynas ag ymddygiad? | A2.1 A yw'r bwlch rhwng cyfraddau safonol ac is wedi cymell camddisgrifio gwastraff? |
| | | A2.2 Os felly, pa lefel o newid i'r cyfraddau allai'r sector ei goddef pe bai'r bwlch yn cau? |
| | A3 I ba raddau mae'r gwahanol gyfraddau a chategorïau gwastraff yn neddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gymesur ag effeithiau amgylcheddol cyffredinol ffrydiau gwastraff o'r fath? | |
| | A4 A oes ffrydiau gwastraff penodol nad yw'n ymddangos bod y cyfraddau'n cael effaith ataliol ar eu cyfer? | A4.1 Pam allai hyn (peidio â chael effaith ataliol) fod? |
| | | A4.2 Sut gellid gwneud gwelliannau o ran cysoni'r cyfraddau a'r ffrydiau gwastraff? |
| | A5 A oes unrhyw gydberthynas wedi bod rhwng cynnydd yng nghyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chynnydd yn y defnydd o dechnolegau amgen mwy cynaliadwy (ee treulio anaerobig a chompostio)? | |
| | A6 Ystyriwch rôl y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn yr hyn sy'n ysgogi llif gwastraff rhwng Lloegr (a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig) a Chymru ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â chymell ymddygiad a thwristiaeth gwastraff. | |

| Math o gwestiwn | Cwestiwn Ymchwil | Cwestiwn Atodol |
|---|---|---|
| | A7 Archwiliwch y rhyngweithio rhwng ffioedd clwyd a chyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. | A7.1 A yw'r ffioedd clwyd wedi lleihau wrth i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi gynyddu? |
| | | A7.2 Pa wahaniaethau sydd mewn ffioedd clwyd rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig? |
| | | A7.3 Os oes gwahaniaethau mewn ffioedd clwyd, a yw'r gwahaniaethau mewn ffioedd clwyd rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig wedi dylanwadu ar y llif o wastraff rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig? |
| | A8 A oes unrhyw dystiolaeth fod cael y gyfradd gwarediadau anawdurdodedig wedi cael effaith ataliol? | A8.1 A oes unrhyw dystiolaeth o leoedd eraill yn y Deyrnas Unedig fod dod â gwarediadau anawdurdodedig o dan gwmpas treth gwarediadau tirlenwi wedi cael effaith ganfyddedig ar atal troseddau gwastraff? |
| | | A8.2 A oes unrhyw dystiolaeth fod y gyfradd uwch yng Nghymru yn cael mwy o effaith nag yn Lloegr a'r Alban lle gweithredir y gyfradd safonol ar gyfer gwarediadau anawdurdodedig? |

| Math o gwestiwn | Cwestiwn Ymchwil | Cwestiwn Atodol |
|---|---|---|
| Ymddygiad | B1 A oes unrhyw dystiolaeth fod y gwahaniaethau mewn deddfwriaeth Trethi Gwarediadau Tirlenwi o'u cymharu o fewn y Deyrnas Unedig wedi cael effaith, ac os felly, a yw'r effaith hon wedi bod yn gadarnhaol neu negyddol ar: gyfraddau ailgylchu; lefelau o risg treth; hyfywedd busnesau tirlenwi/gwastraff? | |
| | B2 Beth sydd wedi newid yng Nghymru o ganlyniad i'r Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi? | B2.1. Nodwch feysydd lle mae'r ddeddfwriaeth yn gweithio'n dda, wedi cael effaith gadarnhaol (a chanlyniadau anfwriadol cadarnhaol) ac sydd, er enghraifft, yn annog cydymffurfio. |
| | | B2.2. Nodwch feysydd lle nad yw'r ddeddfwriaeth yn gweithio'n dda, wedi cael effaith negyddol ac yn annog effeithiau neu ganlyniadau anfwriadol nas deisyfir. |
| | B3 Sut mae'r ddeddfwriaeth wedi dylanwadu ar ymddygiad y diwydiant ac ar arloesi o'i fewn? | B3.1 Beth fu'r prif newidiadau yn y diwydiant o safbwynt ymddygiad ac arloesi o ganlyniad i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ers ei chyflwyno yn 2018? |
| | | B3.2 A yw'r dylanwad ar ymddygiad ar arloesi wedi bod yn wahanol ers i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ddisodli'r Dreth Tirlenwi? |
| | | B3.3 A yw'r dreth wedi bod yn ysgogydd ariannol i fusnesau? |

| **Math o gwestiwn** | **Cwestiwn Ymchwil** | **Cwestiwn Atodol** |
|---|---|---|
| | | B3.4 Pa effeithiau mae'r rhyddhadau, disgownt a'r esemptiadau o dan y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi wedi eu cael ar ymddygiad trethdalwyr? |
| | | B3.5 A yw'r rhyddhadau, disgownt a'r esemptiadau yn y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi yn dal yn addas ac angenrheidiol? |
| | B4 A yw cynllun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi newid ymddygiad o ran camddisgrifio gwastraff i ddibenion treth? | |
| | B5 A oes unrhyw amwyseddau neu fylchau yn y ddeddfwriaeth bresennol sy'n golygu bod llai o dreth na'r disgwyl yn cael ei gasglu? | |
| | B6 Pa effaith mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei gael ar gynnydd tuag at gyrraedd targedau amgylcheddol presennol ee 2025 a 2050 'Strategaeth Mwy nag Ailgylchu' gan gynnwys beth sydd wedi bod yn effeithiol a heb fod mor effeithiol? | |
| Cwestiynau ehangach | C1 A oes gwersi a ddysgwyd gan wledydd eraill y Deyrnas Unedig a allai ddangos ffyrdd at newid pellach mewn ymddygiad mewn perthynas â threthi tirlenwi? | |
| | C2 Pa mor gyson yw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi â pholisi amgylcheddol ehangach? | |

| Math o gwestiwn | Cwestiwn Ymchwil | Cwestiwn Atodol |
|---|---|---|
| | C3 Pa effaith mae cynllun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chyfraddau treth wedi ei gael ar benderfyniadau'r diwydiant ynghylch hyfywedd safleoedd tirlenwi yng Nghymru? | |
| | C4 Pa effaith mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi eu gael ar ymddygiad y sector gwastraff ac ar ganlyniadau amgylcheddol ehangach ar sail yr adolygiad annibynnol o Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi? | |
| | C5 Bydd angen i'r adolygiad ystyried hefyd ganfyddiadau'r adolygiad ar wahân o dreth tirlenwi yn Lloegr a Gogledd Iwerddon a gyflawnir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. | |